CHRIS BLANDFORD ASSOCIATES
landscape | environment | heritage

cba

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Torfaen
Public Services Board

# Strategaeth Seilwaith Gwyrdd







Rhagfyr 2019

CHRIS BLANDFORD ASSOCIATES
landscape | environment | heritage

cba

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Torfaen
Public Services Board

# Strategaeth Seilwaith Gwyrdd

Cymeradwywyd

Dominic Watkins

Swydd Cyfarwyddwr

Dyddiad 5 Rhagfyr 2019

Adolygiad

## CYNNWYS

## NEGESEUON ALLWEDDOL

1.0 CYFLWYNO'R SEFYLLFA ........................................... 1
1.1 Cefndir ........................................................................ 1
1.2 Beth yw Seilwaith Gwyrdd? ......................................... 5
1.3 Cyd-destun Polisi ......................................................... 9
1.4 Datblygu'r Strategaeth ..................................................14

2.0 LLE RYDYM NI NAWR ................................................17
2.1 Heriau Allweddol i'n Hadnoddau Naturiol .................17
2.2 Trosolwg o'n Seilwaith Gwyrdd ................................ 26
2.3 Ein Hasedau Seilwaith Gwyrdd ................................. 29
2.4 Hygyrchedd a Chysylltedd Seilwaith Gwyrdd .......... 68

3.0 LLE RYDYM AM FOD ................................................. 75
3.1 Ein Gweledigaeth ar gyfer Seilwaith Gwyrdd ........... 75
3.2 Ein Hamcanion o ran Seilwaith Gwyrdd .................... 77
3.3 Egwyddorion Cynllunio Seilwaith Gwyrdd ............... 84
3.4 Atgyfnerthu ein Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd ....... 86

4.0 SUT BYDDWN NI'N CYFFLAWNI HYN ..................... 109
4.1 Gwireddu Dyheadau ................................................... 109
4.2 Fframwaith i Gyflawni'r Seilwaith Gwyrdd ................111
4.3 Blaenoriaethau i'w Gweithredu ................................. 125
4.4 Monitro'r Ddarpariaeth ............................................... 136

## FFIGURAU


1.1 Lleoliad a Chyd-destun
1.2 Gwasanaethau Ecosystem
1.3 Graddfeydd a Chysylltedd Seilwaith Gwyrdd
1.4 Cyd-destun Polisi Seilwaith Gwyrdd

2.1 Perchnogaeth Tir Cyhoeddus
2.2 Safleoedd Bioamrywiaeth
2.3 Rhwydweithiau Cynefinoedd Mynyddoedd, Rhosydd a Gweundiroedd
2.4 Rhwydwaith Cynefinoedd Glaswelltir Lled-Naturiol
2.5 Rhwydwaith Cynefinoedd Coetir Lled-Naturiol
2.6 Rhwydwaith Cynefinoedd Dŵr Croyw
2.7 Rhwydwaith Cynefinoedd Coedwigaeth Planhigfeydd
2.8 Ansawdd Tir Amaethyddol
2.9 Mannau Gwyrdd Trefol
2.10 Safleoedd Treftadaeth
2.11 Hygyrchedd Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd
2.12 Cysylltedd Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd

3.1 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Strategol Torfaen
3.2a Grid Gwyrdd Trefol Blaenafon
3.2b Grid Gwyrdd Trefol Blaenafon - Cyfleoedd
3.3a Grid Gwyrdd Trefol Pont-y-pŵl

3.3b Grid Gwyrdd Pont-y-pŵl - Cyfleoedd
3.4a Grid Gwyrdd Trefol Cwmbrân
3.4b Grid Gwyrdd Trefol Cwmbrân - Cyfleoedd

4.1 Partneriaethau Cyflenwi Seilwaith Gwyrdd
4.2 Grid Gwyrdd Gwent
4.3 Cynlluniau Cyflenwi Seilwaith Gwyrdd

## STRATEGAETH SEILWAITH GWYRDD TORFAEN

***Fframwaith a rhennir i ddatblygu rhwydwaith o ardaloedd naturiol ymarferol a chysylltiedig***

## NEGESEUON ALLWEDDOL

Dyluniwyd y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd i gynorthwyo llunio a chydlynu'r gwaith o ddarparu seilwaith gwyrdd yn Nhorfaen, i gynnig manteision lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r Strategaeth yn dangos sut y gall seilwaith gwyrdd helpu i addasu i newid yn yr hinsawdd, gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chefnogi lles a byw yn iach, tra hefyd yn cefnogi twf cynaliadwy a datblygu economaidd.

Seilwaith gwyrdd yw'r rhwydwaith byw o fannau gwyrdd a glas naturiol a lled-naturiol, a nodweddion eraill o'r dirwedd, wedi'u gwasgaru o fewn lleoedd trefol a gwledig a rhyngddynt.

**Ein Gweledigaeth a Rennir ar gyfer Seilwaith Gwyrdd**

Mae gan Dorfaen rwydwaith seilwaith gwyrdd aml-bwrpas o fannau naturiol unigryw, bioamrywiol a gwydn, sydd o fantais cymdeithasol, amgylcheddol a lles economaidd i bobl, ac mae iddynt gysylltiadau da. Mae ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau yn cael eu rheoli mewn ffyrdd cynaliadwy i gynnal, amddiffyn a gwella uniondeb a chysylltedd y rhwydwaith. Cydnabyddir cyd-ddibyniaeth bioamrywiaeth, tirwedd a threftadaeth gyfoethog Torfaen yn eang.

Mae ein seilwaith gwyrdd trefol yn cynnwys rhwydwaith o goetiroedd, coed stryd, parciau, gerddi, ymylon ffyrdd, rhandiroedd, mynwentydd, mannau gwyrdd amwynder, a seilwaith glas fel afonydd a chamlesi, y mae llawer ohonynt yn hygyrch i'r cyhoedd.

Mae seilwaith gwyrdd yng nghefn gwlad a'r ucheldiroedd yng nghyffiniau ein trefi yn cynnwys rhwydwaith o fynyddoedd, gweundiroedd a rhostiroedd, glaswelltir a choetir lled-naturiol, planhigfeydd coedwigaeth a chynefinoedd tir fferm.

Ar y lefel strategol mae Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Torfaen yn helaeth ac â chysylltiad da yn gyffredinol, ac mae llawer ohono yn agored i'r cyhoedd. Ar y lefel leol, yn enwedig yn nhrefi Torfaen a'u cyffiniau, mae cyfleoedd mewn lleoedd penodol i atgyfnerthu ansawdd, cysylltedd a hygyrchedd y rhwydwaith seilwaith gwyrdd.

Pan gaiff ei gynnal a'i reoli mewn cyflwr iach, gall ein seilwaith gwyrdd a glas gynnig nifer o fanteision i helpu i leddfu heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae seilwaith gwyrdd yn darparu "gwasanaethau cynnal bywyd" sy'n hanfodol ar gyfer cynnal lles pobl - o aer a dŵr glân a rheoli llifogydd, i fannau gwyrdd y gellir dianc iddynt i chwarae ac ymlacio ynddynt.

Gall mabwysiadu "dull seilwaith gwyrdd" integredig a chydgysylltiedig wrth reoli adnoddau naturiol leihau costau i gyrff cyhoeddus, busnesau ac unigolion, a hynny'n sylweddol, wrth fynd ati i ddarparu buddion o ran ansawdd bywyd i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr.

Mae'r Strategaeth hon yn darparu fframwaith strategol neu "ddarlun mawr" *ar gyfer datblygu rhwydwaith swyddogaethol, gysylltiedig o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion lles poblogaethau lleol yn Nhorfaen ar hyn o bryd ac yn y dyfodol* (amcan 1 y Cynllun Llesiant). Mae'n amlinellu egwyddorion, blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau gwydnwch a chysylltedd Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Torfaen.

Mae'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd wedi'i hanelu at gyrff cyhoeddus a ragnodir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn ogystal â pherchnogion tir sector preifat a thrydydd sector, datblygwyr a'r cyhoedd. Mae gan yr holl randdeiliaid hyn ran i'w chwarae wrth helpu i wneud Torfaen yn lle hapus, iach a llewyrchus i fyw trwy reoli ein hadnoddau naturiol a rennir yn gynaliadwy.

## 1.0 CYFLWYNO'R SEFYLLFA

### 1.1 Cefndir

1.1.1 Mae Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi'i lleoli yn Ne Ddwyrain Cymru yn hen sir Gwent (gweler Ffigur 1.1). Y prif drefi yn Nhorfaen yw Cwmbrân, Pont-y-pŵl a Blaenafon.

**Yr angen am y Strategaeth**

1.1.2 Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Torfaen ym mis Ebrill 2016 o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r BGC yn dwyn ynghyd y cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu ledled Bwrdeistref y Sir mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffyrdd newydd fydd yn gwella lles cenedlaethau'r dyfodol yn Nhorfaen.

1.1.3 Mae rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth wraidd gweledigaeth a rennir gan y BGC i wella lles yn Nhorfaen fel y nodir yng Nghynllun Llesiant 2018-2023.

1.1.4 Amcan 1 y Cynllun yw 'datblygu rhwydwaith gweithredol, cysylltiedig o ardaloedd naturiol sy'n cynnal anghenion lles poblogaethau lleol nawr ac yn y dyfodol'.

1.1.5 Fel man cychwyn tuag at gyflawni'r amcan hwn, nododd y BGC yr angen i ddatblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Torfaen. Ar ran y BGC, comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Chris Blandford Associates (CBA) i baratoi'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd mewn ymgynghoriad â phartneriaid allweddol.




ALLWEDD

Cynghorau Tref / Cymuned

Bwrdeistref Sirol Torfaen




**FFIGUR 1.1**
LLEOLIAD A CHYD-DESTUN

## Nodau a Ffocws y Strategaeth

1.1.6 Nod y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hon yw nodi fframwaith strategol y cytunwyd arno ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy i gefnogi anghenion lles cymunedau Torfaen ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

1.1.7 Yn unol ag Amcan 1 y Cynllun Llesiant, mae'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn canolbwyntio ar bum maes blaenoriaeth:

1. Meithrin gwydnwch o ran newid yn yr hinsawdd.
2. Cefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecolegol.
3. Mynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd sy'n cynnwys defnyddio mannau gwyrdd mewn ffordd anghyfrifol.
4. Nodi cyfleoedd strategol i ddatblygu rhwydweithiau teithio llesol a hyrwyddo gweithgaredd corfforol yn yr awyr agored.
5. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, gwirfoddoli a phrentisiaethau sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau naturiol.

## Manteision y Strategaeth

1.1.8 Mae rhai o fuddion allweddol y Strategaeth ar gyfer cynllunio seilwaith gwyrdd a rheoli adnoddau naturiol yn Nhorfaen yn cynnwys:

- Darparu fframwaith strategol y cytunwyd arno neu "ddarlun mawr" ar gyfer gweithio tuag at Amcan 1 y Cynllun Llesiant, tra hefyd yn cyfrannu at lawer o amcanion eraill y Cynllun (gweler **Blwch 1.1**).
- Annog dull mwy integredig, arloesol a chydgysylltiedig o sicrhau'r buddion lles gorau gan dirfeddianwyr cyhoeddus, preifat a thrydydd sector o ran rheoli ardaloedd naturiol mewn ffordd gynaliadwy.
- Sefydlu egwyddorion, blaenoriaethau a chyfleoedd a rennir ar gyfer cryfhau gwydnwch a chysylltedd rhwydwaith seilwaith gwyrdd Torfaen.
- Darparu tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o baratoi a gweithredu cynlluniau cyflenwi lleol.

**Blwch 1.1 – Amcanion Cynllun Llesiant Torfaen**

1. *Datblygu rhwydwaith swyddogaethol, gysylltiedig o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion llesiant poblogaethau lleol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.*
2. *Datblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.*
3. *Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc.*
4. *Cefnogi ffyrdd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda.*
5. *Mynd i'r afael â phatrymau tlodi rhwng y cenedlaethau a datblygu gwydnwch economaidd.*
6. *Gwella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddi, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.*
7. *Creu cymunedau diogel a hyderus a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.*

## 1.2 Beth yw Seilwaith Gwyrdd?

1.2.1 Yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer buddion lles, caiff “Seilwaith Gwyrdd” (SG) ei ddiffinio ym **Mlwch 1.2**.

**Blwch 1.2 – Seilwaith Gwyrdd**

Seilwaith gwyrdd yw’r rhwydwaith byw o fannau gwyrdd a glas naturiol a lled-naturiol, a nodweddion eraill ar y dirwedd, sydd wedi’u gwasgaru o fewn lleoedd trefol a gwledig a rhyngddynt.

Lle cânt eu rheoli'n briodol, mae Asedau Seilwaith Gwyrdd ac adnoddau naturiol yn darparu “gwasanaethau cynnal bywyd” sy'n cynnal lles pobl.

1.2.2 Mae adnoddau naturiol - ein haer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd - yn darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, ynni a diogelwch ac maen nhw'n ein cadw ni'n iach. Lle mae adnoddau naturiol dan bwysau oherwydd defnyddiau a gweithgareddau anghynaladwy, mae hyn yn peri risg i les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y tymor hir.

**Blwch 1.3 – Gwasanaethau Ecosystem**

**Gwasanaethau sy’n ategu**: systemau sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi'r holl wasanaethau ecosystem eraill - fel ffurfio pridd, cylchred maetholion a thwf planhigion.

- **Gwasanaethau sy’n rheoleiddio:** gwasanaethau ecosystem sy'n rheoleiddio ein hamgylchedd - fel peillio, rheoli plâu / afiechydon, gorfodi delio â charbon, puro dŵr a gwanhau llifogydd.

**Gwasanaethau sy’n darparu:** gwasanaethau ecosystem sy'n darparu nwyddau inni - fel dŵr yfed, bwyd, tanwydd, ynni a deunyddiau adeiladu.

- **Gwasanaethau diwylliannol:** gwasanaethau ecosystem sy'n ein cyfoethogi'n esthetig, ysbrydol, crefyddol, gwyddonol neu drwy hamdden - fel mynediad i fannau gwyrdd a lleoedd hanesyddol ar gyfer hamdden a thwristiaeth.

1.2.3 I'r gwrthwyneb, lle mae ein Hasedau SG a'n hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy gallant ddarparu ystod eang o wasanaethau ecosystem (fel yr amlygir ym **Mlwch 1.3** ac a ddangosir yn **Ffigur 1.2**), a all yn eu tro ddarparu nifer o fuddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i les pobl.




**FFIGUR 1.2**
GWASANAETHAU
ECOSYSTEM

1.2.4 Er y gall Asedau SG unigol gyflawni un neu fwy o swyddogaethau, mae cysylltedd rhwng gwahanol Asedau SG yn helpu i wneud y mwyaf o'r gwasanaethau ecosystem a'r buddion y gallant eu creu i les. Mae Asedau SG sydd â chysylltiadau da yn creu rhwydweithiau SG sy'n ymaddasol ac yn gallu gwrthsefyll trefoli a newid yn yr hinsawdd.

1.2.5 Mae cysylltiadau ffisegol yn cael yr effaith fwyaf. Mae nodweddion tirwedd llinol fel coridorau afon a gwrychoedd yn darparu coridorau ecolegol ai wasgaru bywyd gwyllt. Mae cysylltu mannau a lleoedd gwyrdd trwy rwydwaith o lwybrau cerdded a beicio cynaliadwy ar hyd coridorau gwyrdd yn annog byw'n iach a chyfleoedd i bobl i flasu natur.

1.2.6 Gall mabwysiadu “dull seilwaith gwyrdd” integredig a chydgysylltiedig wrth reoli adnoddau naturiol leihau costau i gyrff cyhoeddus, busnesau ac unigolion yn sylweddol, wrth ddarparu buddion ansawdd bywyd i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr.

1.2.7 Fe y dangosir yn **Ffigur 1.3**, gall rhwydweithiau SG gysylltu pobl ag Asedau SG ar raddau gwahanol. Mae asedau SG yn amrywio o ‘seilwaith glas’ (fel afonydd, camlesi a llynnoedd) i seilwaith gwyrdd trefol (fel parciau, toeau gwyrdd a choed ar strydoedd). Gallant fod yn safleoedd penodol ar lefel leol neu'n nodweddion tirwedd ar raddfa ehangach ar y lefel strategol fel rhostiroedd, glaswelltiroedd a choetiroedd.

1.2.8 Pan fyddant wedi'u cysylltu gyda'i gilydd gan hawliau tramwy, llwybrau beicio a choridorau gwyrdd a glas, mae Asedau SG o amgylch adeiladau unigol, strydoedd, cymdogaethau a chefn gwlad ehangach yn ein trefi a'r cyffiniau yn cyfuno i ffurfio rhwydweithiau o fannau naturiol, amlswyddogaethol.




**FFIGUR 1.3**
GRADDFEYDD A CHYSYLLTEDD SEILWAITH GWYRDD

## 1.3 Cyd-destun Polisi

1.3.1 Mae'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hon yn darparu fframwaith a rennir i atgyfnerthu'r ddealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng cyflwr ein hamgylchedd naturiol, y gwasanaethau a'r nwyddau y mae'n eu darparu ar gyfer lles dynol a'r hyn sy'n gyrru newid. Mae'n cysylltu ystod eang o faterion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac yn ein helpu i ystyried gwerth ein hamgylchedd naturiol yn ei chyfanrwydd.

1.3.2 Dangosir y ddeddfwriaeth berthnasol, polisïau Llywodraeth Cymru a chyngor Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n darparu'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer cynllunio a darparu SG yn Nhorfaen yn **Ffigur 1.4** ac fe'i hamlinellir ym **Mlychau 1.4 - 1.10).**

**Blwch 1.4 – Deddf yr Amgylchedd**

Mae Adran 4 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, a ddiffinnir fel:
*'Defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar raddfa sy'n cynnal ac yn gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu. Wrth wneud hynny, diwallu anghenion cenedlaethau o bobl yn awr, heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, a chyfrannu at gyflawni'r nodau lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.'*

Mae Adran 6 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i baratoi Cynllun Gwydnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystemau ar gyfer y dyfodol, gan ddangos sut y maent yn bwriadu cyflwyno'r cynllun mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill, gan ystyried Cynllun Adfer Natur Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru, gyhoeddi rhestr o'r cynefinoedd o'r pwys mwyaf (cynefinoedd â blaenoriaeth), a chymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r rhestr hon, gan gynnwys annog eraill i wneud yr un peth.




**FFIGUR** CYD-DESTUN Y POLISI SEILWAITH GWYRDD

**Blwch 1.5 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Rhaid i gyrff cyhoeddus wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud mewn ffordd gynaliadwy a meddwl mwy am y tymor hir; gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd; ceisio atal problemau; a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau a chyngor.

Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud eu penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru.

1.3.3 Gyda'i gilydd, mae'r Deddfau hyn yn creu'r fframwaith deddfwriaethol i reoli ein hadnoddau naturiol a gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Maent yn ein helpu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu ac i fanteisio'n well ar y cyfleoedd posibl. Mae Deddf yr Amgylchedd yn canolbwyntio ar feithrin gwydnwch yn ein hecosystemau a chydnabod y manteision y maent yn eu darparu os ydym yn eu rheoli mewn ffyrdd doethach.

**Blwch 1.6 – Polisi Cynllunio Cymru**

Mae Pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10, 2018) yn nodi polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar gynnal a/neu ymgorffori SG fel cydrannau allweddol mewn lleoedd unigryw a naturiol i gynyddu iechyd a lles cymunedau a'r amgylchedd i'r eithaf..

Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull strategol a rhagweithiol o ymdrin â SG a bioamrywiaeth trwy gynhyrchu Asesiadau Seilwaith Gwyrdd cyfoes.

Dylid defnyddio Asesiadau Seilwaith Gwyrdd i ddatblygu dull cadarn o wella bioamrywiaeth, cynyddu gwydnwch ecolegol a gwella canlyniadau lles; a, nodi cyfleoedd strategol allweddol lle byddai adfer, cynnal a chadw, creu neu gysylltu nodweddion gwyrdd a'u swyddogaethau yn sicrhau'r buddion mwyaf sylweddol.

**Blwch 1.7 – Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru**

Yn un o ofynion statudol Deddf yr Amgylchedd (Cymru), mae'r ddogfen hon a gyhoeddwyd yn 2017 yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ar rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy i gynyddu eu cyfraniad at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'r eithaf.

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn amlinellu tair blaenoriaeth genedlaethol: rhoi atebion ar sail natur; cynyddu effeithlonrwydd ynni adnewyddadwy ac adnoddau; a chymryd agwedd seiliedig ar le.

**Blwch 1.8 – Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (Cyfoeth Naturiol Cymru)**

- **Rheoli addasol** – rheoli'n addasol trwy gynllunio, monitro, adolygu a lle bo hynny'n briodol, newid camau gweithredu.
- **Graddfa** – ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu.
- **Cydweithredu ac ymgysylltu** – hyrwyddo a chydweithredu a chydlynu.
- **Cyfranogiad y Cyhoedd** – gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan mewn penderfyniadau.
- **Tystiolaeth** – ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, a chasglu tystiolaeth mewn perthynas ag ansicrwydd.
- **Buddion lluosog** – ystyried buddion a gwerth cynhenid adnoddau ac ecosystemau naturiol.
- **Y tymor hir** – ystyried canlyniadau'r camau gweithredu yn y tymor byr, canolig a hir.
- **Camau ataliol** – cymryd camau i atal niwed sylweddol i ecosystemau.
- **Meithrin gwydnwch –** ystyried gwydnwch ecosystemau, yn benodol (i) bioamrywiaeth o fewn ecosystemau a rhyngddynt; (ii) y cysylltiadau mewn ecosystemau a rhyngddynt; (iii) graddfa'r ecosystemau; (iv) cyflwr ecosystemau (yn cynnwys eu strwythur a'u swyddogaeth); (v) addasrwydd ecosystemau.

**Blwch 1.9 – Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (Cyfoeth Naturiol Cymru)**

Mae'r adroddiad hwn gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn nodi cyflwr adnoddau naturiol Cymru. Mae'n asesu i ba raddau y mae adnoddau naturiol yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac yn argymell dull rhagweithiol o feithrin gwydnwch ecosystemau. Mae'r adroddiad yn cysylltu gwydnwch adnoddau naturiol Cymru â lles pobl Cymru.

Mae Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol yn edrych ar sut mae pwysau ar adnoddau naturiol Cymru yn arwain at risgiau, fel yr heriau a gyflwynir gan newid yn yr hinsawdd, a bygythiadau i fioamrywiaeth ar gyfer lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd hirdymor, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r adroddiad yn archwilio'r materion allweddol ar gyfer gwydnwch adnoddau naturiol Cymru, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer datrysiadau integredig sy'n darparu buddion lluosog. Mae hefyd yn tynnu sylw at y bylchau yn y dystiolaeth.

**Blwch 1.10 – Datganiadau Ardal (Cyfoeth Naturiol Cymru)**

Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 rhoi dyletswydd ar Gyfoeth Naturiol Cymru i lunio Datganiadau Ardal.

Ar hyn o bryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r Datganiad Ardal ar gyfer De Ddwyrain Cymru (yn ymwneud â Bwrdeistref Sirol Torfaen, Sir Fynwy, Dinas Casnewydd, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent).

Bydd y Datganiad Ardal yn nodi'r adnoddau naturiol yn Ne Ddwyrain Cymru a'r buddion (gwasanaethau ecosystem) y maent yn eu darparu; mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd allweddol ar lefel leol i reoli adnoddau naturiol yn well (gan gynnwys ffyrdd newydd o gydweithio); a darparu sylfaen dystiolaeth gyffredin gyda gwybodaeth, data a thystiolaeth.

Yn y modd hwn, bydd y Datganiad Ardal yn helpu i ddeall cyflwr a thueddiadau adnoddau naturiol yn Ne Ddwyrain Cymru yn well, y pwysau arnynt a'r buddion y maent yn eu darparu er mwyn darparu gwybodaeth i reoli adnoddau naturiol yn well.

## 1.4 Datblygu'r Strategaeth

1.4.1 Mae'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hon yn nodi dull rhagweithiol o wella ein hadnoddau naturiol, cynyddu gwydnwch ecolegol a gwella canlyniadau lles yn Nhorfaen.

1.4.2 Mae'r dull o ddatblygu'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn tynnu ar arfer gorau o fannau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru, gan gynnwys Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Sir Fynwy, yn ogystal ag arfer gorau o fannau eraill yn y DU.

1.4.3 1.4.3 Datblygwyd y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd mewn tri phrif gam fel yr amlinellir isod.

### Cam 1 – Asesiad Seilwaith Gwyrdd

1.4.4 Mae'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd[1] a nodir yn **Adran 2.0** yn creu darlun o **ble yr ydym nawr**. Mae'n dwyn ynghyd setiau data presennol o fewn System Gwybodaeth Ddaearyddol [2] i ddarparu adnodd tystiolaeth ar sail map o'r Asedau SG presennol sy'n cyfrannu at rwydwaith ardaloedd naturiol Torfaen.

1.4.5 Mae'r Asesiad hefyd yn tynnu ar dystiolaeth o ystod o astudiaethau i archwilio'r gwasanaethau ecosystem a'r buddion lles y gall ein Hasedau SG eu darparu; asesu ar lefel strategol hygyrchedd a chysylltedd ein hardaloedd naturiol ar gyfer pobl a bywyd gwyllt; ac amlygu cyfleoedd strategol i atgyfnerthu ymarferoldeb a gwydnwch rhwydwaith SG Torfaen trwy adfer, cynnal, creu a / neu gysylltu gwahanol fathau o Asedau SG.

[1] Yn unol â Phennod 6, Rhifyn 10, Polisi Cynllunio Cymru, (Llywodraeth Cymru, 2018)

[2] Gan ddefnyddio QGIS yn unol ag argymhelliad yr Ymchwil Cwmpasu i Offeryn Asesu TG Cyfalaf Naturiol / SG a gomisiynwyd gan Capita gan CBS Torfaen yn 2018.

**Cam 2 – Gweledigaeth ac Amcanion Seilwaith Gwyrdd**

1.4.6 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Asesiad SG, mae ein gweledigaeth a'n hamcanion ar y cyd ar gyfer cynllunio a darparu SG wedi'u nodi yn **Adran 3.0**. Mae'n darparu fframwaith i lunio **lle'r ydym ni am fod** yn y dyfodol.

1.4.7 Dangosir y weledigaeth gan Rwydwaith SG Strategol Torfaen, sy'n darparu'r fframwaith gofodol cyffredinol gyfer datblygu rhwydwaith swyddogaethol, cysylltiedig o ardaloedd naturiol ar draws Torfaen fel rhan annatod o Rid Gwyrdd Gwent ehangach. Wedi'i osod o fewn Rhwydwaith SG Strategol ac yn ei gefnogi , mae Rhwydweithiau SG ar gyfer Tref Blaenafon, Tref Pont-y-pŵl a Thref Cwmbrân yn darparu fframweithiau gofodol lleol i lywio'r gwaith o baratoi Cynlluniau Lle gan y Cynghorau Tref a Chymuned.

**Cam 3 – Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd**

1.4.8 Mae Cynllun Gweithredu lefel uchel a nodir yn **Adran 4.0** yn darparu fframwaith ar gyfer **sut y byddwn yn cyrraedd y nod** yn nhermau gweithio tuag at y weledigaeth yr ydym yn ei rhannu ar gyfer SG yn Nhorfaen.

1.4.9 Mae'r Cynllun yn nodi blaenoriaethau i'w gweithredu a fydd yn helpu partneriaid y BGC a rhanddeiliaid eraill i fabwysiadu'r SG newydd. Mae'r rhain yn cynnwys archwilio dulliau ar y cyd o gyflawni nodau'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn y tymor byr; gwireddu cyfleoedd i gynyddu gwelliannau yn y tymor canolig; a thrawsnewid sut y gallwn weithio gyda'n gilydd, a chyda pherchnogion tir preifat a thrydydd sector a chymunedau lleol, i sicrhau rheoli adnoddau naturiol a lleoedd gwyrdd yn gynaliadwy, yn y tymor hir, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn Nhorfaen.

### Ymgynghori â Rhanddeiliaid a'r Cyhoedd

1.4.10 Fe wnaeth y trafodaethau a'r adborth yn dilyn yr ymgynghoriadau â rhanddeiliaid helpu i lunio'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd.

1.4.11 Cynhaliwyd gweithdy cychwynnol i rhanddeiliaid gyda nifer o sefydliadau sy'n bartneriaid yn y BGC ym mis Gorffennaf 2019 i archwilio cyfleoedd i gynnal, amddiffyn a gwella Asedau SG yn Nhorfaen i sicrhau buddion lles.

1.1.1 Cyflwynwyd canfyddiadau interim y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd arfaethedig i'r rhanddeiliaid canlynol yn ystod Hydref 2019:

- Partneriaeth Cyngor Lleol Torfaen (Cynghorau Tref a Chymuned)
- Aelodau Cyngor Torfaen (Cyfarfod Ardal Strydlun)
- Bwrdd BGC Torfaen

1.4.12 Ar ôl i'r BGC gymeradwyo'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Drafft, bydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos cyn ei fabwysiadu.

## 2.0 LLE RYDYM NI NAWR

### 2.1 Heriau Allweddol i'n Hadnoddau Naturiol

2.1.1 Mae defnyddio ein tir a gweithgareddau dynol eraill yn Nhorfaen yn dibynnu ar adnoddau naturiol iach. Amlygir yr heriau allweddol ar gyfer gwella SG a lles yn Nhorfaen yn Asesiad Llesiant 2017.

**Heriau Amgylcheddol**

2.1.2 Yn ogystal â chefnogi ein hanghenion sylfaenol, gan gynnwys bwyd, pren, tanwydd a darpariaeth hamdden, mae gwasanaethau llai gweladwy hefyd yn cael eu darparu gan ein hadnoddau naturiol; mae'r rhain yn cynnwys cadw dŵr, darparu cefnogaeth i bryfed sy'n peillio a storio carbon.

2.1.3 Pan fo adnoddau naturiol dan bwysau mae hyn yn peri risg i les tymor hir. Mae datblygu (tai a seilwaith), amaethyddiaeth, diwydiant a hamdden, a chynhyrchu ynni i gyd yn rhoi pwysau ar ein hadnoddau naturiol.

2.1.4 Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol, aer cerbydau a llygredd sŵn (gweler **Blwch 2.1**) diffyg plannu coed yn olynol a newidiadau posibl yng nghyfansoddiad rhywogaethau oherwydd newid yn yr hinsawdd a chlefydau hefyd yn risgiau i'n hadnoddau naturiol.

**Blwch 2.1 – Materion Llygredd Aer a Sŵn o Gerbydau**

Mae'r monitro a wnaed yn Nhorfaen yn datgelu bod ansawdd aer yn parhau i gyrraedd yr holl safonau cenedlaethol, gyda chrynodiadau o'r holl lygryddion a fesurir o fewn terfynau ansawdd aer penodedig. Er gwaethaf hyn, mae monitro'n dangos bod rhai ardaloedd o'r Fwrdeistref yn profi cynnydd mewn llygredd aer o gerbydau, yn enwedig yr ardal yng nghyffiniau Cwmbrân Drive sy'n gysylltiedig â datblygiad De Sebastopol.

Mae dwy ran o'r ffordd yn Nhorfaen wedi'u nodi fel 'Ardaloedd Cynllunio Blaenoriaeth Gweithredu Sŵn' sef:

- Ffordd sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol sy'n ymestyn i fyny Snatchwood Road o Bontnewynydd i Stryd Fawr Abersychan.
- Cefnffordd genedlaethol sy'n ymestyn i fyny'r A4042 Usk Road o'r Wain y Clare i hen waith British Nylon.

Mae cartrefi ar hyd y rhannau hyn wedi'u modelu fel cartrefi sy'n profi lefelau uchel iawn o draffig.

2.1.5 Mae'r patrymau defnydd cyfredol yn dangos ein bod yn defnyddio mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear. Yr ôl troed ecolegol ar gyfer Torfaen yn 2011 oedd 3.13 hectar byd-eang y pen, mae hyn yn cymharu â 3.30 hectar byd-eang y pen yng Nghymru. Pe bai pawb yn y byd yn byw fel rydyn ni'n ei wneud yn Nhorfaen yna byddai angen 3.13 planed arnom i'n cefnogi ni i gyd.

2.1.6 Mae gwella dealltwriaeth o wir werth ein hadnoddau naturiol gan arwain at well amddiffyniad a rheolaeth yn golygu y byddwn yn gallu sicrhau bod anghenion mwyaf sylfaenol cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu diwallu. Byddwn yn gallu mynd i'r afael yn well â heriau fel newid yn yr hinsawdd a gwella iechyd a lles pobl, a chymryd camau lleol cadarnhaol i helpu i fynd i'r afael â'r difrod y mae ein penderfyniadau yn ei gael ar ein hamgylchedd a lles cenedlaethau, yn awr ac yn y dyfodol.

## Newid yn yr Hinsawdd

2.1.7 Mae ein hinsawdd eisoes yn newid a bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Bydd hyn yn effeithio ar ein cymunedau, y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, ein hasedau a'n seilwaith.

2.1.8 Mae'r rhagamcanion yn awgrymu (yn seiliedig ar gyfartaleddau) bod Torfaen yn debygol o wynebu hafau sychach a phoethach, gaeafau gwlypach cynhesach, lefelau is o ddŵr daear, llai o eira a rhew, a mwy o ddigwyddiadau eithafol o ran y tywydd. Gall hyn beri heriau wrth geisio rheoli'r perygl o lifogydd mewn rhai ardaloedd.

2.1.9 Er mwyn sicrhau lles ein cymunedau yn y tymor hir, mae angen i ni ddechrau paratoi'n lleol ar gyfer heriau newid yn yr hinsawdd. Mae angen i ni hefyd gymryd camau cadarnhaol i helpu i gyfyngu ar y difrod y mae ein penderfyniadau lleol yn ei gael ar newid amgylcheddol yn fyd-eang.

## Rhagamcanion Demograffig

2.1.10 Mae'r rhagamcanion yn dangos erbyn 2039, y bydd canran cyfanswm y boblogaeth yn Nhorfaen sy'n 65 oed neu'n hŷn yn codi o 20.1% yn 2016 i 28.3% a rhagwelir y bydd nifer y trigolion yn Nhorfaen sy'n 85 oed neu'n hŷn yn fwy na dwbl mewn y 23 mlynedd nesaf, o 2,372 yn 2016 i 5,595 yn 2039; cynnydd o 136%.

2.1.11 Gwyddwn fod yr heriau hyn yn golygu y bydd galw cynyddol am rai gwasanaethau, gyda cynnydd yn nifer y bobl hŷn fydd angen gofal a gwasanaethau iechyd sylfaenol.

2.1.12 Bydd angen i ni ateb am gynnydd yn nifer y bobl hŷn yn y dyfodol yn ein cynlluniau gwasanaeth. Mae angen i ni hefyd feddwl sut y byddant yn cyrchu ac yn ymdopi a'r amgylchedd adeiledig a naturiol, a chadw pobl yn iach ac yn annibynnol wrth iddynt heneiddio.

2.1.13 Mae'r rhagamcanion diweddaraf hefyd yn dangos cwymp o 9.6% , sy'n ddisgwyliedig, yn nifer y plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed dros y 23 mlynedd nesaf, o 28,010 i 25,330. Mae hyn yn debyg i'r rhagamcanion ar gyfer Cymru.

**Anghydraddoldebau Iechyd**

2.1.14 Y darlun ehangach yn Nhorfaen, fel yng ngweddill Cymru, yw bod disgwyliad hyd oes a chyfradd marwolaethau cynamserol yn gwella. Fodd bynnag, y tu cefn i'r darlun hwnnw, mae anghydraddoldebau amlwg mewn iechyd a chlefyd ochr yn ochr â mwy o bobl yn byw yn hirach gydag ystod mwy o gyflyrau iechyd meddwl (gweler Blwch 2.2) a chorfforol (gweler Blwch 2.3) cronig a chymhleth. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar bobl, cymunedau a chynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd a gofal, i genedlaethau'r dyfodol.

**Blwch 2.2 – Materion Iechyd Meddwl**

Y Sgoriau Crynodeb o'r Elfen Feddyliol ar gyfartaledd (WHS, 2014/15) ar gyfer Torfaen yw 48.7, sydd ychydig yn is na Chymru (49.4) sy'n golygu bod gan Dorfaen les meddyliol ychydig yn is ar gyfartaledd na Chymru gyfan.

Mae ein Dangosyddion Dyfodol Iach (PHWO, 2015) yn dangos bod bron i draean (31%) o drigolion Torfaen yn nodi bod ganddynt fater iechyd meddwl cyffredin.

**Blwch 2.3 – Materion Iechyd Corfforol**

- Yn ôl Arolwg Iechyd Cymru (2014/15) mae dros hanner poblogaeth oedolion Torfaen yn nodi eu bod yn derbyn triniaeth am salwch meddyliol neu gorfforol cronig, y mae'r mwyafrif ohonynt yn debygol o fod yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.
- Mae cofrestrau clefydau MT yn dangos bod bron i 6,000 o bobl sy'n byw yn Nhorfaen yn dioddef o ddiabetes.
- Mae cyfraddau gordewdra yn uwch yn Nhorfaen (27%) na Chymru gyfan (23%) ac mae'r cyfraddau wedi bod yn codi'n gyson am y degawd diwethaf.
- Mae dau o bob tri oedolyn dros bwysau neu'n ordew (62%, WHS 2014/15), sy'n uwch na Chymru (59%).
- Mae dros chwarter y plant sydd o oed derbyn (4-5 oed) yn Nhorfaen eisoes dros bwysau neu'n ordew (28.6%) sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 26.2%.
- Disgwylir i gyfraddau gordewdra godi ymhellach yng nghenedlaethau'r dyfodol gan greu problem sylweddol i iechyd a lles a chynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

2.1.15 Mae'r data'n dangos mai ein cymunedau mwyaf difreintiedig o ran iechyd yw Trefddyn 1 (safle 22), Cwmbrân Uchaf 1 (safle 39), Blaenafon 2 (safle 78) a Phontnewydd 1 (safle 97) allan o 1909 o ACEHI ledled Cymru. Gellir cyfateb pob un ohonynt â lefelau difreintedd cyffredinol (gweler **Blwch 2.4**).

**Blwch 2.4 – Materion Difreintedd**

Mae amrywiaeth eang yn lefel y difreintedd a wynebir ar draws Torfaen.

Y tri ACEHI mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen yw Trefddyn 1 sydd yn safle 35, Cwmbrân Uchaf 1 sydd yn safle 78 a Phontnewydd 1 sydd yn safle 138, allan o gyfanswm o 1909 o ACEHI yng Nghymru.

2.1.16 Mae dros draean o’r boblogaeth yn Nhorfaen yn nodi nad ydynt yn gwneud gweithgarwch corfforol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Unwaith eto, mae cysylltiad agos â diffyg gweithgarwch corfforol a difreintedd; mae pobl ddwywaith yn fwy tebygol o beidio â gwneud gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd o ddifreintedd lluosog/ uchel o gymharu â'u cymdogion llai difreintiedig.

**Diogelwch a chydlyniad Cymunedol**

2.1.17 Mae cyfraddau difrod troseddol a llosgi bwriadol wedi gostwng o 13.9 i 12.5, sydd hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru sydd wedi gostwng o 12.2 i 10.0. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn gostwng ar gyfradd debyg yn Nhorfaen a Chymru er 2011, fodd bynnag, mae Torfaen yn parhau i fod yn uwch na Chymru gyda chyfradd o 47.5 o'i gymharu â Chymru ar 31.9 yn 2015-16.

**Heriau Economaidd**

2.1.18 Mae gan Dorfaen gyfran uwch o drigolion sy'n cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus a gweithgynhyrchu. Rydym hefyd yn gwybod bod y canrannau mwyaf o drigolion Torfaen yn gweithio yng Nghwmbrân, ac yna Pont-y-pŵl, yna Casnewydd a, bod cyflog wythnosol ar gyfartaledd yn is na chyfartaledd Cymru, ac yn sylweddol is na chyfartaledd y DU a bod dynion yn ennill cryn dipyn yn fwy na menywod. Yn ogystal, o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, mae gan bobl sy'n byw yn Nhorfaen lefelau is o gymwysterau a sgiliau.

1.1.1 Er mwyn cynllunio ar gyfer lles ein cymunedau yn y dyfodol, mae angen i ni hefyd ystyried ffactorau eraill a allai gael dylanwad ar yr economi lleol. Mae hyn yn cynnwys Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Brexit a newidiadau i bolisi cenedlaethol ar lefel y DU yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

2.1.19 Mae effaith mesurau caledi parhaus yn golygu y bydd mwy o doriadau i'r sector cyhoeddus, ar adeg pan ydym yn disgwyl i'r galw am rai gwasanaethau gynyddu. Mae gan fesurau caledi yn y dyfodol hefyd y potensial i gael yr effaith fwyaf ar y rhai yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

2.1.20 Er mwyn symud tuag at gymuned fwy cynaliadwy erbyn 2035, mae Astudiaeth Drylwyr o Bont-y-pŵl yn cefnogi datblygu'r sectorau bwyd, ynni, gofal ac amgylcheddol lleol yn raddol. Rydym yn gwybod y bydd galw am y sectorau hyn bob amser gan genedlaethau'r dyfodol gan eu bod yn sylfaenol ar gyfer bywyd bob dydd. Tynnodd yr astudiaeth sylw hefyd at y risgiau o anwybyddu’r gweithgaredd economaidd presennol a cholli cyfleoedd o bosibl i gefnogi ei ddatblygiad. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd yn helpu i sicrhau bod ein cymunedau a'n heconomïau lleol yn fwy gwydn yn erbyn siociau allanol, yn ogystal ac wrth ddiogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

2.1.21 Bydd datblygiadau technolegol yn y dyfodol hefyd yn debygol o newid yr hyn y bydd pobl yn ei wneud o ran cyflogaeth yn y dyfodol, a byddant yn cynnig cyfleoedd pwysig i gefnogi ac atgyfnerthu ein heconomïau lleol ar draws Torfaen. Mae datblygiadau technolegol hefyd yn debygol o gyfrannu at fodel economaidd mwy ‘cylchol’ sy’n ecsbloetio llai yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol ar gyfer ein cymunedau.

2.1.22 Bydd llai o olew a chynnydd mewn prisiau olew yn y dyfodol yn creu'r potensial i gael effaith fawr ar fusnesau (cost deunyddiau, costau defnyddio ynni a chostau cludo), ar aelwydydd (cost nwyddau, tlodi tanwydd a chost cludo) ac ar ein penderfyniadau economaidd nawr ac yn y dyfodol.

## Y Galw Am Dai

2.1.23 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiedir yn caniatáu darparu 4700 o gartrefi ychwanegol yn Nhorfaen rhwng 2006-2021. Ym mis Ebrill 2016, roedd 1888 o anheddau wedi'u cyflawni gan adael y galw am 2865 o anheddau hyd at 2021 (gan gyfrif am fwy o ddymchweliadau). Yn seiliedig ar y rhagamcanion cyfredol, mae Torfaen yn gofyn am tua 200 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol y flwyddyn rhwng 2015 a 2020 i fodloni’r angen am dai.

2.1.24 Yn ogystal, gellid gwella llawer o'r stoc dai yn Nhorfaen o ran effeithlonrwydd ynni, er mwyn creu cartrefi cynhesach sy'n rhatach i'w rhedeg a chynhyrchu llai o allyriadau carbon.

**Mynd i'r Afael â'r Heriau**

2.1.25 Gan weithio gyda'r BGC ar draws Gwent, rydym wedi comisiynu gwaith i ddatblygu sefyllfaoedd yn y dyfodol i helpu i feithrin ein dealltwriaeth a llywio ein dulliau o gyflawni'r heriau hyn.

2.1.26 Wrth i ni weithio gyda'n gilydd i ddatblygu a mabwysiadu dulliau rheoli cynaliadwy ar gyfer ein SG dros y 10 mlynedd nesaf, bydd angen i ni ystyried ffyrdd newydd o:

- Gydweithio'n well i gydbwyso'r pwysau o ddefnyddio tir sy'n effeithio ar ein hadnoddau naturiol.
- Cynyddu gwydnwch ein hadnoddau naturiol yr ydym yn dibynnu arnynt yn sgil hinsawdd sy'n newid.
- Rheoli dŵr yn well yn y dirwedd a lleihau effaith a fydd yn sgil cynnydd mewn tymheredd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol ac o ran seilwaith allweddol ac ati.
- Nodi a dilyn cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Cyfrif am effeithiau gadael yr Undeb Ewropeaidd ar yr amgylchedd (e.e. taliadau amaethyddol, mynediad at lafur, newidiadau i ddeddfwriaeth amgylcheddol, colli cymorth grant ac ati).
- Mynd i'r afael â lefelau cynyddol o ordewdra a diffyg gweithgarwch trwy hyrwyddo teithio llesol a manteision hamdden awyr agored.
- Cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio trwy sicrhau bod mynediad addas i fannau gwyrdd.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu bwyd yn lleol.

2.1.27 Bydd hyn yn cynnwys pob corff sector cyhoeddus sydd â chyfrifoldebau dros reoli tir ac Asedau SG yn Nhorfaen yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r manteision mwyaf posibl yn nhermau lles, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill (fel sefydliadau bywyd gwyllt, Partneriaeth Natur Torfaen, perchnogion tir preifat, cominwyr a thrigolion lleol).

## 2.2 Trosolwg o'n Seilwaith Gwyrdd

2.2.1 Mae Torfaen yn cwmpasu ardal o tua 12,546 ha. Defnyddir tir yn bennaf yn Nhorfaen fel a ganlyn[3]:

- Amaethyddiaeth Gymysg (50%)
- Ardaloedd adeiledig (20%)
- Tir diwydiannol gynt (15%)
- Gweundiroedd agored (10%)
- Coetiroedd (5%)

2.2.2 Mae yna Nhorfaen 4,423 ha o dir fferm, sydd tua 35% o gyfanswm ei hardal dirol ac sy'n is na chyfartaledd Cymru, sydd tua 80%[4].

2.2.3 Mae yn Nhorfaen bedwar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a saith Gwarchodfa Natur Leol, yn ogystal â dros 200 o Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur. Mae llawer o'r dirwedd ôl-ddiwydiannol o werth bioamrywiaeth i fywyd gwyllt.

2.2.4 Mae gan y Fwrdeistref Sirol rostiroedd grug, coetiroedd hynafol a dolydd llawn blodau gwyllt sy'n cynnal rhywogaethau prin o adar, planhigion, mamaliaid ac ymlusgiaid. Y prif resymau dros y fioamrywiaeth gyfoethog hon yw'r ddaeareg a'r uchder, sydd ag ystod o bron i 600 metr.

2.2.5 Torfaen sydd â'r canopi coed trefol mwyaf yng Nghymru, ac mae'r trefi dan eu sang â choed stryd a choetiroedd gyda rhwydwaith rhyng-gysylltiedig o fannau gwyrdd agored.

2.2.6 Mae Afon Lwyd a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu yn doreth o asedau seilwaith glas pwysig fel coridorau bywyd gwyllt, sy'n ymestyn o ffin Torfaen â Chasnewydd yn y de trwy Gwmbrân a Phont-y-pŵl i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Sir Fynwy yn y gogledd.

[3] Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen (2018-2033) Adroddiad Cwmpasu Gwerthuso Cynaliadwyedd Drafft Atodiad 2 - Nodweddion Sylfaenol Torfaen. Ebrill 2019

[4] Adroddiad Cwmpasu Gwerthuso Cynaliadwyedd Drafft Atodiad 2 - Nodweddion Sylfaenol Torfaen (Ebrill 2019)

2.2.7 Mae yn Nhorfaen rwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus helaeth sy'n cynnwys 329 cilomedr o lwybrau troed cyhoeddus yn bennaf. Yn ogystal, mae 3,567 hectar o dir mynediad agored (306 hectar ohonynt yn goetir) i raddau helaeth yn yr ucheldiroedd lle gall pobl gerdded heb orfod cadw at lwybrau. Mae hyn yn golygu bod 29% o ardal Torfaen yn dir sydd â mynediad agored.

2.2.8 Yn gyffredinol, ar y lefel strategol mae Rhwydwaith SG Torfaen yn helaeth ac wedi'i gysylltu'n dda ar y cyfan, ac mae llawer ohono ar gael i'r cyhoedd. Ar y lefel leol, yn enwedig yn nhrefi Torfaen a'u cyffiniau, mae cyfleoedd mewn lleoedd penodol i atgyfnerthu ansawdd, cysylltedd a hygyrchedd y Rhwydwaith SG.

2.2.9 Fel y dangosir yn Ffigur 2.1, mae mwyafrif y tir cyhoeddus yn Nhorfaen yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Tai Bron Afon. Mae darnau llai o dir yn Nhorfaen yn eiddo i sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau dielw eraill fel:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Cartrefi Melin (Darparwr Tai Cymdeithasol Lleol)
- Gwasanaeth Heddlu Gwent
- Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru
- Cymdeithasau Gwirfoddol (ee Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent)

2.2.10 Mae'r ardaloedd sy'n weddill yn Nhorfaen dan reolaeth tirfeddianwyr preifat i raddau helaeth, yn cynnwys ffermwyr a chwmnïau cyfleustodau fel Dŵr Cymru.




ALLWEDD

Perchnogion Tir Cyhoeddus Sylweddol:

Tir Bwrdeistref Sirol Torfaen

Tir Cyfoeth Naturiol Cymru

Tir Cymdeithas Tai Bron Afon

**FFIGUR 2.1**
PERCHNOGION
TIR CYHOEDDUS

## 2.3 Ein Hasedau Seilwaith Gwyrdd

2.3.1 Mae'r gwahanol fathau o Asedau SG sy'n cyfrannu at rwydwaith SG Torfaen wedi eu hamlygu ym **Mlwch 2.5**.

**Blwch 2.5 – Asedau Seilwaith Gwyrdd yn Nhorfaen**

- **Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol** (rhwydweithiau cynefinoedd sydd o flaenoriaeth gan gynnwys mynyddoedd, gweunydd a rhostiroedd; glaswelltir lled-naturiol; coetiroedd lled-naturiol; dŵr croyw; tir fferm caeedig a choedwigaeth planhigfeydd)
- **Coed Trefol** (yn cynnwys coetiroedd a choed stryd amwynder)
- **Mannau Gwyrdd Trefol** (yn cynnwys Rhandiroedd a Mannau Tyfu Cymunedol; Mynwentydd a Mynwentydd Eglwys; Parciau a Gerddi Cyhoeddus; Gerddi Preifat; a Mannau Gwyrdd Amwynder)
- **Safleoedd Treftadaeth**

2.3.2 Pan fyddant yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, gall yr Asedau SG hyn ddarparu ystod o wasanaethau ecosystem a buddion lles i Dorfaen fel yr amlygir yn **Nhabl 2.1**. Er enghraifft:

- Mae **Cynefinoedd naturiol a lled-naturiol** yn yr ardal yn bwysig yn rhyngwladol i fywyd gwyllt ac maent yn darparu ecosystemau pwysig.
- Mae **nwyddau a gesglir** o’n hamgylchedd naturiol yn cynnwys cig, llaeth, cnydau, pren, coed tanwydd, cig a physgod gwyllt, yn ogystal â deunyddiau adeiladu.
- Mae **mynediad at fannau gwyrdd o ansawdd uchel** yn ein trefi a’u cyffiniau yn fanteisiol i ansawdd bywyd pobl, eu hiechyd a lles, cymunedau a’r economi.
- Mae **ein tirweddau rhagorol a’n hamgylchedd hanesyddol** yn bwysig yn genedlaethol a rhyngwladol, gan helpu i lunio ein hamgylchedd naturiol a diffinio ein hunaniaeth leol.
- Gall **ein mannau gwyrdd yn ein trefi** helpu i reoleiddio'r amgylchedd trefol trwy ddarparu cynefinoedd ar gyfer pryfed sy'n peillio (yn cynnwys gwenyn, cacwn, gloÿnnod byw, pryfed hofran a gwyfynod).

## Tabl 2.1 – Gwasanaethau Ecosystem a ddarperir gan ein Hasedau SG

| Asedau SG | | Gwasanaethau Ecosystem | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwasanaethau Sy'n Ategu** | **Gwasanaethau Rheoleiddio** | **Gwasanaethau Sy'n Darparu** | **Gwasanaethau Diwylliannol** |
| | | Fel ffurfiant pridd, cylch maetholion a thwf planhigion. | Fel peillio, rheoli plâu/afiechydon, rheoli carbon, puro dŵr, gwanhau llifogydd. | Fel dŵr yfed, bwyd, tanwydd, ynni a deunyddiau adeiladu. | Fel mynediad i fannau gwyrdd a lleoedd hanesyddol ar gyfer gweithgareddau iach, ymlacio a thwristiaeth. |
| **Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol** | Mynyddoedd, gweundiroedd a rhostiroedd | √ | √ | √√ | √ |
| | Glaswelltir lled-naturiol | √ | √ | √√ | √ |
| | Coetiroedd lled-naturiol | √ | √ | √√ | √ |
| | Dŵr Croyw | √ | √ | √√ | √ |
| | Tir fferm caeedig | √ | √ | √√ | √ |
| | Coedwigaeth planhigfeydd | √ | √ | √√ | √ |
| **Coed Trefol** | Coed stryd | √ | √√ | √ | √ |
| | Coetiroedd trefol | √ | √√ | √ | √ |
| **Mannau Gwyrdd Trefol** | Rhandiroedd a Mannau Tyfu Cymunedol | √ | √ | √ | √√ |
| | Mynwentydd a Mynwentydd Eglwys | √ | √ | √ | √√ |
| | Parciau a Gerddi Cyhoeddus | √ | √ | √ | √√ |
| | Gerddi Preifat | √ | √ | √ | √√ |
| | Mannau Gwyrdd Amwynder | √ | √ | √ | √√ |
| **Safleoedd Treftadaeth** | | | | | √√ |

### Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol

2.3.3 Mae mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol Torfaen yn cwmpasu ystod eang o fathau o gynefinoedd fel rhostiroedd, coetiroedd a thir diwydiannol gynt a ail-feddiannwyd/ ddatblygwyd. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal ystod o rywogaethau bywyd gwyllt. Dynodir llawer o'r mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol yn Nhorfaen am eu gwerth bioamrywiaeth fel y gwelir yn **Ffigur 2.2**.

2.3.4 Mae yn Nhorfaen bedwar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a ddynodwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru: Blorens; Tŷ'r Hen Forwyn; Cronfa Ddŵr Llandegfedd (gweler **Blwch 2.6**); a Chors Henllys.

**Blwch 2.6 – SoDdGA Cronfa Ddŵr Llandegfedd**

Cronfa Ddŵr Llandegfedd yw'r cynefin dŵr agored mewndirol mwyaf ym Mwrdeistref Sirol Torfaen ac ers ei ffurfio ym 1963 mae wedi datblygu i fod yn un o dair lloches o bwysigrwydd rhanbarthol i adar gwyllt sy'n gaeafu, yng Nghymru.

Mae'r SoDdGA yn arbennig o bwysig ar gyfer niferoedd ac amrywiaeth cyffredinol yr adar gwyllt sy'n gaeafu, gyda nifer fawr o golomennod, hwyaid pengoch a hwyaid gwyllt.

Mae rhywogaethau nodedig eraill yn cynnwys hwyaid danheddog, corhwyaid a hwyaid llygaid aur. Mae'r ardal o amgylch y gronfa ddŵr yn cynnwys glaswelltir, sy'n bwysig ar gyfer bwydo ac adar gwyllt sy'n clwydo, coetir a phrysgwydd.




ALLWEDD

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig:
1) Blorens
2) Tŷ'r Hen Forwyn
3) Cronfa Ddŵr Llandegfedd
4) Cors Henllys

Gwarchodfeydd Natur Lleol:
1) Llynnoedd y Garn
2) Coridor Cwmafon
3) Tir Pentwys
4) Chwarel Cwm-ynys-cou
5) Pyllau Coed yr Eglwys a Springvale
6) Man Agored Henllys
7) Llwyn Celyn

Safleodd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur

**FFIGUR 2.2**
SAFLEOEDD
BIOAMRYWIAETH

2.3.5 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi dynodi saith Gwarchodfa Natur Leol: Llynnoedd Garn (gweler **Blwch 2.7**); Coridor Cwmafon; Tirpentwys; Chwarel Cwm-ynys-cou; Pyllau Coed yr Eglwys a Springvale; Man Agored Henllys; a Llwyn Celyn. Mae Gwarchodfeydd Natur Lleol yn lleoedd â bywyd gwyllt sydd o ddiddordeb arbennig yn lleol, sy'n rhoi cyfleoedd i bobl astudio a dysgu amdanynt neu'n syml, i fwynhau a dod i gysylltiad â natur. Maent ar gyfer cadwraeth, yn gyfle i fwynhau tawelwch a chyfle i'r cyhoedd werthfawrogi natur.

2.3.6 Fel y gwelir yn **Ffigur 2.2**, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen hefyd wedi dynodi ardaloedd helaeth yn y Fwrdeistref Sirol fel Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SBCN)(yn lleol). Ar hyn o bryd mae yna 212 o SBCN yn Nhorfaen.

**Blwch 2.7 - Gwarchodfa Natur Leol Llynnoedd y Garn**

Yn gynnyrch hen ddatblygiad glo brig, mae Llynnoedd Garn yn Warchodfa Natur Leol fawr sydd wedi'i lleoli ar gyrion Blaenafon ac yng nghanol Safle Treftadaeth y Byd.

Yn cynnwys dau lyn mawr, glaswelltir, coetir a gwrychoedd, mae Llynnoedd y Garn yn boblogaidd i'r rheini sy'n hoffi cerdded, pysgota a gwylio adar gyda theithiau cerdded cylchol, meinciau a phaneli dehongli.

Mae'n safle rhagorol ar gyfer tegeirianau, gloÿnnod byw, gweision y neidr ac adar gwyllt sy'n gaeafu. Mae arwyddion da i Lynnoedd y Garn o'r B4248 ac mae maes parcio ar gael.

2.3.7 Mae rhwydweithiau cynefinoedd (o fewn a thu allan i'r safleoedd dynodedig) sy'n cyfrannu at wydnwch ecosystemau yn Rhwydwaith SG Torfaen yn cael eu nodi a'u mapio gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys yr ecosystemau eang canlynol:

- Mynyddoedd, gweundiroedd a rhwydweithiau cynefinoedd rhostiroedd
- Rhwydwaith cynefinoedd glaswelltir lled-naturiol
- Rhwydwaith cynefinoedd coetiroedd lled-naturiol
- Rhwydweithiau cynefinoedd dŵr croyw
- Rhwydweithiau cynefin ecosystemau wedi'u haddasu (coedwigaeth planhigfeydd a thir fferm caeedig)

2.3.8 Gyda'i gilydd, mae'r cynefinoedd hyn yn ffurfio darnau helaeth o fannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol yng nghefn gwlad a'r ucheldiroedd yng nghyffiniau trefi Torfaen.

2.3.9 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi diffinio a mapio tair lefel o rwydweithiau cynefin yn seiliedig ar ofynion cynefinoedd a gallu rhywogaethau i wasgaru, gyda chefnogaeth y math priodol o gynefin, sef

- **Rhwydweithiau craidd** – ardaloedd lle mae rhywogaethau sydd angen cynefin helaeth ac sy'n gwasgaru'n wael yn gallu symud.
- **Rhwydweithiau ffocws** – ardaloedd lle mae rhywogaethau sy'n goddef clytiau cynefin llai a mwy o allu i wasgaru yn gallu symud.
- **Rhwydweithiau lleol** – ardaloedd lle gall rhywogaethau a all barhau o fewn ardaloedd cynefin bach ac sydd â gallu cyfyngedig iawn i wasgaru, i symud.

2.3.10 Mae’r rhwydweithiau cynefinoedd **Mynyddoedd, Gweunydd a Rhostiroedd** sy’n ymddangos yn **Ffigur 2.3** yn cynnwys dwy ardal arwahanol o gynefin mawnog a'r darnau mwy helaeth o gynefin rhostir a geir yn ucheldiroedd Torfaen.

2.3.11 Mae mawnogydd yn cael eu bwydo gan law yn unig ac yn nodweddiadol maent yn datblygu mawn asidig â diffyg maetholion iawn sy'n cynnal ystod gyfyngedig o rywogaethau arbenigol iawn. Mae ystod o gynefinoedd lled-naturiol eraill i'w cael yn eang ar fawnogydd yr ucheldiroedd o ganlyniad addasu. Mae presenoldeb rhostir a glaswelltir corsiog yn debygol o nodi dylanwad ffactorau fel llosgi yn y gorffennol, draenio a gor-bori. Mae addasiadau mwy eithafol mewn ardaloedd ucheldirol gan goedwigaeth planhigfeydd masnachol a glaswelltir gwell mewn mannau.

2.3.12 Mae'r rhwydweithiau cynefinoedd mynyddoedd, gweundiroedd a rhostiroedd yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau ecosystem mewn sawl ffordd. Yn ogystal â chwarae rhan bwysig yn y gylchred ddŵr, maent yn helpu i ddarparu ystod eang o swyddogaethau, a rheoleiddio gwasanaethau fel puro dŵr, storio carbon ac atafaelu carbon.

2.3.13 Mae gan y cynefinoedd ucheldirol hyn y potensial hefyd i storio dŵr i helpu i leihau llifogydd i lawr yr afon ac i gynnal llif sylfaen afonydd yn ystod cyfnodau o sychder. Er eu bod yn cael eu nodweddu gan eu cynefinoedd cymharol brin o rywogaethau, mae mynyddoedd, gweundiroedd a rhostiroedd hefyd yn adnabyddus am gynnal rhywogaethau eiconig fel grugieir duon.

2.3.14 O safbwynt diwylliannol, mae gan dirweddau ucheldirol y gallu i ysbrydoli pobl a chyfrannu'n fawr at hunaniaeth unigryw Torfaen a'i hymdeimlad o le.



Rhwydweithiau Cynefin Cors:

- Rhwydweithiau craidd
- Rhwydweithiau ffocal
- Rhwydweithiau lleol



Rhwydwaith Cynefin Rhostir:

- Rhwydweithiau craidd
- Rhwydweithiau ffocal
- Rhwydweithiau lleol
- Rhwydweithiau Lefel 2

Mae data rhwydweithiau cynefinoedd yn cynnwys tair lefel:

- **Rhwydweithiau craidd** (ardaloedd lle mae rhywogaethau sydd angen cynefin helaeth ac sy'n gwasgaru'n wael yn gallu symud)
- **Rhwydweithiau ffocal** (ardaloedd lle mae rhywogaethau
- **Focal networks** (areas within which species tolerant of smaller habitat patches and with greater dispersal ability are able to move)

**Rhwydweithiau lleol** (areas within species that can persist within small habitat patches and have very limited dispersal abilities can move).

Mae **Rhwydweithiau Lefel 2** yn rhwydweithiau o flaenoriaeth a ddewisir, lle gellir targedu gweithredu i wella rhwydweithiau swyddogaethol yr ardaloedd cynefin gorau.

**Ffynhonnell:** Modelling of Habitat Networks for Welsh Woodlands, Grasslands, Heathlands, Bogs and Fens. Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved (Accessed 08-2019, http://lle.gov.wales/catalogue/item/HabitatNetworks/?lang=en)




**FFIGUR 2.3** RHWYDWEITHIAU CYNEFINOEDD MYNYDDOEDD, GWEUNYDD A RHOSTIROEDD

2.3.15 Dynodir darnau helaeth o ardaloedd ucheldirol Torfaen yn dir mynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW). Mae hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol fel cerdded a gwylio adar, a gwerthfawrogi mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol a safleoedd hanesyddol. Mae pobl yn aml yn nodi ardaloedd ucheldirol fel y lleoedd yr hoffent ymweld â nhw'n amlach ar gyfer hamdden.

2.3.16 Dangosir y rhwydwaith cynefinoedd **glaswelltir lled-naturiol** yn Nhorfaen **yn Ffigur 2.4**. Fel sy'n wir ar draws y rhan fwyaf o Dde Ddwyrain Cymru, mae cysylltedd glaswelltir lled-naturiol yn wael iawn yn Nhorfaen gan fod cynefinoedd glaswelltir yn arbennig o dameidiog ar draws y tirweddau isel a addaswyd yn amaethyddol. Mae cysylltedd glaswelltir yn well ar y cyfan ar gyrion yr ucheldir yng nghymoedd y meysydd glo dwyreiniol rhwng Merthyr Tudful a Phont-y-pŵl, er nad yw amrywiaeth y glaswelltir yma yn arbennig o uchel gyda glaswelltir asid sych yr iseldir yn drech i raddau helaeth.

2.3.17 Mae glaswelltiroedd lled-naturiol yn ffurfio rhan o systemau ffermio'r ucheldir yn bennaf, ac fe'u gwahaniaethir oddi wrth laswelltiroedd gwell ar dir fferm caeedig yn bennaf ar iseldiroedd oherwydd eu diffyg tyfiant yn ddiweddar, camau i'w hail-hau neu ffrwythloni trwm a llai o reoli'u dwyster.

2.3.18 Mae glaswelltiroedd yn caniatáu rheoleiddio hinsawdd trwy ddal a storio carbon a nwyon tŷ gwydr eraill; helpu gyda phuro llygryddion a storio dŵr; a rhyngweithio'n agos â systemau gwlypdir fel dolydd dŵr a reolir yn draddodiadol ar gyfer storio dyfroedd llifogydd tymhorol.

2.3.19 Dangosir rhwydwaith cynefinoedd **Coetiroedd Lled-naturiol** yn Nhorfaen yn **Ffigur 2.5** sy'n cynnwys coetir llydanddail brodorol. Mae nifer sylweddol o goetiroedd lled-naturiol hynafol mawr ar hyd Cwm y Glyn i'r gorllewin o Bont-y-pŵl ac i'r dwyrain o Abersychan, gyda nifer o bocedi llai yng Nghwmbrân a'r cyffiniau.




## ALLWEDD

Rhwydweithiau Cynefin Glaswelltir:

- **Rhwydweithiau craidd** (ardaloedd lle mae rhywogaethau sydd angen cynefin helaeth ac sy'n gwasgaru'n wael, yn gallu symud)
- **Rhwydweithiau ffocal** (ardaloedd lle mae rhywogaethau sy'n gallu goddef cynefinoedd llai a mwy o allu i wasgaru, yn gallu symud)
- **Rhwydweithiau lleol** (ardaloedd lle gall rhywogaethau a all barhau o fewn ardaloedd cynefin bach ac sydd â gallu cyfyngedig i wasgaru, symud)
- **Rhwydweithiau Lefel 2** (rhwydweithiau o flaenoriaeth a ddetholwyd, y gellir targedu gweithredu oddi mewn iddynt i wella rhwydweithiau swyddogaethol yr ardaloedd cynefin gorau)

**Ffynhonnell:** Modelling of Habitat Networks for Welsh Woodlands, Grasslands, Heathlands, Bogs and Fens. Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. Cedwir Pob Hawl (Accessed 08-2019, http://lle.gov.wales/catalogue/item/HabitatNetworks/?lang=en)

**FFIGUR 2.4** RHWYDWAITH CYNEFINOEDD GLASWELLTIR LLED-NATURIOL




## ALLWEDD

Rhwydweithiau Cynefin Coetiroedd:

- **Rhwydweithiau craidd** (ardaloedd lle mae rhywogaethau sydd angen cynefin helaeth ac sy'n gwasgaru'n wael, yn gallu symud)
- **Rhwydweithiau ffocal** (aardaloedd lle mae rhywogaethau sy'n gallu goddef cynefinoedd llai a mwy o allu i wasgaru, yn gallu symud)
- **Rhwydweithiau lleol** (ardaloedd lle gall rhywogaethau a all barhau o fewn ardaloedd cynefin bach ac sydd â gallu cyfyngedig i wasgaru, symud)
- **Rhwydweithiau Lefel 2** (rhwydweithiau o flaenoriaeth a ddetholwyd, y gellir targedu gweithredu oddi mewn iddynt i wella rhwydweithiau swyddogaethol yr ardaloedd cynefin gorau)

**Ffynhonnell:** Modelling of Habitat Networks for Welsh Woodlands, Grasslands, Heathlands, Bogs and Fens. Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. Cedwir Pob Hawl (Accessed 08-2019, http://lle.gov.wales/catalogue/item/HabitatNetworks/?lang=en)

**FFIGUR 2.5** RHWYDWAITH CYNEFINOEDD COETIROEDD LLED-NATURIOL

2.3.20 Mae coetiroedd yn cyfrannu at weithrediad systemau cymdeithasol ac economaidd a lles mewn sawl ffordd. Maent yn helpu i reoleiddio straen yn yr hinsawdd ar lefel leol, yn atafaelu carbon ac yn cyfrannu at reoli risg llifogydd a llif afonydd isel; diogelu priddoedd, gwella ansawdd aer a lleihau llygredd sŵn; a gallant hefyd helpu i reoleiddio plâu a chlefydau.

2.3.21 Mae coetiroedd yn chwarae rhan fawr mewn peillio, ffurfio pridd, y cylch maetholion, y cylch dŵr a chynhyrchu ocsigen, ac mae pob un ohonynt yn hanfodol i gefnogi ein hiechyd a'n lles. Mae effeithiolrwydd y fath wasanaethau cymorth a rheoleiddio hyn yn dibynnu ar natur, maint, cyflwr a gwydnwch ecosystemau coetiroedd. Gall coetiroedd hefyd ddarparu tanwydd (biomas) a phren ar gyfer deunyddiau adeiladu.

2.3.22 Cydnabyddir yn gynyddol mai un o'r gwasanaethau rheoleiddio pwysicaf y mae coetiroedd yn eu darparu yw eu gallu i atafaelu carbon. Mae gan newidiadau a ragwelir mewn amodau hinsoddol oblygiadau eang i goetiroedd yn Nhorfaen ac ar draws Cymru o ran sut y cânt eu rheoli, addasrwydd a dosbarthiad gwahanol rywogaethau o goed a'r buddion sy'n deillio ohonynt; a hefyd mewn perthynas ag ôl troed carbon Cymru ’a rôl coetiroedd wrth liniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd.

2.3.23 Gall rhai o'r coetiroedd lled-naturiol hyn hefyd ddarparu mynediad cyhoeddus ar gyfer hamdden, fel rhai o'r coetiroedd mwy y tu allan i ardaloedd trefol sy'n eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru (gan gynnwys coed Blaenafon, coedwig Coed Parciau a choedwig Lasgarn) a choetiroedd cymunedol fel Coetir Cymunedol Blaen Bran (**gweler Blwch 2.8**).

**Blwch 2.8 – Coetir Cymunedol Blaen Bran**

Mae'r coetir cymunedol 100 erw yn goetir eiddo preifat uwchben Cwmbrân Uchaf, sy'n cael ei redeg a'i gynnal gan Ymddiriedolaeth Coetir Cymunedol Blaen Bran.

Mae Coetir Cymunedol Blaen Bran wedi'i leoli mewn man sy'n yn cefnu ar dir comin Mynydd Maen, sy'n caniatáu iddo fod yn rhan o lwybrau cerdded sy'n cysylltu â Mynydd Twmbarlwm, Cwmcarn Forest Drive ac ar draws i Bont-y-moel.

Mae'r coetir o ddiddordeb naturiol a hanesyddol, ac mae wedi'i leoli ar ochr Mynydd Maen gyda golygfeydd helaeth dros Gwmbrân yn ymestyn i'r Hafren a chronfa ddŵr Llandegfedd.

Mae'r coetir cymunedol yn darparu ymdeimlad o ryddid, heddwch a thawelwch, fel lle i ddianc o'r dref. Mae'i hanes yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn y Rhufeiniaid ac mae'r ardal wedi'i defnyddio ar gyfer ffermio a chloddio glo.

2.3.24 Dangosir y rhwydwaith cynefinoedd **dŵr croyw** yn Nhorfaen yn **Ffigur 2.6**, sy'n cynnwys afonydd fel Afon Lwyd (gweler **Blwch 2.9**) a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu. Mae afonydd, nentydd, llynnoedd a gwlypdiroedd yn asedau seilwaith glas sylfaenol bwysig. Maent yn darparu dŵr yfed ac yn cyfrannu at ein cyfleoedd i fwynhau bywyd trwy'r cyfleoedd y maent yn eu darparu ar gyfer hamdden (fel chwaraeon dŵr yng Nghronfa Ddŵr Llandegfedd) a'r gwerthfawrogiad o ddŵr yn y dirwedd, ac maent hefyd yn bwysig ar gyfer cynnal ecosystemau eraill.

**Blwch 2.9 – Afon Lwyd**

Mae Afon Lwyd yn goridor afon 13 milltir o hyd sy'n llifo o'i tharddiad i'r gogledd o Flaenafon, trwy Abersychan, Pontnewynydd, Pont-y-pŵl, Llanfrechfa a Chwmbrân cyn llifo i mewn i Afon Wysg yng Nghaerllion, sy'n llifo o'r fan honno i Fôr Hafren yng Nghasnewydd.

Dynodir Afon Lwyd yn Safle Pwysig llinellol o ran Cadwraeth Naturiol.




ALLWEDD

Cyrsiau Dŵr a Chyrff Dŵr

**FFIGUR 2.6** RHWYDWAITH CYNEFINOEDD DŴR CROYW

2.3.25 Yn benodol, mae systemau dŵr croyw yn helpu i reoli dŵr ffo o'r tir i afonydd, gorlifdiroedd, i ail-lenwi dŵr daear ac i reoli ansawdd dŵr. Mae'r prosesau hyn yn hanfodol o ran rheoleiddio a chyflenwi dŵr, maetholion, llif egni, hydoddion, gwaddodion ac organebau mudol i ecosystemau. Mae systemau dŵr croyw yn tynnu ac yn gwanhau llygryddion, yn storio dyfroedd i helpu i gynnal llif a dal carbon. Maent felly yn hanfodol bwysig o ran cefnogi gweithrediad systemau cymdeithasol ac economaidd a'n gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd.

2.3.26 Y tu allan i ardaloedd trefol[5], mae ecosystemau wedi'u haddasu sy'n cynnwys coedwigaeth planhigfeydd a rhwydweithiau cynefinoedd tir fferm caeedig hefyd yn cael eu nodi gan Gyfoeth Naturiol.

2.3.27 Dangosir dosbarthiad rhwydwaith cynefinoedd **Coedwigaeth Planhigfeydd** yn Nhorfaen yn **Ffigur 2.7**, sy'n cynnwys coedwigoedd conwydd sy'n eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n cael eu rheoli ganddynt i raddau helaeth. Yn ogystal â darparu pren ar gyfer deunyddiau adeiladu a gwastraff ar gyfer biodanwydd, gall coedwigaeth planhigfeydd hefyd ddarparu mynediad cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau hamdden llesol fel cerdded a beicio.

[5] Mae ecosystemau wedi'u haddasu yn y prif ardaloedd trefol yn cael eu hystyried o dan fannau gwyrdd trefol




ALLWEDD

Coedwigaeth Planhigfeydd Conwydd

**FFIGUR 2.7** RHWYDWAITH CYNEFINOEDD COETIROEDD PLANHIGFEYDD

2.3.28 Mae **tir fferm caeedig** yn Nhorfaen i'w gael yn bennaf yn yr ardaloedd o dir amaethyddol o ansawdd gwell (Graddau 1, 2 a 3a) yn yr iseldiroedd yng nghyffiniau Pont-hir a Chwmbrân (gweler **Ffigur 2.8**), sy'n cefnogi ffermio âr a da byw yn bennaf. Mewn cyferbyniad, mae'r tir ffermio agored yn ucheldir Torfaen yn cael ei ddominyddu gan dir amaethyddol o ansawdd cymedrol i is (graddau 3b-5) sy'n cefnogi ffermio defaid i raddau helaeth.

2.3.29 Rheolir tir fferm caeedig yn bennaf ar gyfer cynhyrchu bwyd. Mae sector amaethyddol Torfaen yn cynhyrchu cig, llaeth a chynhyrchion llaeth eraill a rhai cnydau âr. Gall tir fferm caeedig hefyd ddarparu tanwydd biomas.

2.3.30 Mae tir fferm caeedig yn darparu cynefinoedd ar gyfer planhigion, anifeiliaid ac organebau eraill. Gall y ffordd yr ydym yn defnyddio tir fferm gael dylanwad sylweddol ar yr adnoddau a ddefnyddir yn fyd-eang a hynny o ran mewnforio ac allforio bwydydd, defnyddio a newid ynni a dŵr, ac allyriadau nwyon tŷ gwydr.

2.3.31 Gall rheoli tir fferm caeedig mewn modd cadarnhaol helpu i ddiogelu rhag colli pridd, lleihau llygredd dŵr a siltio, a mynd i'r afael â llifogydd lleol.

2.3.32 Mae tir fferm caeedig hefyd yn cefnogi gweithrediad systemau cymdeithasol ac economaidd mewn sawl ffordd, gan ei fod yn ffocws ar gyfer perthnasoedd rhwng cymunedau gwledig a threfol.

**Cyfleoedd i Wneud Gwelliannau**

2.3.33 Mae'r rhwydwaith cynefinoedd mynyddoedd, gweundiroedd a rhostiroedd yn Nhorfaen yn arbennig o sensitif i hinsawdd sy'n newid, gan gynnwys newidiadau i'r ystod o ucheldiroedd lle gall rhywogaethau oroesi gyda rhai rhywogaethau'n mudo i fannau uwch fyth. Gallai hyn arwain at newidiadau ym mioamrywiaeth a thirwedd yr ucheldiroedd gydag arsylwadau mewn mannau eraill yng Nghymru yn awgrymu bod rhai rhywogaethau (gan gynnwys eithin a rhedyn gorllewinol) eisoes yn symud yn uwch.




ALLWEDD

- 1: Ansawdd Ardderchog
- 2: Ansawdd Da Iawn
- 3a: Ansawdd Da
- 3b:Ansawdd Cymedrol
- 4: Ansawdd Gwael
- 5: Ansawdd Gwael Iawn Dim
- Data/Tir Trefol

**FFIGUR 2.8**
ANSAWDD TIR
AMAETHYDDOL

2.3.34 Gallai cynnydd o ran diffyg lleithder mewn pridd a sychu hefyd gael effeithiau andwyol difrifol ar gynefinoedd allweddol fel corsydd mawn, sy'n gynefin pwysig ac sy'n storio carbon organig ar raddfa fawr.[6] Bydd angen monitro a rheoli cynefinoedd naturiol a lled-naturiol sy'n debygol o deimlo effaith newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

2.3.35 Y prif gyfle i wella cysylltedd rhwng y rhwydwaith mynyddoedd, gweundiroedd a chynefinoedd rhostir yw rhoi blaenoriaeth i'r potensial i adfer er mwyn cysylltu blociau o gorsydd mawndir a rhostiroedd wedi'u haddasu trwy gael gwared ar goedwigaeth planhigfeydd o fewn y 'Rhwydweithiau Lefel 2' fel y dangoswyd yn **Ffigur 2.3**.

2.3.36 Fe y gwelwyd yn **Ffigur 2.4**, y prif gyfle i sicrhau gwell cysylltedd o ran y rhwydwaith cynefinoedd glaswelltir lled-naturiol yw rhoi'r flaenoriaeth ar ganolbwyntio ar y potensial i adfer er mwyn cysylltu blociau o laswelltiroedd wedi'u haddasu o fewn y 'Rhwydweithiau Lefel 2' trwy gael gwared ar goedwigaeth planhigfeydd a chreu glaswelltir mewn ardaloedd tir fferm caeedig.

2.3.37 Y prif gyfle i sicrhau gwell cysylltedd rhwng y rhwydwaith cynefinoedd coetir lled-naturiol yw canolbwyntio ar roi blaenoriaeth ar sefydlu coetir brodorol, adfer safleoedd coetir hynafol a blannwyd (PAWS) i goetiroedd llydanddail brodorol a rheoli coetiroedd lled-naturiol hynafol (ASNW) o fewn 'Rhwydweithiau Lefel 2' fel y dangosir yn **Ffigur 2.5**.

[6] Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd i Gymru, Ionawr 2012 (Defra a Llywodraeth Cymru)

2.3.38 Gyda hinsawdd sy'n newid daw'r mwy o debygolrwydd y bydd afiechydon newydd a'r risg uwch o ledaenu clefydau presennol i ardaloedd newydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi'r angen i sicrhau bod ecosystemau ei goetiroedd yn iach, yn wydn ac yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, gan wneud y mwyaf o'r gwasanaethau rheoleiddio a chymorth y gallant eu darparu. Mae hyn yn cynnwys strategaeth i waredu ar larwydd sydd wedi'i heintio â chlefyd ffwngaidd Phytophthora ramorum a'i ailstocio lle bo hynny'n briodol.

2.3.39 Mae rhai o'r coetiroedd yn Nhorfaen yn dioddef o ganlyniad i weithgarwch beicio mynydd heb ei reoli. Mae angen lliniaru hyn trwy reoli'r mynediad i feiciau mynydd mewn mannau, cyfyngu mynediad mewn ardaloedd ecolegol sensitif lle bo angen a thrwy addysg.

2.3.40 Mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn debygol o gael effeithiau ar goetiroedd, gyda choetiroedd ffawydd mewn perygl arbennig oherwydd sychder yn sgil y glawiad a ragwelir yn yr haf a thymheredd cynyddol. Mae gan Dorfaen bocedi o goetir ffawydd fel yng Ngwarchodfa Natur Leol Coridor Cwmafon.

2.3.41 Mae'r risg o danau gwyllt mewn tirweddau glaswelltir, mawndir a rhostir yn debygol o gynyddu gyda'r amodau poethach a sychach a grëir gan yr hinsawdd sy'n newid. Mae tanau a gweithgaredd anghyfreithlon oddi ar y ffordd yn achosi difrod i gynefinoedd naturiol a lled-naturiol yn ucheldiroedd Torfaen, ac mae mawndir Blaenafon yn cael ei ddiraddio mewn mannau[7]. Mae angen deall y cyfuniad o ffactorau yn well (troseddau ar y dirwedd a newid yn yr hinsawdd) sy'n achosi tanau gwyllt yn yr ucheldiroedd, a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn trwy addysg.

[7] Cynllun Llesiant Torfaen 2018 - 2023

2.3.42 Mae cyfleoedd i wella rheoli coed a gwrychoedd sydd wedi gordyfu ar hyd glannau Camlas Mynwy ac Aberhonddu. Gall mynd ati i reoli'r asedau hyn yn well hefyd helpu i leihau troseddau ar y dirwedd (taflu sbwriel, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ati). Mae cyfleoedd eraill yn cynnwys dehongli bywyd gwyllt a threftadaeth mewn modd gwell; gwella cynnal a chadw llwybrau tynnu; gwella arwyddion rhwng y Gamlas a chyrchfannau cyfagos eraill; ac annog defnyddio at ddibenion hamdden sy'n helpu i hybu iechyd a lles.[8]

2.3.43 Mae hefyd angen rheoli mewnlifiad rhywogaethau ymledol fel Balsam yr Himalaya ar hyd cyrsiau dŵr. Er enghraifft, defnyddir gwyddon fel ateb biolegol i fynd i'r afael â'r Azolla Filliculoides (rhedyn ddŵr) ymledol ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu yng Nghwmbrân.

2.3.44 Bydd mwy o angen i ffermwyr addasu i newid yn yr hinsawdd trwy wella cynhyrchiant, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a defnyddio dŵr yn effeithlon. Efallai y bydd cynnydd mewn afiechyd, a gall newid yn yr hinsawdd achosi i chwyn esblygu'n gyflymach gan arwain at oddef chwynladdwyr.  Mae defnyddio mwy o chwynladdwyr yn debygol o effeithio ar ansawdd y pridd.[9]

2.3.45 Gellir cynnal neu wella cnydau yn y dyfodol drwy dymheredd uwch a chrynodiadau CO2, ond gall llai o law yn yr haf wrthbwyso hyn. Mae effaith newid yn yr hinsawdd ar dyfiant glaswellt yn arbennig o bwysig o ystyried pwysigrwydd ffermio da byw yn Nhorfaen. Efallai y bydd cyfleoedd i ffermwyr addasu i'r hinsawdd sy'n newid trwy gynhyrchu gwahanol gnydau neu gynnyrch.

[8] Camlas Mynwy ac Aberhonddu: Cynigion Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth

[9] Adroddiad Cwmpasu Gwerthuso Cynaliadwyedd Drafft Atodiad 2 - Nodweddion Sylfaenol Torfaen (Ebrill 2019)

2.3.46 Yn gryno, mae'r cyfleoedd strategol ar gyfer rheoli mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol i helpu i atgyfnerthu cysylltedd a gwydnwch Rhwydwaith SG Torfaen wedi eu hamlygu ym **Mlwch 2.10**.

**Blwch 2.10 - Cyfleoedd Strategol Allweddol ar gyfer Rheoli Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol**

- Ceisio cyfleoedd i wella cyflwr / ansawdd Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol trwy reolaeth briodol (e.e. rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol) yn unol â safonau a nodwyd gan Asesiad Mannau Agored Torfaen.

- Ceisio cyfleoedd i ddarparu Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol Hygyrch o fathau, meintiau a lleoliadau priodol i fynd i'r afael ag anghenion am fannau agored cyhoeddus yn unol â safonau a nodwyd gan Asesiad Mannau Agored Torfaen.

- Ceisio cyfleoedd i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol Hygyrch trwy fynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd.

## Coed Trefol

2.3.47 Mae astudiaeth a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2016 yn darparu tystiolaeth am adnoddau coed trefol cyfredol Torfaen yn nhrefi Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Mae prif ganfyddiadau'r astudiaeth wedi'u crynhoi isod.

2.3.48 Torfaen yw'r sir sydd â'r canopi coed fwyaf yng Nghymru. Amcangyfrifwyd bod ardaloedd sydd dan orchudd coed trefol yn Nhorfaen yn 23.2% yn 2013, i lawr o 24.4% yn 2009. Mewn cymhariaeth, roedd ardaloedd dan orchudd coed trefol yng Nghymru yn 16.3% yn 2013, i lawr o 17.0% yn 2009.

2.3.49 Mae'r ardaloedd sydd dan orchudd coed ym mhob un o dair ardal drefol Torfaen yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn genedlaethol, mae ardaloedd dan orchudd coed trefol yn isel mewn trefi arfordirol (e.e. Rhyl a Porthcawl - 6%) ac yn uchel yng Nghymoedd De Cymru (e.e. 30% yn Nhreharris). Mae ardaloedd dan orchudd coed yng Nghwmbrân yn 23.9%, Pont-y-pŵl yn 23% a Blaenafon yn 19.8%.

2.3.50 Mae coetiroedd trefol yn cynrychioli cymaint â 45% o'r canopi trefol yn Nhorfaen (35% yng Nghymru). Mae gweddill y canopi coed mewn ardaloedd trefol yn cynnwys unigolion a grwpiau o 'goed amwynder' sy'n tyfu ar hyd strydoedd, gerddi, meysydd parcio a mannau agored trefol, cyhoeddus a phreifat eraill.

2.3.51 Mae lleoedd agored cyhoeddus yn gartref i 57% o'r holl goed trefol yn Nhorfaen, lle mae lleoedd o'r fath yn cyfrif am 25% o dir trefol. Mae hyn yn 53% yn ein cymunedau yng Nghymru er mai 22% yn unig ohonynt sydd ar dir trefol.

2.3.52 Mae gerddi preswyl preifat yn gartref i 15% o'r holl goed trefol yn Nhorfaen (20% i Gymru), lle mae gerddi o'r fath yn cyfrif am 33% o ardaloedd trefol Torfaen (35% i Gymru). Mae hyn yn pwysleisio cyfrifoldeb perchnogion tai, a phwysigrwydd gorchmynion cadw coed i gynnal coedwig drefol Cymru. Mae hefyd yn tynnu sylw at gyfrifoldeb datblygwyr a chynllunwyr fel rhan o'r broses ddatblygu i sicrhau bod yna ddigon o goed mewn ardaloedd lle mae yna dai.

2.3.53 Mae llwybrau trafnidiaeth (gan gynnwys ymylon a phalmentydd) yn cyfrif am 8% o goed Torfaen, lle mae llwybrau o'r fath yn cyfrif am 17% o dir trefol Torfaen. Mae hyn yn 9% ac 16% yn y drefn honno yng Nghymru. Mae traffig yn achosi llygredd aer trefol a llygredd dŵr wyneb, y gall coed waredu arno.

2.3.54 Ar y cyfan, fe gollodd Torfaen 37 hectar o ganopi coed rhwng 2009 a 2013 ar draws y tair tref. Yn yr un modd gwelwyd gostyngiad tebyg yn 159 o 220 o ardaloedd trefol Cymru. Wrth gymharu colli ac ennill coed rhwng 2006 a 2013, ymddengys ein bod wedi colli 7,000 o goed mawr ledled Cymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, ymddengys mai Torfaen yw un o'r ychydig siroedd lle mae coed wedi'u recriwtio o'r categori canolig - cymaint â 985. Yn genedlaethol fodd bynnag, ymddengys bod etifeddiaeth coed cyfnod Fictoraidd ac Edwardaidd yng Nghymru yn erydu'n rheolaidd.

2.3.55 Mae canopi coed mewn ardaloedd difreintiedig yn tueddu i fod yn is ac yn llai cyfoethog o ran coed amwynder. Er bod amrywiad yn bodoli ledled Cymru, mae gan 63% o wardiau mwy cyfoethog ganopi coed sy'n fwy na 15% o'i gymharu â 23% ar gyfer wardiau llai cefnog. Fodd bynnag, mae amrywiad mawr yn y canopi coed o fewn 10 ward fwyaf difreintiedig Cymru ’(2014), o 2% yng Ngorllewin Rhyl 2 i 19% ym Mro Merthyr 2, Aberfan.

2.3.56 O'r 18 ward yn nwy ardal clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Torfaen, mae 12 yn uwch na chyfartaledd y canopi cenedlaethol gyda phedwar yn fwy na 30% - mae gan Saint Cadog a Phen-y-garn 46%. Dau yn unig, Abersychan 1 (8%) a Threfddyn (5%), sy'n disgyn o dan 10%. Lle mae gorchudd uchel o goed a lefel uchel o ddifreintedd yn cydfodoli, mae'n ymddangos bod hyn yn gysylltiedig â choetir trefol lleol yn hytrach na choed amwynder. Weithiau nid yw'r coed o'r natur hon yn cael eu rheoli ac nid ydynt yn hygyrch.

2.3.57 ‘Cafodd safleoedd tir gwyrdd (ardaloedd pridd, glaswellt a llwyni) eu hasesu i weld y potensial i blannu i gynyddu'r coed trefol yng Nghwmbrân, a hynny fel astudiaeth beilot. Pe bai pob safle ‘tir gwyrdd’ a nodwyd yn cael ei blannu, gyda’r coed iawn yn y lleoedd iawn, nododd yr astudiaeth beilot efallai y byddai modd cynyddu'r coed yng Nghwmbrân o 42% i 67%. Mae gwybod ble y gallai coed gael eu plannu yn galluogi cynllunwyr i osod targedau realistig o ran canopïau coed.

2.3.58 Derbynnir yn gyffredinol bellach fod gan goed a choetiroedd mewn trefi a dinasoedd a'r cyffiniau rôl hanfodol i'w chwarae wrth hyrwyddo cymunedau cynaliadwy. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae corff cynyddol o ymchwil wedi dangos bod gan goed  ystod eang o fuddion i bobl unigol ac i'r gymdeithas gyfan. Fel cydran bwysicaf y seilwaith gwyrdd, gall coed gyfrannu at well iechyd a lles, mwy o gyfleoedd hamdden, ac amgylchedd cyfoethog a chytbwys sydd yn y pen draw yn hybu delwedd a ffyniant tref.

2.3.59 Mae gan goed ar gyrion coetir ac ar hyd ffyrdd, botensial sylweddol i ‘sgwrio llygryddion’ a helpu i waredu ar lygryddion yn yr aer o ee allyriadau cerbydau, a thrwy hynny helpu i reoleiddio ansawdd aer. Mae plannu coed sydd â thueddiad uchel i dynnu llygryddion o'r aer yn ffafriol i'w hymgorffori mewn tirweddau trefol a strydluniau hen a newydd.[15]

### Cyfleoedd i Greu Gwelliannau

2.3.60 Mae astudiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud cyfraniad sylweddol o ran nodi faint o goed sy'n gorchuddio trefi yn Nhorfaen, a'u lleoliad. Er mai Torfaen yw'r sir sydd â'r canopi coed fwyaf yng Nghymru ar hyn o bryd, canfu astudiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd anghysondebau sylweddol yn lefelau'r gorchudd canopi coed rhwng trefi unigol Blaenafon, Pont-y-pŵl a Cwmbrân ac ynddynt. Mae'r canfyddiadau hyn yn darparu tystiolaeth i lywio'r camau ar gyfer cynnal a thyfu canopi coed.

2.3.61 Mae arfer gorau rhyngwladol yn dangos mai'r ffordd orau o sicrhau bod pob cymuned drefol yn cyflawni canopi digonol yw datblygu dull strategol o reoli coed trefol trwy fabwysiadu strategaethau coed lleol a gosod targedau ar gyfer canopi coed.

2.3.62 Er enghraifft, mae Portland yn Oregon, sydd â hinsawdd debyg i Gymru, yn bwriadu cynyddu ei orchudd 7% o'i lefel bresennol o 26%. Yn agosach at adref, mae Cyngor Dinas Bryste wedi gosod nod uchelgeisiol o gynyddu'i ganopi coed o 14% i 30%.

2.3.63 Mae'r astudiaeth hefyd yn nodi bod Torfaen wedi colli cyfraddau sylweddol o goed. Mae'n hanfodol bod effeithiolrwydd a'r offer a deddfwriaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ofalu am goed a'u cadw, yn cael eu hadolygu i sicrhau bod potensial rhaglenni grant yn cael ei gynyddu i'r eithaf i sicrhau bod coedluniau trefol Torfaen yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

2.3.64 Yn gryno, mae'r cyfleoedd strategol i reoli coed trefol i helpu i atgyfnerthu cysylltedd a gwydnwch Rhwydwaith SG Torfaen wedi eu hamlygu ym **Mlwch 2.11**.

**Blwch 2.11 - Cyfleoedd Strategol Allweddol i Reoli Coed Trefol**

- Ceisio cyfleoedd i wella cyflwr/ansawdd Coed Trefol trwy reoli coetiroedd trefol a choed amwynder yn briodol.
- Ceisio cyfleoedd i blannu rywogaethau priodol o Goed Trefol newydd i fynd i'r afael â diffygion yn nhrefi Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân a nodwyd gan Astudiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru [10].
- Ceisio cyfleoedd i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro'r cyhoedd rhag defnyddio a mwynhau Coetiroedd Trefol Hygyrch trwy fynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd.
- Datblygu Strategaeth Goed i gynnwys targedau ar gyfer cynyddu'r coed a choetiroedd trefol sy'n gorchuddio Torfaen.

[10] Gorchudd Coed Tref ym Mwrdeistref Sirol Torfaen, Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016

**Mannau Gwyrdd Trefol**

2.3.65 Mae trefi hefyd yn rhannau pwysig o ecosystemau. Mae eu hanes, eu strwythur a'u swyddogaeth (gan gynnwys cydrannau naturiol ac adeiledig) yn rhan o'u nodweddion a thrwy gylchu a throsi egni a deunyddiau ynddynt. Mae ganddyn nhw eu trefniant gofodol eu hunain a phatrymau newid unigryw sy'n dylanwadu ar ymddygiad rhywogaethau, dynameg poblogaeth a ffurfiant cymunedau. Mae mwyafrif poblogaeth Torfaen yn byw yn y tair tref.

2.3.66 Gall adnoddau naturiol mewn ardaloedd trefol, yn enwedig Mannau Gwyrdd Trefol, gefnogi cymunedau trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ac ymgysylltu. Mae hyn yn helpu i adeiladu cydlyniant cymdeithasol ynghyd â gwell lles meddyliol a mwy o weithgaredd corfforol, y mae'r ddau ohonynt o fudd arbennig mewn ardaloedd mwy difreintiedig lle mae cydlyniant cymdeithasol yn aml ar lefel is.

2.3.67 Parciau lleol yw'r lleoedd yr ymwelir â nhw amlaf i wneud gweithgareddau hamdden anffurfiol ac felly fe'u cydnabyddir fel ffynonellau gwasanaethau diwylliannol pwysig. Mae mynwentydd yn cynnig cyfleoedd i fyfyrio'n dawel a chyfoethogi'r ysbryd a gall gyfrannu at iechyd meddwl a lles pobl. Maent hefyd yn chwarae rhan gymunedol bwysig, o ran lleoliad ar gyfer seremonïau ac arferion crefyddol. Gall parciau a gerddi hefyd ddarparu buddion economaidd a gwella ansawdd bywyd trwy wella cymdogaethau, gwella prisiau tai a chreu ymdeimlad o le. Gall lleoedd gwyrdd amwynder gyfrannu at gymeriad, strwythur a lleoliad aneddiadau.

2.3.68 Yn ogystal â darparu lle inni fod yn egnïol, mae ein mannau gwyrdd trefol yn cynhyrchu ocsigen a maetholion cylchol, yn helpu i reoleiddio hinsawdd, storio carbon ac yn chwarae rôl o ran rheoli dŵr (lleihau'r perygl o lifogydd). Gallant hefyd amsugno llygryddion a gludir yn yr awyr a darparu adnodd peillio sy'n bwysig ar gyfer cynhyrchu bwyd.

2.3.69 Mae rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol yn darparu cyfleoedd i gynhyrchu bwyd yn lleol. Mae garddio ar ffurf rhandiroedd yn darparu ffynhonnell fforddiadwy o ffrwythau a llysiau, yn enwedig i drigolion yn Nhorfaen heb fynediad i ardd breifat addas, ac mae hefyd yn fodd o adloniant gwerth chweil sy'n gwella ansawdd bywydau llawer o bobl. Amlygir rhai o'r manteision sy'n gysylltiedig â garddio rhandiroedd ym **Mlwch 2.12**.

**Blwch 2.12 – Manteision Allweddol Garddio Rhandiroedd**

- Ffynhonnell o fwyd fforddiadwy o ansawdd da sy'n rhan hanfodol o ddiet iach.
- Gweithgaredd hamdden corfforol sy'n darparu buddion iechyd.
- Bod yn rhan o gymuned randiroedd a rhannu gwybodaeth â gwahanol grwpiau oedran a galluoedd.

2.3.70 Mae seilwaith gwyrdd trefol yn hanfodol i helpu i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a llygredd aer, a'u lliniaru. Er enghraifft, gall mynd ati i ddarparu cyfleoedd ar gyfer puro aer a dŵr, atafaelu carbon, lliniaru sŵn a rheoleiddio dŵr wyneb. Mae mannau gwyrdd trefol hefyd yn darparu cynefinoedd bywyd gwyllt ac yn cyfrannu at goridorau bywyd gwyllt trwy amgylcheddau adeiledig.

2.3.71 Dangosir y Mannau Gwyrdd Trefol yn Nhorfaen yn **Ffigur 2.9**. Maent yn cynnwys:

- Rhandiroedd a Mannau Tyfu Cymunedol
- Mynwentydd a mynwentydd eglwysi
- Parciau a Gerddi Cyhoeddus (yn cynnwys caeau chwarae a lleoedd chwarae)
- Mannau Gwyrdd Amwynder




ALLWEDD

- Rhandiroedd a Mannau Tyfu Cymunedol
- Mynwentydd a Mynwentydd Eglwysi
- Parciau a Gerddi Cyhoeddus (yn cynnwys caeau chwarae a lleoedd chwarae)
- Mannau Gwyrdd Amwynder

**FFIGUR 2.9**
MANNAU
GWYRDD TREFOL

2.3.72 Mae **Rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol** yn fannau gwyrdd trefol sydd wedi eu neilltuo at ddibenion garddio domestig a garddwriaeth ar raddfa fach, yn nodweddiadol ar gyfer cynhyrchu ffrwythau a llysiau.

2.3.73 Ar hyn o bryd mae 41 o randiroedd yn Nhorfaen (gweler **Ffigur 2.9**), yn bennaf yng Nghwmbrân a Phont-y-pŵl. Rheolir y rhain gan Gymdeithas Rhandiroedd De Cwmbrân (21 o safleoedd rhandiroedd yn ne'r Fwrdeistref Sirol) a Chymdeithas Rhandiroedd y Cwm Dwyreiniol (20 o safleoedd rhandiroedd yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol).

2.3.74 Mae lleoedd tyfu cymunedol eraill yn Nhorfaen yn cynnwys perllan gymunedol ym Mharc Pont-y-pŵl, Fferm Gymunedol Greenmeadow[11] yng Nghwmbrân a'r rhandir cymunedol cynaliadwy a phrosiect tyfu bwyd yng Ngorsaf LIFE Trefddyn (gweler **Blwch 2.13**).

**Blwch 2.13 – Rhandir Cymunedol Cynaliadwy Gorsaf LIFE Trefddyn**

Mae'r rhandir cymunedol cynaliadwy a'r prosiect tyfu bwyd wedi'i leoli ar ddarn o dir y tu ôl i ganolfan Gorsaf LIFE Trefddyn, sydd wedi'i osod allan gyda gwelyau plannu uchel a chyfleusterau rhandir.

Nod y prosiect yw helpu i annog bwyta a byw'n iach trwy gynnwys y gymuned leol mewn ystod o weithgareddau addysgol.

2.3.75 Mae **mynwentydd a mynwentydd eglwysi** yn fannau gwyrdd trefol sy'n gysylltiedig ag eglwysi plwyf (gweler **Ffigur 2.9**). Prif fynwentydd Torfaen yw: Mynwent Llwyncelyn (Cwmbrân); Mynwent Blaenafon; Mynwent Panteg (Pont-y-pŵl); a Mynwent Cwmbrân. Mae mynwentydd mwy o faint yn cynnwys, er enghraifft Eglwys y Drindod Sanctaidd, Pontnewydd; Eglwys Sant Cadog, Trefddyn; ac Eglwys Sant Pedr, Blaenafon.

[11] http://www.webster.uk.net/Businesses/Greenmeadow-Community-Farm/Home.aspx

2.3.76 Mae **parciau a gerddi cyhoeddus** yn fannau gwyrdd trefol sy'n gysylltiedig yn bennaf â hamdden anffurfiol a ffurfiol (gan gynnwys caeau chwarae a lleoedd chwarae). Fel y dangosir yn **Ffigur 2.9**, mae yna nifer fawr o barciau cyhoeddus, caeau chwarae a mannau chwarae wedi eu dosbarthu'n eang ledled trefi Torfaen. Y parciau mwyaf yn Nhorfaen yw Parc Pont-y-pŵl (gweler **Blwch 2.14**), Llyn Cychod Cwmbrân a Pharc Panteg Park yn Nhref Gruffydd.

**Blwch 2.14 – Parc Pont-y-pŵl**

Yn cael ei adnabod yn lleol fel Parc y Bobl, mae Parc Pont-y-pŵl yn 64 hectar ac mae ganddo sawl nodwedd hanesyddol gan gynnwys Gerddi Eidalaidd, Tai Iâ a Groto Cregyn.

Mae llwybr o'r Parc trwy dir fferm cyfagos i Dŵr Ffoli hanesyddol trwy lwybr troed cyhoeddus.

Mae'r Parc yn cynnwys man chwarae i blant, cae rygbi (cartref Clwb Rygbi Pont-y-pŵl), cyrtiau tenis, pitsio a phytio, bowls a llethr sgïo sych.

2.3.77 Gall **gerddi preifat** hefyd gynnig cynefinoedd i fywyd gwyllt ac maent yn elfennau pwysig o'r rhwydwaith mannau gwyrdd trefol.

2.3.78 Ceir hyd i **fannau gwyrdd amwynder** yn bennaf mewn ardaloedd preswyl. Mae'n cynnwys lleoedd hamdden lleol anffurfiol a man gwyrdd cymunedol mewn ardaloedd lle mae tai ac o'u hamgylch, gyda'r prif bwrpas o ddarparu cyfleoedd am weithgareddau anffurfiol yn agos at y cartref neu'r gwaith. Mae lleoedd gwyrdd amwynder hefyd yn aml yn cael eu defnyddio at ddibenion tirlunio. Mae lleoedd gwyrdd amwynder i'w cael yn aml mewn pentrefi, ar ffurf lawntiau pentref. Gall lleoedd gwyrdd amwynder fod â swyddogaeth sy'n gorgyffwrdd â pharciau a gerddi cyhoeddus ac ardaloedd naturiol a gallant hefyd ddarparu cyfleoedd anffurfiol i blant chwarae lle nad oes cyfleusterau eraill.

2.3.79 Fel y dangosir yn **Ffigur 2.9**, Mae Cwmbrân yn cynnwys ardaloedd helaeth o fannau gwyrdd amwynder a osodwyd fel rhan o uwch gynllun y Dref Newydd yn y 1950au.

**Cyfleoedd i greu Gwelliannau**

2.3.80 Bydd gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pob rhan o'n cymunedau yn gallu elwa o fynediad i fannau gwyrdd trefol a chymryd rhan yn eu rheolaeth yn cyfrannu at Dorfaen mwy cydlynol a chyfartal. Bydd gweithio gyda phartneriaid i greu lleoedd diogel, hyderus yn helpu i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Bydd mynd i'r afael â'r rhwystrau i bobl gael mynediad at fannau gwyrdd trefol a'u defnyddio ar gyfer gweithgareddau iach, fel sicrhau bod y profiad yn dda a bod pobl yn teimlo'n ddiogel, yn helpu i gyfrannu at gymdeithas iachach, fwy cyfartal a chydlynol.

2.3.81 Mae tystiolaeth gynyddol yn ymwneud â'r cysylltiadau rhwng darparu man gwyrdd o ansawdd uchel mewn ardaloedd trefol a gostyngiad mewn troseddu. O ystyried bod lleoedd gwyrdd amwynder yn un o'r mathau mwyaf lleol o fannau gwyrdd trefol, mae darparu a chynnal mannau gwyrdd amwynder o ansawdd uchel yn agos at ble mae pobl yn byw yn hanfodol er mwyn annog pobl i beidio â'u camddefnyddio, ac annog diwylliant o barch.

2.3.82 Mae hyrwyddo defnyddio mannau gwyrdd trefol a choridorau ar gyfer teithio mwy llesol nid yn unig yn ffordd gost-effeithiol o sicrhau canlyniadau iechyd cadarnhaol, ond gall hefyd gyfrannu at leihau allyriadau carbon lleol a gwella ansawdd aer lleol.

2.3.83 Gall mannau gwyrdd trefol ddarparu cyfleoedd ar gyfer diwylliant a hamdden. Bydd cynnal a gwella ansawdd ein hardaloedd naturiol yn darparu ardaloedd diwylliannol unigryw a deniadol i bobl leol ddod ynghyd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden, a chyfrannu at Dorfaen sy'n fwy cydlynol a chyfartal. Gorau po uchaf yw'r ansawdd a'r mwyaf amrywiol yw ein lleoedd gwyrdd, y mwyaf deniadol fydd Torfaen i ymwelwyr. Mae parciau a mathau eraill o fannau gwyrdd trefol hygyrch yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol, a gellir gwneud y mwyaf o'r manteision lles hyn trwy ddarparu mynediad teg i'r mannau hyn.

2.3.84 Ac eithrio Parc Pont-y-pŵl, Llyn Cychod Cwmbrân a Pharc Panteg (y mae gan bob un ohonynt statws Baner Werdd), mae angen gwella llawer o barciau cyhoeddus, caeau chwarae a mannau chwarae Torfaen er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r gymuned leol a'u gwneud yn fwy dymunol i ymweld â nhw

2.3.85 Mae pryfed sy'n peillio (yn cynnwys gwenyn, cacwn, gloÿnnod byw, pryfed hofran a gwyfynod) yn darparu gwasanaethau rheoleiddio hanfodol ar gyfer ein hamgylchedd naturiol. Mae cyfle i wella gwerth bioamrywiaeth ymylon glaswellt ar hyd coridorau ffyrdd trwy Dorfaen (gweler **Blwch 2.15**), mannau gwyrdd amwynder mewn ardaloedd preswyl (gweler **Blwch 2.16**) a mannau gwyrdd trefol eraill i gynnal ystod eang o bryfed peillio trwy blannu blodau gwyllt a gweithredu cyfundrefnau rheoli torri gwyrddni sy'n caniatáu i amrywiaeth o rywogaethau planhigion ffynnu trwy gydol y flwyddyn.

**Blwch 2.15 – Rheoli Ymylon Ffyrdd i Bryfed Sy'n Peillio**

Menter allweddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yw newid y drefn reoli ar hyd coridorau ein ffyrdd i wella eu potensial fel adnodd peillio a chynyddu eu gwerth bioamrywiaeth.

Y dyhead yw ehangu'r dull hwn o reoli'r holl fannau gwyrdd yn Nhorfaen a reolir gan y Cyngor.

**Blwch 2.16 – Mannau Gwyrdd Amwynder Gwell i Bryfed sy'n peillio**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn creu ardaloedd o ddolydd allan o fannau gwyrdd amwynder a oedd gynt yn ardaloedd o laswellt a gafodd eu torri'n ddwys ac a oedd yn darparu ychydig iawn o fudd i fioamrywiaeth os o gwbl.

Mae'r ardaloedd hyn wedi'u trosi'n ddolydd i annog pryfed sy'n peillio, gyda digon o le gwyrdd amwynder wedi'i ddarparu i bobl gerdded eu cŵn neu i blant allu chwarae. Wrth drawsnewid yr ardaloedd hyn yn ddolydd, fe wnaeth y Cyngor newid eu trefn dorri yn yr ardaloedd hyn i unwaith y flwyddyn yn unig er mwyn caniatáu i rywogaethau brodorol ailsefydlu dros amser.

Mae mentrau eraill i hyrwyddo blodau gwyllt yn cynnwys:

- Nodi ardaloedd eraill sy'n addas ar gyfer hadu blodau gwyllt.
- Adolygu sut mae glaswelltir yn cael ei reoli ar draws Torfaen, gydag ardaloedd nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer chwaraeon neu weithgareddau eraill yn cael eu torri'n llai aml i annog twf rhywogaethau blodeuol.
- Annog datblygwyr i wneud darpariaeth ar gyfer pryfed sy'n peillio, mewn cynigion ar gyfer safleoedd datblygu tai a diwydiannau newydd.

2.3.86 Mae yna hefyd gyfleoedd i ymgorffori ac ailgreu SG mewn datblygiadau adeiledig mewn ardaloedd trefol fel mannau gwyrdd bioamrywiol rhwng adeiladau, toeau, waliau a ffasadau gwyrdd, cynlluniau draenio cynaliadwy a mesurau dylunio gwyrdd eraill.

2.3.87 Gellid ystyried cyfleoedd i bartneriaid y BGC ymgorffori SG wrth uwch gynllunio a dylunio datblygiadau newydd. Er enghraifft, y model hybiau cymunedol newydd [12] a argymhellwyd gan Fwrdd iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ei strategaeth stadau sy'n darparu cyfleoedd i gysylltu'r hybiau hyn â mannau gwyrdd hygyrch lleol i gynnig manteision iechyd a lles i gleifion. Mae rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor hefyd yn rhoi cyfle i arddangos arfer gorau wrth ddefnyddio cynlluniau draenio cynaliadwy i leihau'r perygl o lifogydd mewn datblygiadau newydd [13].

[12] Strategaeth Stadau Drafft Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2018 - 2028

[13] Cynllun Rheoli'r Perygl o Lifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, 2015

2.3.88 Gellir fanteisio ar gyfleoedd hefyd i gefnogi grwpiau cymunedol lleol i gymryd perchnogaeth ar fannau gwyrdd trefol a'u rheoli.

2.3.89 Yn gryno, mae'r cyfleoedd strategol ar gyfer rheoli mannau gwyrdd trefol i helpu i atgyfnerthu cysylltedd a gwydnwch Rhwydwaith SG Torfaen wedi eu hamlygu fel a ganlyn ym **Mlwch 2.17**.

**Blwch 2.17 – Cyfleoedd Strategol Allweddol ar gyfer Rheoli Mannau Gwyrdd Trefol**

- Ceisio cyfleoedd i wella cyflwr / ansawdd Mannau Gwyrdd Trefol trwy reolaeth briodol yn unol â safonau a osodwyd gan Asesiad Mannau Agored Torfaen.

- Ceisio cyfleoedd i ddarparu Mannau Gwyrdd Trefol Hygyrch o fathau a meintiau priodol ac mewn lleoliadau priodol i fynd i'r afael â'r angen am fannau agored cyhoeddus yn unol â safonau a osodwyd gan Asesiad Mannau Agored Torfaen.

- Ceisio cyfleoedd i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro'r cyhoedd rhag defnyddio a mwynhau Mannau Gwyrdd Trefol Hygyrch, lle bo hynny'n briodol, trwy fynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd.

- Ceisio cyfleoedd i gynyddu gwerth bioamrywiaeth mannau gwyrdd trefol a choridorau i bryfed sy'n peillio trwy blannu blodau gwyllt a gweithredu camau priodol o ran torri glaswellt er mwyn caniatáu i amrywiaeth o rywogaethau ffynnu trwy gydol y flwyddyn.

**Safleoedd Treftadaeth**

2.3.90 Mae llawer o'n safleoedd treftadaeth (**gweler Ffigur 2.10**) yn gysylltiedig â threftadaeth ddiwydiannol De Cymru.

2.3.91 Mae Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon sy'n bwysig yn rhyngwladol wedi ei leoli'n helaeth yn ardal ogleddol Torfaen ac mae'n gorchuddio tua 33km$^2$. Mae o werth cyffredinol rhagorol fel tirwedd ddiwylliannol lle mae tystiolaeth eithriadol a helaeth o gloddio glo a gwneud haearn yn ystod blynyddoedd cynnar y Chwyldro Diwydiannol yn parhau i fod yn amlwg. Mae tai, capeli, eglwysi, ysgolion a Neuadd y Gweithwyr yn nhref Blaenafon yn adlewyrchu'r diwylliant unigryw a ddatblygodd mewn cymunedau gwneud haearn a chloddio glo ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

2.3.92 Mae Parc Pont-y-pŵl ac Abaty Llantarnam yn Barciau Hanesyddol Cofrestredig.

2.3.93 Mae 6 Ardal Gadwraeth yn Nhorfaen yn cynnwys:

- Camlas Mynwy ac Aberhonddu
- Cwmbrân Uchaf
- Llantarnam
- Pont-y-pŵl
- Cwmafon
- Blaenafon

2.3.94 Mae yna hefyd 26 o Henebion Cofrestredig ledled Torfaen, fel Gwaith Haearn Blaenafon, Gwaith Glo Cwmbyrgwm a safleoedd canoloesol Ysgubor Ddegwm yr Abaty a Chroes y Fynwent yn Llantarnam.




ALLWEDD

- Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Safle Treftadaeth y Byd
- Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol
- Parciau a Gerddi
- Mannau Cadwraeth
- Henebion Cofrestredig

**FFIGUR 2.10**
SAFLEOEDD
TREFTADAETH

2.3.95 Mae ein hamgylchedd hanesyddol rhagorol yn bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan helpu i lunio ein hamgylchedd naturiol a diffinio ein hunaniaeth leol.

2.3.96 Yn benodol, mae Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn atyniad twristaidd allweddol yn Nhorfaen a'r rhanbarth ehangach, ac mae'n gweithredu fel porth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae Safle Treftadaeth y Byd yn cyfrannu at les trwy gefnogi twristiaeth a hamdden anffurfiol, ynghyd â darparu cyfleoedd ar gyfer mynediad deallusol i hanes cyfoethog yr ardal.

2.3.97 Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu hefyd yn darparu mynediad a chyfleoedd hamdden sy'n cyfrannu at fuddion iechyd a lles, yn ogystal â chynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

**Cyfleoedd i Greu Gwelliannau**

2.3.98 Mae'r cyfleoedd strategol allweddol ar gyfer rheoli safleoedd treftadaeth i helpu i atgyfnerthu cysylltedd a gwydnwch Rhwydwaith SG Torfaen wedi eu hamlygu ym **Mlwch 2.18**.

**Blwch 2.18 - Cyfleoedd Strategol Allweddol i Reoli Safleoedd Treftadaeth**

- Ceisio cyfleoedd i gynnal a gwella cyflwr Safleoedd Treftadaeth yn unol â chynlluniau a safonau priodol ar gyfer rheoli cadwraeth.
- Ceisio cyfleoedd i wella cyflwyniad Safleoedd Treftadaeth gan gynnwys gwell mynediad ffisegol a deallusol i annog gwell dealltwriaeth a mwynhad.
- Ceisio cyfleoedd i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro'r cyhoedd rhag defnyddio a mwynhau Safleoedd Treftadaeth, lle bo hynny'n briodol, trwy fynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd.

## 2.4 Hygyrchedd a Chysylltedd Seilwaith Gwyrdd

### Hygyrchedd y Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd

2.4.1 Mae **Ffigur 2.11** yn nodi hygyrchedd cyfredol rhwydwaith SG Torfaen a ddarperir gan Dir Mynediad Agored, Tir Comin (gweler **Blwch 2.19**), Parciau Gwledig a Mannau Agored Trefol.

2.4.2 Mae enghreifftiau o safleoedd SG hygyrch yn cynnwys Gwarchodfa Natur Leol Llynnoedd y Garn a Pharc Pont-y-pŵl.

**Blwch 2.19 – Mynediad at Dir Comin yn Nhorfaen**

Mae llawer o'r tir cyffredin yn Nhorfaen yn gynefin rhostir lled-naturiol sydd wedi'i reoli gan bobl ers miloedd o flynyddoedd. Mae pori a rheolaeth flynyddol, yn cynnwys rheoli rhedyn, torri, a llosgi dan reolaeth, i gyd yn elfennau pwysig i gadw rhostiroedd yn iach.

Yn hanesyddol, mae'r rhan fwyaf o dir cyffredin yng Nghymru wedi bod ar agor i'r cyhoedd gyda chaniatâd perchennog y tir.

Sefydlodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 dir comin cofrestredig, mynydd, rhostiroedd, gweundiroedd a rhosydd fel 'tir mynediad agored'. Mae'r hawl mynediad a gyflwynwyd gan Ddeddf CROW ar gyfer hamdden awyr agored ar droed. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u marcio'n glir ar Fapiau Archwiliwr Arolwg Ordnans. Mae marchogaeth a beicio yn parhau i fod yn gyfyngedig i lwybrau ceffylau a chilffyrdd.




ALLWEDD

Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd

Seilwaith Gwyrdd Hygyrch

**FFIGUR 2.11**
HYGYRCHEDD Y RHWYDWAITH SEILWAITH GWYRDD

### Cysylltedd Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd

2.4.3 Mae **Ffigur 2.12** yn nodi cysylltedd presennol rhwydwaith SG Torfaen a ddarperir gan Goridorau Seilwaith Gwyrdd a Glas - nodweddion tirwedd llinellol yn bennaf sy'n cwmpasu cynefinoedd daearol a dyfrol naturiol a lled-naturiol fel ymylon ffyrdd / rheilffyrdd, gwrychoedd / lleiniau coed ac afonydd, nentydd a chamlesi.

2.4.4 Mae Coridorau Seilwaith Gwyrdd yn Nhorfaen yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus (gweler **Blwch 2.20**) a llwybrau wedi'u hyrwyddo, y rhwydwaith beicio (gweler **Blwch 2.21**) a llwybrau cludiant cyhoeddus.

2.4.5 Yn Nhorfaen, mae Coridorau Seilwaith Glas yn cynnwys glannau a chynefinoedd torlannol afonydd fel Afon Lwyd a dyfrffyrdd fel Camlas Mynwy ac Aberhonddu.

**Blwch 2.20 – Rhwydwaith Hawliau Tramwy Torfaen**

Mae 369km (230 o filltiroedd) o hawliau tramwy cyhoeddus yn darparu mynediad i gefn gwlad Torfaen. Maent yn cynnwys:

- **Llwybr troed** - priffordd y mae gan y cyhoedd hawl tramwy i gerdded arni yn unig.
- **Llwybr ceffylau** - priffordd y mae gan y cyhoedd hawl tramwy arni ar droed, ar gefn ceffyl ac ar feic pedal (yn cynnwys beiciau mynydd).
- **Cilffordd gyfyngedig** - priffordd y mae gan y cyhoedd hawl i deithio arni ar droed, ar gefn ceffyl a chyda cherbydau nad ydynt yn fecanyddol (fel beiciau pedal a cheffyl a chart).
- **Cilffordd Sy'n Agored i Bob Traffig** - priffordd y mae gan y cyhoedd hawl i deithio arni ar droed, ar gefn ceffyl neu feic pedal ac ar/mewn cerbyd olwyn o bob math, gan gynnwys ceffyl a chart a cherbydau modur. Mae'n llwybr a ddefnyddir gan y cyhoedd yn bennaf i gerdded neu ar gyfer marchogaeth, gyda cherbydau modur yn defnyddio'n achlysurol.

Er nad ydynt yn hawliau tramwy, mae **llwybrau caniataol** a **lonydd gwyrdd** (traciau / llwybrau heb wyneb wedi'u ffinio â gwrychoedd neu waliau sy'n aml o ryw hynafiaeth) hefyd yn rhan o rwydwaith mynediad cefn gwlad Torfaen.




ALLWEDD

Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd

Coridorau Seilwaith Gwyrdd:

Hawl Tramwy Cyhoeddus

Llwybr Beic

Heol

Coridorau Seilwaith Glas

**FFIGUR 2.12** CYSYLLTEDD Y RHWYDWAITH SEILWAITH GWYRDD

**Blwch 2.21 – Rhwydwaith Beicio Torfaen**

Mae gan Dorfaen rwydwaith helaeth o lwybrau beicio hawdd eu cyrraedd y gellir eu defnyddio i deithio i'r gwaith ac yn ôl, gan gyrraedd cyfleusterau pwysig fel canolfannau hamdden neu siopau neu er pleser yn unig.

Mae llawer o'r llwybrau oddi ar y ffordd ac yn mynd trwy dirweddau deniadol gyda llawer o nodweddion hanesyddol diddorol. Mae nifer y llwybrau wedi ehangu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf ac erbyn hyn mae rhwydwaith trawiadol yn y cwm.

Mae yna sawl llwybr 'Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol' (NCN) yn y fwrdeistref sirol, yn cynnwys:

- NCN 492 - Cwmbrân i Flaenafon
- NCN 49 - Casnewydd i Famheilad
- NCN 466 - Pont-y-pŵl i Grymlyn

Llwybr Afon Lwyd yw'r prif lwybr oddi ar y ffordd drwy Dorfaen ac mae'n dilyn NCN 49 ac NCN 492 o Gwmbrân i Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.

Yn ogystal, mae yna lawer o lwybrau beicio eraill sy'n darparu cysylltiadau ag atyniadau yn Nhorfaen.

2.4.6 Mae enghreifftiau o Gysylltiadau Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cynnwys Camlas Mynwy ac Aberhonddu (gweler **Blwch 2.22**), Llwybr Afon Lwyd (gweler **Blwch 2.23**) a Llwybr y Mynydd Haearn yn Nhirwedd Ddiwydiannol Blaenafon Safle Treftadaeth y Byd.

**Blwch 2.22 – Camlas Mynwy ac Aberhonddu**

Yn Nhorfaen, mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn llifo trwy ganol Cwmbrân a rhan ddeheuol Pont-y-pŵl cyn troi am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog trwy Sir Fynwy.

Ei phwrpas gwreiddiol oedd cludo glo a haearn, a gludwyd i'r gamlas gan rwydwaith o dramffyrdd a rheilffyrdd, y cafodd llawer ohonynt eu hadeiladu gan gwmni'r gamlas a oedd hefyd yn berchen arnynt.

Yn wreiddiol roedd y "Mon and Brec" yn ddwy gamlas annibynnol - Camlas Mynwy o Gasnewydd i Fasn Pont-y-moel (yn cynnwys Crymlyn Arm) a Chamlas Brycheiniog a'r Fenni yn llifo o Bont-y-moel i Aberhonddu.

Rhoddwyd y gorau i'r ddwy gamlas ym 1962, ond mae llwybr Brycheiniog a'r Fenni a rhan fechan o lwybr Sir Fynwy wedi eu hailagor er 1970.

**Blwch 2.23 – Llwybr Afon Lwyd**

A hithau'n llifo drwy ganol Torfaen, mae Llwybr Afon Lwyd yn llwybr hyfryd 16 milltir, heb draffig o Gwmbrân yn y de, trwy Bont-y-pŵl a hyd at Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon yn y gogledd (yn dilyn NCN 49 a 492).

Yn dilyn camlas yn gyntaf ac yna hen reilffordd, mae'n cynnig llwybr a rennir, hawdd, i'r holl ddefnyddwyr gydag inclein graddol yn codi o'r de i'r gogledd.

Mae Llwybr Afon Lwyd yn teithio trwy lawer o gymunedau'r cymoedd ac mae ganddo gysylltiadau da â gorsafoedd bysiau a threnau ym Mhont-y-pŵl a Cwmbrân, gan gynnig ffordd iach, ddymunol a chost isel i gymudo i'r gwaith neu'r ysgol.

Gellir cyrchu amrywiaeth o fannau gwyrdd, safleoedd treftadaeth ac atyniadau eraill o'r Llwybr, fel:

- Gwarchodfa Natur Leol Llynnoedd Garn
- Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon
- Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Cymru
- Gwaith Haearn Blaenafon
- Safle Treftadaeth y Byd
- Traphont Garndiffaith
- Amgueddfa Pont-y-pŵl a Pharc Pont-y-pŵl
- Canol Trefi Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân
- Camlas Mynwy ac Aberhonddu

2.4.7 Gall coridorau gwyrdd a glas weithredu fel 'cerrig camu' i wasgaru bywyd gwyllt rhwng cynefinoedd fyddai fel arall yn dameidiog ac wedi eu hynysu yn y dirwedd amaethyddol a'r ardal drefol gan ddarparu gwasanaethau ategol ar gyfer ystod o gynefinoedd bywyd gwyllt, ynghyd â chefnogi pryfed sy'n peillio lle cânt eu rheoli'n briodol. Yn ogystal â hyn, gall coridorau gwyrdd a glas ymgorffori cysylltiadau cerdded a beicio rhwng aneddiadau a chefn gwlad o amgylch, gan ddarparu manteision iechyd a lles i gymunedau lleol ac ymwelwyr.

2.4.8 Mae coridorau glas hefyd yn darparu ffynhonnell dŵr croyw. Mae mwyafrif ardal Torfaen wedi'i orchuddio gan ddalgylch Afon Lwyd, gyda rhannau o dde'r fwrdeistref sirol yn nalgylch Nant Pantyreos (ffynhonnell i Barrack Hill) a Nant Dowlais (ffynhonnell i gydlifiad ag Afon Lwyd), ac ardaloedd sy'n agos at ymyl y fwrdeistref sirol yn rhannu dalgylchoedd ag ardaloedd cyfagos.

### Cyfleoedd ar Gyfer Gwelliannau

2.4.9 Mae mwyafrif y boblogaeth yn dibynnu ar geir i deithio o ddydd i ddydd, ac isel yw’r lefelau cerdded a beicio yn Nhorfaen. Mae cyfleoedd strategol i wella ymhellach y llwybrau teithio llesol a ddarperir ar hyd coridorau gwyrdd fel rhan annatod o rwydwaith seilwaith gwyrdd Torfaen, ac i ddarparu addysg i gefnogi'r defnydd a wneir ohonynt. Mae yna hefyd rai bylchau yn y ddarpariaeth a chynnal a chadw (gan gynnwys cynhyrchu Llwybrau Diogel i'r Ysgol) y mae angen mynd i'r afael â nhw. Byddai modd manteisio ar gyfleoedd hefyd i ddatblygu'r rhwydwaith gwirfoddolwyr yn Nhorfaen i gynorthwyo gyda chynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus.

2.4.10 Amlygir y cyfleoedd strategol allweddol ar gyfer gwella hygyrchedd a chysylltedd Rhwydwaith SG Torfaen ym **Mlwch 2.24**.

**Blwch 2.24 – Cyfleoedd Strategol Allweddol ar gyfer Gwella Hygyrchedd a Chysylltedd y Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd**

- Ceisio cyfleoedd ar gyfer darparu Seilwaith Gwyrdd Hygyrch newydd o fathau, meintiau priodol mewn lleoliadau priodol i fynd i'r afael â'r anghenion am fannau agored cyhoeddus yn unol â safonau a osodwyd gan Asesiad Mannau Agored Torfaen.

- Ceisio cyfleoedd i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro'r cyhoedd rhag defnyddio a mwynhau Seilwaith Gwyrdd Hygyrch, lle bo hynny'n briodol, trwy fynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd.

- Ceisio cyfleoedd ar gyfer darparu Coridorau Gwyrdd Hygyrch newydd / gwell rhwng Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol Hygyrch i ddarparu rhwydweithiau teithio cynaliadwy / llesol.

- Ceisio cyfleoedd i atgyfnerthu swyddogaeth Coridorau Gwyrdd a Glas fel coridorau ecolegol trwy eu rheoli'n well (e.e. rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol) a chreu nodweddion tirwedd llinellol newydd i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i wasgaru bywyd gwyllt oherwydd cynefinoedd tameidiog.

## 3.0 LLE RYDYM AM FOD

### 3.1 Ein Gweledigaeth am Seilwaith Gwyrdd

3.1.1 Dywedodd Asesiad Lles Torfaen wrthym fod 'lle' yn bwysig i bobl, a bod ein hadnoddau naturiol yn ased pwysig. Yn benodol yr amgylchedd awyr agored sy'n cynnwys yr aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt a phlanhigion sy'n ffurfio'r dirwedd sydd o'n cwmpas.

3.1.2 Mae gan yr amgylchedd naturiol y gallu i ddarparu nifer o fanteision lles i ddinasyddion Torfaen. Mae'r manteision hyn yn cynnwys dŵr glân, amddiffyn rhag llifogydd, lle ar gyfer hamdden ac adloniant, cynhyrchu bwyd a thanwydd, ymdeimlad o dawelwch, swyddi a gweithgaredd economaidd sy'n gysylltiedig ag ystod o sectorau gan gynnwys coedwigaeth, twristiaeth, hamdden ac amaeth.

3.1.3 Os yw cenedlaethau yn awr ac yn y dyfodol yn mynd i wireddu'r manteision y gall yr amgylchedd naturiol eu darparu, yna mae angen i ardaloedd naturiol fod yn iach ac mewn cyflwr da. Mae hyn yn golygu bod angen i ni weithio gyda'n gilydd i ddatblygu dulliau sy'n gwarchod ac yn gwella iechyd ein hadnoddau naturiol fel ased pwysig i Dorfaen.

3.1.4 Yn sail i hyn mae ein gweledigaeth a rennir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghynllun Llesiant Torfaen, sy'n cynnwys cyfeiriadau at yr amgylchedd fel yr amlygir ym **Mlwch 3.1.**

3.1.5 Byddwn yn gwneud hyn trwy wella amrywiaeth, y gallu i addasu, maint, cyflwr a chysylltedd rhwng ardaloedd naturiol wrth leihau'r risgiau o ffactorau allanol fel llygredd, datblygiad, newid yn yr hinsawdd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diffyg rheolaeth a phlannu olynol a rhywogaethau anfrodorol.

**Blwch 3.1 - Gweledigaeth Cynllun Llesiant Torfaen – Detholion**

*Rydyn ni am i Dorfaen fod ... yn lle ble mae'r amgylchedd yn cael ei warchod a'i wella.*

*Bydd adnoddau naturiol yn cael eu gwarchod a'u gwella ac yn gallu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid. Bydd ansawdd dŵr ac aer yn dda, bydd priddoedd yn iach a bydd cysylltedd ecolegol yn cael ei gynyddu i'r eithaf. Bydd ein 'dinasyddion' yn deall ac yn gallu gwireddu'r manteision lu y gall ein hadnoddau naturiol eu darparu.*

*Bydd ein cymunedau a'r seilwaith allweddol y maent yn dibynnu arno yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hinsawdd sy'n newid wedi cael eu gwireddu e.e. twristiaeth, hamdden ac amaethyddiaeth.*

*Bydd Torfaen yn dangos gwydnwch i gostau cynyddol ynni a chludiant trwy wella effeithlonrwydd, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, teithio llesol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy mwy lleol.*

3.1.6 Bydd datblygu dulliau newydd o reoli stad y sector cyhoeddus a'n hasedau ar y cyd yn ein helpu i gynnal a gwella ecosystemau sy'n gweithredu'n iach, gwella ansawdd dŵr ac aer, cynnal priddoedd iach, cynyddu cysylltedd ecolegol a chyfrannu at reoli llifogydd.

3.1.7 Gall y ffordd yr ydym yn rheoli ein SG helpu i gefnogi gwydnwch cymdeithasol ac economaidd yn y tymor hwy a gallu Torfaen i addasu i newid yn yr hinsawdd - ee rheoli dŵr yn y dirwedd a lleihau effaith cynnydd mewn tymheredd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol ac o amgylch seilwaith allweddol.

3.1.8 Mae adnoddau naturiol yn darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, ynni a lloches. Mae rheoli ein hadnoddau naturiol yn well yn golygu y byddwn yn gallu mynd i'r afael yn well â heriau fel newid yn yr hinsawdd, mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, a gwella iechyd corfforol a meddyliol pobl. Bydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy hefyd yn cefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecolegol.

3.1.9 Amlinellir ein gweledigaeth a rennir ar gyfer datblygu rhwydwaith swyddogaethol, gysylltiedig o ardaloedd naturiol, ym **Mlwch 3.2.**

**Blwch 3.2 – Ein Gweledigaeth ar gyfer Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Torfaen**

Mae gan Dorfaen rwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o fannau naturiol unigryw, bioamrywiol a gwydn â chysylltiadau da, sy'n darparu manteision lles i bobl a natur.

Mae ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau yn cael eu rheoli mewn ffyrdd cynaliadwy i gynnal, gwarchod a gwella cyfanrwydd a chysylltedd y rhwydwaith.

Cydnabyddir yn eang gyd-ddibyniaeth bioamrywiaeth, tirwedd a threftadaeth gyfoethog Torfaen.

3.1.10 Bydd gweithio tuag at y weledigaeth hon yn helpu i gyfrannu at lawer o amcanion y Cynllun Llesiant fel yr amlygir ym **Mlwch 3.3**.

**Blwch 3.3 – Cyfraniad at amcanion ein Cynllun Llesiant**

- Bydd datblygu rhwydwaith swyddogaethol, cysylltiedig o ardaloedd naturiol yn helpu i adeiladu gwydnwch i effeithiau **newid yn yr hinsawdd** (Amcan 2).
- Mae man gwyrdd o ansawdd da gyda digon o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol a gweithgaredd corfforol yn cefnogi **plant/pobl ifanc iach** (Amcan 3) a **ffyrdd iach o fyw** i bobl drwy gydol eu hoes (Amcan 4).
- Mae datblygu ardaloedd naturiol swyddogaethol, cysylltiedig yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu **gwydnwch economaidd** trwy gefnogi cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd (Amcan 5) ac ar gyfer **gwella sgiliau lleol** trwy hyfforddiant, gwirfoddoli a phrentisiaethau (Amcan 6).
- Gall mynd i'r afael yn â defnyddio mannau gwyrdd mewn ffordd anghyfrifol gyfrannu at **gymunedau diogel, hyderus a chydlynol** (Amcan 7).

## 3.2 Ein Amcanion Seilwaith Gwyrdd

3.2.1 Amlygir ein hamcanion allweddol ar gyfer datblygu rhwydwaith swyddogaethol, gysylltiedig o ardaloedd naturiol a fydd yn cefnogi anghenion lles poblogaethau lleol yn Nhorfaen ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ym **Mlwch 3.4**.

**Blwch 3.4 – Amcanion Ein Seilwaith Gwyrdd**

1. Meithrin gwydnwch i newid yn yr hinsawdd.
2. Cefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecolegol.
3. Mynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd a defnyddio mannau gwyrdd yn anghyfrifol.
4. Datblygu rhwydweithiau teithio llesol a hyrwyddo gweithgaredd corfforol yn yr awyr agored.
5. Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli a phrentisiaethau.

### Amcan 1: Meithrin gwydnwch o ran newid yn yr hinsawdd

3.2.2 Bydd datblygu rhwydwaith swyddogaethol, cysylltiedig o ardaloedd naturiol yn helpu i adeiladu gwydnwch i fynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd (Amcan 2 Cynllun Llesiant Torfaen). Gall rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd mwy cynaliadwy, helpu i gefnogi gwydnwch cymdeithasol ac economaidd yn y tymor hwy a gallu Torfaen i addasu i newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal â darparu lle inni fod yn egnïol, mae ein hardaloedd gwyrdd yn helpu i reoleiddio hinsawdd, storio carbon a chwarae rôl o ran rheoli dŵr (lleihau'r perygl o lifogydd). Gallant amsugno llygryddion a gludir yn yr awyr sy'n niweidiol i iechyd a darparu adnodd peillio ar gyfer cynhyrchu bwyd yn lleol.

3.2.3 Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer meithrin gwydnwch o ran newid yn yr hinsawdd yw:

- Cydweithio'n well i gydbwyso'r pwysau o ran defnyddio tir sy'n effeithio ar ein hadnoddau naturiol.
- Cynyddu gwydnwch ein hadnoddau naturiol (yr ydym yn dibynnu arnynt) yn sgil hinsawdd sy'n newid.
- Rheoli dŵr yn well yn y dirwedd a lleihau effaith cynnydd mewn tymheredd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol ac o amgylch seilwaith allweddol ac ati.
- Nodi a dilyn cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Nodi cyfleoedd i gynhyrchu bwyd yn lleol i helpu i leihau “milltiroedd bwyd”.

3.2.4 Mae'r partneriaid BGC sydd â rolau blaenllaw wrth gyflawni'r amcan hwn wedi eu nodi ym **Mlwch 3.5**.

**Blwch 3.5 – Chwaraewyr Allweddol sy’n Meithrin Gwydnwch o ran Newid yn yr Hinsawdd**

- Gall **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (CBST)** arwain ar gynllunio strategol a hwyluso ymgysylltiad cymunedol.
- Bydd **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i wella gwydnwch ein hardaloedd naturiol yn y sir a'r manteision lles y maent yn eu darparu**.**
- Gall **Tân ac Achub** De Cymru helpu i sicrhau bod ein mannau gwyrdd yn wydn yn nhermau llifogydd a thân.

**Amcan 2: Darparu cefnogaeth i fioamrywiaeth a gwydnwch ecolegol**

3.2.5 Bydd datblygu rhwydwaith swyddogaethol, cysylltiedig o ardaloedd naturiol yn helpu i gynyddu bioamrywiaeth a gwydnwch ecolegol o ran effeithiau hinsawdd sy'n newid (Amcan 2 Cynllun Llesiant Torfaen). Bydd dulliau mwy cynaliadwy o reoli stad y sector cyhoeddus a'n hasedau ar y cyd yn ein helpu i gynnal a gwella ecosystemau iach, cryfhau bioamrywiaeth a chynyddu cysylltedd ecolegol.

3.2.6 Mae partneriaid y BGC sydd â rolau blaenllaw o ran cyflawni'r amcan hwn wedi eu hamlygu ym **Mlwch 3.6**.

**Blwch 3.6 – Chwaraewyr Allweddol sy'n Cefnogi Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecolegol.**

- Mae **gan Gyfoeth Naturiol Cymru** ran flaenllaw i'w chwarae wrth gyflawni'r amcan hwn trwy weithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd lle gellir gwella gwydnwch ecolegol a risgiau allweddol i adnoddau naturiol. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd helpu i nodi cyfleoedd i wella gwydnwch ein hardaloedd naturiol yn Nhorfaen a chynyddu'r manteision lles y maent yn eu darparu.

- Gall **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (CBST)** hefyd arwain ar gynllunio strategol a hwyluso ymgysylltiad cymunedol mewn perthynas â bioamrywiaeth a gwydnwch yr ecosystemau.

**Amcan 3: Mynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd a defnyddio mannau gwyrdd yn anghyfrifol**

3.2.7 Gall mynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd, defnyddio mannau gwyrdd yn anghyfrifol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (fel tanau glaswellt, tipio anghyfreithlon a defnyddio beiciau oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon) gyfrannu at gymunedau diogel, hyderus a chydlynol (Amcan 7 Cynllun Llesiant Torfaen) . Bydd gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i greu lleoedd diogel, hyderus yn helpu i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Bydd mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag bod yn fwy egnïol, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, yn cyfrannu at gymdeithas iachach, fwy cyfartal a chydlynol (h.y. sicrhau bod y profiad yn dda a bod pobl yn teimlo'n ddiogel).

3.2.8 Mae partneriaid y BGC sydd â rôl arweiniol o ran cyflawni'r amcan hwn, wedi eu hamlygu ym **Mlwch 3.7**.

**Blwch 3.7 – Chwaraewyr Allweddol sy'n Mynd i'r Afael a Throseddau ar y Dirwedd**

- Gall **Tân ac Achub De Cymru** helpu i nodi'r rheini sy'n tipio'n anghyfreithlon gyda sefydliadau partner fel Taclo Tipio Cymru i sicrhau bod gwastraff yn cael ei lanhau**.**
- Gall **Heddlu Gwent** gynghori ar ddiogelwch ein hardaloedd gwyrdd cyhoeddus, a helpu i fynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd**.**
- Gan weithio gyda Heddlu Gwent, gall **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** fynd i'r afael â gweithgareddau anghyfreithlon/gwrthgymdeithasol (e.e. dwyn metel, tresmasu oddi ar y ffordd, fandaliaeth, tipio anghyfreithlon, baw cŵn, jolihoetwyr, tanau, potsio a throseddu bywyd gwyllt).
- Bydd **Tîm Diogelwch Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** sy'n gweithio gyda Heddlu Gwent yn cymryd camau priodol pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn riportio Beicio Oddi ar y Ffordd.
- Bydd **Tai Cymunedol Bron Afon** a **Chartrefi Melin** yn gweithio gyda phartneriaid, tenantiaid a thrigolion i gefnogi cymunedau gwydn a diogel.

### Amcan 4: Datblygu rhwydweithiau teithio llesol a hyrwyddo gweithgaredd corfforol awyr agored

3.2.9 Mae man gwyrdd o ansawdd da gyda digon o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol a gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored yn cefnogi Amcan 3 (rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc) yng Nghynllun Llesiant Torfaen ac Amcan 4 (cefnogi ffyrdd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda). Bydd cefnogi teithio mwy llesol hefyd yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon lleol a gwella ansawdd aer lleol (Amcan 2 y Cynllun Llesiant).

3.2.10 Gall mannau gwyrdd ddarparu cyfleoedd ar gyfer diwylliant a hamdden. Bydd cynnal a gwella ansawdd ein hardaloedd naturiol yn darparu ardaloedd diwylliannol unigryw a deniadol i bobl leol ddod ynghyd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden a chyfrannu at Dorfaen mwy cydlynol a chyfartal. Y gorau po uchaf yw'r ansawdd a'r mwyaf amrywiol yw ein lleoedd gwyrdd, y mwyaf deniadol fydd Torfaen i ymwelwyr.

3.2.11 Gall parciau a mathau eraill o fannau agored cyhoeddus gael effaith gadarnhaol ar les. Gellir cefnogi iechyd corfforol a meddyliol trwy ddarparu mynediad teg at fannau gwyrdd.

3.2.12 Gall hyrwyddo teithio llesol a manteision hamdden awyr agored helpu i fynd i'r afael â lefelau cynyddol o ordewdra a diffyg gweithgarwch, a, chefnogi poblogaeth sy'n heneiddio trwy sicrhau mynediad addas at fannau gwyrdd.

3.2.13 Mae partneriaid y BGC sydd â rolau blaenllaw o ran cyflawni'r amcan hwn wedi eu hamlygu ym **Mlwch 3.8**.

**Blwch 3.8 – Chwaraewyr Allweddol sy'n Hyrwyddo Gweithgarwch Awyr Agored**

- Gall **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** arwain ar gynllunio teithio llesol strategol a hwyluso ymgysylltiad cymunedol.
- Gall **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwella gweithgarwch corfforol a defnyddio mannau gwyrdd i wella iechyd.

### Amcan 5: Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli a phrentisiaethau

3.2.14 Mae datblygu ardaloedd naturiol swyddogaethol, cysylltiedig yn cynnig cyfleoedd i wella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddi, prentisiaethau a gwirfoddoli (Amcan 6 Cynllun Llesiant Torfaen), a all hefyd gynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â thlodi a datblygu gwydnwch economaidd trwy gefnogi cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd (Amcan 5). Bydd gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pob rhan o'n cymunedau yn gallu elwa o fynediad i fan gwyrdd a chymryd rhan yn ei reolaeth yn cyfrannu at Dorfaen sy'n fwy cydlynol a chyfartal.

3.2.15 3.2.14 Mae partneriaid y BGC sydd â rolau blaenllaw o ran cyflawni'r amcan hwn wedi eu hamlygu ym **Mlwch 3.9**.

**Blwch 3.9 – Chwaraewyr Allweddol sy'n Hyrwyddo Cyfleoedd Hyfforddi, Gwirfoddoli a Phrentisiaethau**

- Gall **Cyfoeth Naturiol Cymru** ac **Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent** helpu i gefnogi cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau ar gyfer rheoli safleoedd bywyd gwyllt.
- Gall **Cynghrair Gwirfoddol Torfaen** helpu i gefnogi gwirfoddoli i wella a chynnal mannau gwyrdd er budd ehangach (ffyrdd iach o fyw, datblygu sgiliau ac ati).
- Bydd **Cynghorau Tref a Chymuned** yn hwyluso ymgysylltiad cymunedol trwy'r broses cynllunio lle ar lefel leol.

## 3.3 Egwyddorion Cynllunio'r Seilwaith Gwyrdd

3.3.1 Fel yr amlygwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (gweler **Blwch 3.10**), mae'r broses cynllunio i ddefnyddio tir yn rhoi cryn botensial i helpu i integreiddio SG a datblygiad trwy gydbwyso blaenoriaethau ar gyfer diogelu'r amgylchedd, canlyniadau iechyd a lles ac anghenion datblygu economaidd. Gellir sicrhau'r manteision mwyaf ar gyfer atgyfnerthu Rhwydwaith SG Torfaen lle mae darparu ar gyfer SG wedi'i ymgorffori mewn dylunio safle o ddechrau'r broses uwch gynllunio.

3.3.2 Bwriad yr egwyddorion cynllunio SG a nodir isod yw helpu i lywio trafodaethau ac ymgynghoriadau cyn ymgeisio, gwerthuso ceisiadau cynllunio a gweithredu cynlluniau datblygu mewn perthynas â sicrhau darpariaeth SG priodol a all gyfrannu at gyflawni holl amcanion Cynllun Llesiant Torfaen.

**Blwch 3.10 – Integreiddio SG a Datblygu**

*Mae seilwaith gwyrdd yn chwarae rhan sylfaenol wrth lunio lleoedd a'n hymdeimlad o les, ac mae'n gynhenid i ansawdd y lleoedd yr ydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae ynddynt. Dylai'r system gynllunio warchod a gwella asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd oherwydd y rolau amlswyddogaethol hyn. Rhaid ystyried amddiffyn a gwella bioamrywiaeth yn ofalus fel rhan o ddarpariaeth seilwaith gwyrdd ochr yn ochr â'r angen i fodloni amcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach cymdeithas, ac anghenion cymunedau lleol. Dylid ystyried y manteision lu y mae ecosystemau gwydn a seilwaith gwyrdd yn eu cynnig i gymdeithas, gan gynnwys y cyfraniad economaidd a chymdeithasol y maent yn ei wneud i ardaloedd lleol, wrth gydbwyso a gwella'r anghenion hyn.*

*Dylid gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trwy integreiddio seilwaith gwyrdd i mewn i ddatblygiad trwy ddewis safle yn briodol a dylunio'n greadigol. Gyda chynllunio a dylunio gofalus, gall seilwaith gwyrdd ymgorffori buddion bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem mewn datblygiad a lleoedd newydd, gan helpu i oresgyn y potensial am amcanion sy'n gwrthdaro, a chyfrannu at ganlyniadau iechyd a lles. Mae sawl ffordd o ymgorffori seilwaith gwyrdd, yn dibynnu ar yr anghenion a'r cyfleoedd y mae safle'n eu cyflwyno. Mae tirlunio, toeau gwyrdd, ymylon glaswellt, draenio trefol cynaliadwy a gerddi yn enghreifftiau o fesurau unigol a all fod â manteision cronnus ehangach, yn enwedig mewn perthynas â bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn ogystal ag wrth sicrhau'r rhinweddau amgylcheddol dymunol eraill mewn lleoedd.'*

- Dylai'r awdurdod cynllunio geisio cynnal a gwella Asedau SG ac adeiladu Rhwydwaith SG gwydn trwy sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd Rhwydwaith SG Torfaen yn cael eu hosgoi yn gyntaf, yna eu lleihau, eu lliniaru, ac fel dewis olaf y dylid gwneud iawn amdanynt.

- Dylai'r awdurdod cynllunio sicrhau bod nodweddion o werth SG yn cael eu cadw ar y safle, a'u gwella neu eu creu lle bynnag y bo modd, trwy fabwysiadu arfer gorau wrth ddylunio safleoedd ac egwyddorion SG sy'n cyfeirio at y materion a'r cyfleoedd a amlygwyd gan y Strategaeth SG hon.

- Dylai cynigion datblygu geisio osgoi unrhyw golled neu ddifrod sylweddol i Asedau SG a fyddai'n niweidio uniondeb ac ymarferoldeb Rhwydwaith SG Torfaen.

- Pan na ellir osgoi colli neu ddifrodi Asedau SG yn sylweddol ar y safle, a phob safle amgen rhesymol a fyddai'n arwain at lai o niwed, unrhyw niwed nac enillion wedi'u hystyried yn llawn, dylai cynigion datblygu geisio darparu manteision neu enillion net i'r Rhwydwaith SG trwy ddarparu mesurau cydadfer addas oddi ar y safle i greu Asedau SG newydd, neu ddarparu gwell trefniadau rheoli i wella cyflwr / ansawdd Asedau SG presennol, i wrthbwyso'r golled / difrod na ellir ei osgoi a thrwy hynny helpu i gynnal uniondeb Rhwydwaith SG Torfaen.

- Dylai lleoliadau addas ar gyfer sicrhau cyfadferiad oddi ar y safle geisio adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd a amlygwyd gan y Strategaeth SG hon a chynlluniau cyflenwi SG lleol eraill.

- Dylai penderfyniadau cynllunio geisio ymgorffori mesurau i sicrhau bod coridorau a chysylltiadau gwyrdd a glas yn cael eu creu, eu hadfer a'u gwella, a dylid rheoli a chynnal a chadw asedau SG yn y tymor hir, trwy gyfraniadau datblygwyr lle bo hynny'n briodol.

- Dylai cynigion datblygu ddarparu digon o fynediad i fannau gwyrdd naturiol / lled-naturiol i drigolion/gweithwyr ryngweithio â natur ac annog ffyrdd iachach o fyw trwy fodloni safonau ar gyfer darparu mannau agored a argymhellir gan Astudiaeth Mannau Agored y Cyngor.

- Dylai'r datblygu ymgorffori mesurau ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd trwy atebion dylunio tirwedd SG, pensaernïol a pheirianegol arloesol - fel ee systemau draenio cynaliadwy, toeau gwyrdd a waliau gwyrdd.

## 3.4 Atgyfnerthu ein Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd

3.4.1 Mae ein gweledigaeth ar gyfer rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o fannau naturiol unigryw, bioamrywiol a gwydn, wedi'u cysylltu'n dda yn cael ei adlewyrchu yn y Rhwydwaith SG a ddangosir yn **Ffigurau 3.1, 3.2, 3.3** a **3.4**.

3.4.2 Mae'r rhain yn helpu i ganolbwyntio'r sylw neu'r flaenoriaeth ar dir y mae angen ei ddiogelu, ei reoli neu ei sicrhau mewn ffyrdd cadarnhaol i greu rhwydwaith amlswyddogaethol o fannau gwyrdd, cysylltiadau ac Asedau SG eraill y gall buddsoddiad gyflawni'r ystod fwyaf o fanteision ar eu cyfer. Nid yw'n ddull anhyblyg. Bwriad y Rhwydwaith SG yw bod yn hyblyg ac yn ymatebol i gyfleoedd a chyfyngiadau - fel perchen ar dir, dyheadau cymunedol, mynediad at gyllid, gofynion draenio tir, cyfleoedd datblygu, ystyriaethau cadwraeth, ac ati.

3.4.3 Mae'r Rhwydwaith SG yn berthnasol ar draws Torfaen i gyd, a gall weithredu ar unrhyw raddfa. Mae'n darparu cyd-destun ar gyfer cyflwyno ymyriadau SG a fyddai'n gwella rheolaeth ar Asedau SG cyfredol, yn ogystal â chreu ac adfer Asedau SG newydd mewn ardaloedd lle nodwyd anghenion.

3.4.4 Mae'n bwysig sicrhau nad yw datblygiad amhriodol neu reoli tir yn peryglu uniondeb y Rhwydwaith SG cyffredinol. Mae hyn yn golygu bod angen hyblygrwydd o ran sut mae'r Rhwydwaith SG yn cael ei amddiffyn a'i reoli. Mewn achosion lle mae niwed na ellir ei osgoi i asedau SG cyfredol er mwyn diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd, dylid gwrthbwyso hyn trwy fesurau lliniaru a chydadfer i wella ymarferoldeb Asedau SG eraill mewn mannau eraill yn y Rhwydwaith SG. Fodd bynnag, mae rhai cynefinoedd, fel coetiroedd hynafol, yn anadferadwy ac mae angen eu gwarchod.

3.4.5 Pan fydd datblygiad yn cael ei gynllunio o fewn neu'n agos at Ased SG, dylai ddod yn nodwedd annatod o gynllun, dyluniad a 'hunaniaeth' y datblygiad i sicrhau y cedwir cysylltedd y rhwydwaith SG er budd y cyhoedd a bioamrywiaeth, a'i wella.

3.4.6 Mae'r Rhwydwaith SG yn crynhoi ystod o Asedau SG mewn lleoliadau tirwedd amrywiol. Gyda buddsoddiad a rheolaeth briodol dros amser, bydd y Rhwydwaith SG yn cynnig cyfleoedd mwy amrywiol o ran defnyddio, profiadau a swyddogaethau i sicrhau mwy o fanteision lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn Nhorfaen fel yr amlygir ym **Mlwch 3.11**.

**Blwch 3.11 – Manteision Allweddol SG i Dorfaen**

- Cyfrannu at iechyd a lles trwy hyrwyddo cyfleoedd i gael mynediad at fannau gwyrdd i wneud ymarfer corff.
- Cysylltu tai, ysgolion a gorsafoedd bysiau/trenau â'r rhwydwaith mynediad a chysylltu â mannau gwyrdd hygyrch.
- Darparu gwell delwedd, profiad ac ymdeimlad o le trwy fuddsoddi mewn gwelliannau i fannau agored.
- Cyfleoedd i ddarparu addysg amgylcheddol trwy barciau, gwarchodfeydd natur a gweithgareddau ar y fferm.
- Helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy reoli gwastraff, dŵr a llygredd aer yn gynaliadwy, tyfu cnydau ynni a chreu coetiroedd wrth i garbon suddo.
- Cefnogi cynhyrchu bwyd yn lleol, prosesu cynnyrch lleol a darparu siopau fferm
- Cynyddu ymwybyddiaeth o safleoedd treftadaeth a dathlu eu cyfraniad at hynodrwydd lleol ac ymdeimlad o le.
- Darparu cyfleoedd i gynnwys y gymuned trwy wirfoddoli ac ennill sgiliau newydd trwy gyflawni prosiectau SG, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae difreintedd cymdeithasol uchel.
- Atgyfnerthu'r gwaith o reoli cynefinoedd bywyd gwyllt i safleoedd sy'n wynebu pwysau adloniadol

3.4.7 Mae'r Rhwydwaith SG yn cwmpasu ystod o Asedau SG, swyddogaethau, lleoliadau, meintiau a lefelau hygyrchedd a defnydd, ac mae'n gweithredu ar bob graddfa ofodol ac ym mhob ardal ddaearyddol, wledig a threfol.

3.4.8 Gan ystyried y cyfleoedd strategol ar gyfer SG a nodwyd yn Adran 2.0, amlygir ein blaenoriaethau strategol ar gyfer atgyfnerthu gwydnwch y Rhwydwaith SG Strategol i sicrhau'r manteision lles mwyaf i Dorfaen ym **Mlwch 3.12**.

**Blwch 3.12 – Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Buddsoddiadau SG**

- Cefnogi lles economaidd yn yr ucheldiroedd (e.e. comin, pori da byw, arallgyfeirio dan arweiniad twristiaeth)
- Hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt (ee rhostiroedd, glaswelltiroedd, coetiroedd, dŵr croyw, adar ac infertebratau)
- Gwella rheoleiddio gwasanaethau ecosystem (ee rheoli adnoddau dŵr, ynni adnewyddadwy, peillio)
- Hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol trwy ddefnyddio lleoedd naturiol (ee taclo troseddau ar y dirwedd, gwirfoddoli, hamdden)
- Cefnogi cadwraeth treftadaeth (yn enwedig Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon)
- Cyflawni gwelliannau mynediad strategol i fynd i’r afael â chysylltiadau coll yn y rhwydwaith Hawliau Tramwy
- Datblygu rhaglen hyfforddi ceidwaid i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar fynediad i gefn gwlad
- Cefnogi’r gwaith o reoli a phlannu coed mwn ardaloedd lle mae llygredd uchel (ee ardaloedd trefol / A472 Crymlyn-Pont-y-pŵl)
- Datblygu dull cynaliadwy o gynnal a rheoli parciau a gerddi cyhoeddus
- Gweithredu cyfundrefnau rheoli glaswelltir i bryfed peillio amgen ar gyfer parciau, mannau gwyrdd amwynder ac ar hyd ymylon ffyrdd i hyrwyddo rhwydweithiau ecolegol gwydn

3.4.9 Mae pwysleisio'r buddsoddiad ar reoli Asedau SG presennol Torfaen i wella eu cyflwr a'u hansawdd yn flaenoriaeth amlwg - yn benodol, rheoli mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol, coed trefol a mannau gwyrdd trefol. Mae amddiffyn Asedau SG presennol sydd dan bwysau o ran newid y ffyrdd y defnyddir tir, rheolaeth amhriodol a / neu newid yn yr hinsawdd hefyd yn bwysig. Mae mynd i'r afael â diffygion yn y SG a ddarperir i ddiwallu anghenion cymunedau yn Nhorfaen heddiw ac yn y dyfodol sy'n debygol o brofi pwysau sy'n gysylltiedig â thwf hefyd yn flaenoriaeth.

3.4.10 Mae'r Rhwydweithiau SG yn darparu fframwaith lefel uchel, lle byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu rhwydwaith swyddogaethol, cysylltiedig o ardaloedd naturiol a reolir yn gynaliadwy yn ein trefi a'u cyffiniau.

**Y Rhwydwaith SG Strategol i Dorfaen**

3.4.11 Mae'r Rhwydwaith SG Strategol cyffredinol ar gyfer Torfaen gyfan yn ymddangos yn **Ffigur 3.1**. Mae'r rhwydwaith hwn o seilwaith gwyrdd a glas strategol yn paentio'r 'darlun mawr' ar gyfer SG yn Nhorfaen. Mae'n cynnwys mannau gwyrdd a glas strategol, coridorau a chysylltiadau, sydd â mynediad cyhoeddus a hebddo, gan gysylltu Asedau SG ym Mwrdeistref y Sir ac mewn ardaloedd cyfagos fel rhan annatod o Rid Gwyrdd Gwent ehangach. Mae'r Rhwydwaith SG Strategol yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cysylltiadau pwysig â SG yn nhrefi Torfaen a'u cyffiniau.

3.4.12 Amlinellir prif gydrannau'r Rhwydwaith SG Strategol isod. Dylid darllen y rhain ar y cyd â'r cyfleoedd strategol allweddol ar gyfer atgyfnerthu cysylltedd a gwydnwch Rhwydwaith SG Torfaen a amlygir yn **Adran 2.0**.




ALLWEDD

Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Strategol

Seilwaith Gwyrdd Hygyrch

Rhwydwaith Seilwaith Glas Strategol

Coridorau Gwyrdd a Glas

1 Strategol:

2 Dyffryn Afon Lwyd

3 Camlas Mynwy ac Aberhonddu

4 Ucheldiroedd y Gogledd

5 Ucheldiroedd y Dwyrain a'r De

Nodyn: mae map y Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd yn ddarluniadol yn unig. Y bwriad yw cynrychioli fframwaith gofodol lefel uchel ar gyfer cynllunio a rheoli Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel leol. Mae'r map yn seiliedig ar y data cyfredol sydd ar gael.

**FFIGUR 3.1** RHWYDWAITH SEILWAITH GWYRDD STRATEGOL TORFAEN

3.4.13 O fewn y Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas Strategol, amlygwyd meysydd o flaenoriaeth sydd â chyfleoedd allweddol ar gyfer gwella, cysylltu, a chreu SG strategol. **Coridorau Gwyrdd a Glas Strategol** ar raddfa tirwedd yw'r rhain sy'n asgwrn cefn Rhwydwaith SG Torfaen a chysylltiadau strategol allweddol â Rhwydweithiau SG yng Ngrid Gwyrdd Gwent ehangach. Yn cynnwys brithwaith o dir i'w ddefnyddio, nodweddion naturiol a chynefinoedd, treftadaeth adeiledig, adnoddau archeolegol a phentrefi, bwriedir iddynt fod yn goridorau hollol amlswyddogaethol gyda'r potensial i ddarparu ystod eang o fanteision lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

3.4.14 Mae'r Coridorau Gwyrdd a Glas Strategol yn cysylltu rhwydweithiau cynefinoedd mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol craidd, gan ddarparu cyfleoedd i adfer ac ail-greu cynefinoedd y tu allan i ardaloedd craidd, a darparu cerrig camu ar gyfer gwasgaru bywyd gwyllt rhwng cynefinoedd.

**1. Coridor Dyffryn Afon Lwyd**

3.4.15 Mae'r coridor glas hwn yn cynnwys Afon Lwyd, tir ar lan y glannau a'r gorlifdir ehangach, a'i dyffrynnoedd coediog. Mae'n darparu coridor SG strategol mawr sy'n cysylltu cynefinoedd a chymunedau ym Mlaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân yn Nhorfaen, ac yng Nghasnewydd.

3.4.16 Mae Coridor Dyffryn Afon Lwyd yn cynnwys asedau SG allweddol fel cynefinoedd dŵr croyw, coetir a glaswelltir, a Gwarchodfeydd Natur Leol Coridor Cwmafon a Thirpentwys.

3.4.17 Mae'r cyfleoedd yn cynnwys clustogi ac ymestyn cynefinoedd a chysylltiadau presennol, gwella llwybrau mynediad strategol a darparu mannau gwyrdd naturiol hygyrch i fynd i'r afael â diffygion a nodwyd.

## 2. Coridor Camlas Mynwy ac Aberhonddu

3.4.18 Mae'r coridor glas hwn yn cynnwys sianel, llwybr tynnu ac ymylon Camlas Mynwy ac Aberhonddu.

3.4.19 Mae Coridor Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn darparu cyswllt SG strategol mawr sy'n cysylltu cymunedau yng Nghwmbrân a Phont-y-pŵl â SG mewn ardaloedd cyfagos yn Sir Fynwy a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ardal gadwraeth yw'r Gamlas ac mae'n darparu man gwyrdd hygyrch.

3.4.20 Ymhlith y cyfleoedd mae gwelliannau bioamrywiaeth, adfer treftadaeth a gwella llwybrau mynediad strategol.

## 3. Coridor Ucheldir y Gogledd

3.4.21 Mae'r coridor gwyrdd hwn yn ucheldiroedd gogleddol Torfaen yn cynnwys rhwydwaith o fannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol gan gynnwys corstir, mawndir, gweundir, glaswelltir a chynefinoedd dŵr croyw, ac mae'n darparu cysylltiad strategol o bwys â SG mewn ardaloedd ucheldirol cyfagos yn Sir Fynwy a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

3.4.22 Mae Coridor Ucheldir y Gogledd yn cynnwys Asedau SG allweddol fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Blorens (rhan) a Gwarchodfa Natur Leol Llynnoedd y Garn (tir CBS Torfaen), Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon (rhan) a nifer o Henebion Cofrestredig.

3.4.23 Ymhlith y cyfleoedd mae gwelliannau bioamrywiaeth ar raddfa tirwedd, gwaith i reoli safleoedd treftadaeth a gwella llwybrau mynediad strategol i atgyfnerthu cysylltiadau rhwng yr ardaloedd helaeth o dir mynediad agored yn yr ucheldiroedd gogleddol a Thref Blaenafon.

## 4. Coridor Ucheldir y Gorllewin

3.4.24 Mae'r coridor gwyrdd hwn yn ucheldir dwyreiniol Torfaen yn cynnwys rhwydwaith o fannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol gan gynnwys corsydd mawndir, rhostir, glaswelltir a chynefinoedd coetir (mae CBS Torfaen a Chyfoeth Naturiol Cymru yn dirfeddianwyr allweddol), ac mae'n darparu cysylltiad strategol mawr â SG mewn ardaloedd ucheldirol cyfagos ym Mlaenau Gwent a Chaerffili.

3.4.25 Mae Coridor Ucheldir y Gorllewin yn cynnwys Asedau SG allweddol fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tŷ'r Hen Forwyn a Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur.

3.4.26 Ymhlith y cyfleoedd mae gwelliannau bioamrywiaeth ar raddfa tirwedd (gan gynnwys byffro ac ymestyn cynefinoedd a chysylltiadau presennol) a gwelliannau i lwybrau mynediad strategol i atgyfnerthu cysylltiadau rhwng yr ardaloedd helaeth o dir mynediad agored yn yr ucheldiroedd gorllewinol a chymunedau ym Mhont-y-pŵl a Cwmbrân.

## 5. Coridor Iseldiroedd y Dwyrain a'r De

3.4.27 Mae'r coridor gwyrdd hwn yn cynnwys rhan helaeth o dir fferm caeedig yn iseldiroedd dwyreiniol a de Torfaen, gyda phocedi o laswelltir lled-naturiol, coetiroedd a chynefinoedd dŵr croyw.

3.4.28 Mae Coridor Iseldiroedd y Dwyrain a'r De yn cynnwys Asedau SG allweddol fel Cronfa Ddŵr Llandegfedd (rhan) a Chors Henllys sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, nifer o Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a Pharc Hanesyddol Abaty Llantarnam.

3.4.29 Ymhlith y cyfleoedd mae gwelliannau bioamrywiaeth wedi'u targedu o ran nodweddion tirweddau tir fferm (fel gwrychoedd, coetiroedd a glaswelltiroedd) a gwelliannau i lwybrau mynediad strategol i atgyfnerthu cysylltiadau â chymunedau ym Mhont-y-pŵl, Croesyceiliog, Llanyrafon, Ponthir, Cwmbrân a Henllys.

3.4.30 O fewn Coridorau Gwyrdd a Glas Strategol, ac yn eu cysylltu, mae rhwydwaith o **Gysylltiadau Mynediad Gwyrdd Strategol** yn darparu llwybrau mynediad strategol aml-ddefnydd, oddi ar y ffordd yn bennaf (neu "lwybrau gwyrdd") ar gyfer cerddwyr a beicwyr, gan gysylltu, ac integreiddio ardaloedd preswyl a busnes i wasanaethau allweddol, cyrchfannau hamdden a mannau gwyrdd trefol ar draws trefi Torfaen.

3.4.31 Mae'r Cysylltiadau Mynediad Gwyrdd Strategol yn cysylltu cymunedau ym Mlaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân â chyrchfannau o fewn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y tu hwnt i Lwybrau Beicio Cenedlaethol ar hyd Afon Lwyd a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu. Efallai y bydd angen sefydlu cysylltiadau mynediad newydd ar hyd rhai rhannau o'r cysylltiadau hyn ac uwchraddio mynediad presennol lle bo hynny'n briodol i ganiatáu beiciau i'w defnyddio.

3.4.32 Mae'r rhwydwaith o Gysylltiadau Mynediad Gwyrdd Strategol yn cysylltu â gwasanaethau cludiant cyhoeddus i ddarparu rhwydwaith symud cynaliadwy integredig i Dorfaen a fydd yn helpu i leihau dibyniaeth ar ddefnyddio ceir a helpu i leihau allyriadau carbon.

3.4.33 Er bod gan y Cysylltiadau Mynediad Gwyrdd Strategol y brif swyddogaeth o ddarparu mynediad a chysylltiadau llwybr hamdden, gyda rheolaeth briodol maent hefyd yn darparu coridorau ecolegol ar gyfer gwasgaru bywyd gwyllt.

3.4.34 Dylai cyfluniad penodol aliniadau llwybrau ar gyfer y Cysylltiadau Mynediad Gwyrdd Strategol, ymateb i'r hyn y bwriadwyd iddynt ei wneud a'u hamgylchiadau lleol.

3.4.35 Wedi'u gosod o fewn y Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Strategol, mae Gridiau Gwyrdd Trefol yn cynnwys rhwydweithiau lleol amlswyddogaethol o seilwaith gwyrdd a glas yn edafu trwy'r amgylchedd adeiledig, gan blethu mannau gwyrdd trefol mewn ardaloedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio gyda rhwydweithiau cludiant cyhoeddus a'r cefn gwlad ehangach.

3.4.36 Gyda buddsoddiad a rheolaeth briodol, gall y Gridiau Gwyrdd Trefol ddarparu ystod o fanteision lles i gymunedau trefol fel y rhai a amlygir ym **Mlwch 3.13**.

**Blwch 3.13 – Manteision SG Gridiau Gwyrdd Trefol**

- Atgyfnerthu hunaniaeth leol a gwella cymeriad ffisegol trwy lunio datblygiadau trefol nawr ac yn y dyfodol.
- Cynnal amwynder gweledol a chynyddu natur ddeniadol ardal i greu ymdeimlad o falchder.
- Codi gwerth eiddo a chynorthwyo adfywio trefol ac adnewyddu cymdogaethau.
- Hybu potensial economaidd twristiaeth, hamdden a gweithgareddau diwylliannol.
- Darparu lleoedd agored ar gyfer cyfleusterau diwylliannol, cymdeithasol a chymunedol fel ffeiriau, gwyliau a chyngherddau.
- Diogelu treftadaeth hanesyddol, ddiwylliannol ac archeolegol.
- Cyfrannu at iechyd a lles drwy leihau straen a darparu lleoedd ar gyfer hamdden ffurfiol ac anffurfiol.
- Darparu cyfleusterau addysgol awyr agored ar gyfer ysgolion a sefydliadau academaidd.
- Gwella cynhwysiant corfforol a chymdeithasol yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, yr anabl a phobl hŷn.
- Cynnig rhwydweithiau cerdded/beicio a llwybrau diogel i’r ysgol.
- Gwella ansawdd aer a chymedroli tymereddau eithafol.
- Diogelu a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd ecolegol.
- Ymgorffori seilwaith amgylcheddol i wella ansawdd dŵr a rheoli llifogydd.

3.4.37 Mae'r Gridiau Gwyrdd Trefol yn darparu ardaloedd naturiol i gymunedau trefol a hynny ar gyfer hamdden a mynediad i natur, ymdeimlad o le, cyfleoedd addysg a chymorth i gyfrannu at deithio cynaliadwy trwy ddarparu llwybrau teithio llesol diogel i gerdded a beicio, a hefyd yn cyfrannu at well iechyd a lles trwy ymarfer corff a mynediad i fannau gwyrdd trefol.

3.4.38 Mae coed stryd, coetiroedd trefol a mannau gwyrdd amwynder yn helpu i wrthsefyll effaith ‘ynys wres' ardaloedd trefol trwy ddarparu cysgod i reoleiddio'r microhinsawdd, ac mae gerddi domestig a thoeau/waliau gwyrdd yn darparu cysylltiadau ar gyfer bywyd gwyllt trwy'r ardaloedd adeiledig. . Mae'r Asedau SG hyn hefyd yn helpu i reoli llif dŵr wyneb mewn ardaloedd trefol ac yn lliniaru llifogydd a chludo llygryddion i gyrsiau dŵr.

3.4.39 Mae'r Gridiau Gwyrdd Trefol ar gyfer Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân (yn ymgorffori Croesyceiliog / Llanyrafon, Ponthir a Henllys) a amlinellir isod yn elfen annatod o Rwydwaith SG Strategol Torfaen.

3.4.40 Mae'r Gridiau Gwyrdd Trefol yn darparu fframweithiau gofodol ar gyfer llywio blaenoriaethau a chyfleoedd lleol i reoli a darparu asedau SG trefol yn well, fel coed stryd, coetiroedd trefol a mannau gwyrdd trefol. Y bwriad yw i'r blaenoriaethau strategol a'r cyfleoedd ar gyfer SG a amlygir isod gael eu datblygu ymhellach ar lefel leol trwy Gynlluniau Lle a baratowyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned perthnasol gyda chefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

## Grid Gwyrdd Trefol Blaenafon

3.4.41 Fel y dangosir yn **Ffigur 3.2a**, mae rhwydwaith o Gysylltiadau Gwyrdd Lleol yn cysylltu Grid Gwyrdd Trefol Blaenafon â safleoedd seilwaith gwyrdd hygyrch a choridorau seilwaith gwyrdd / glas yng nghefn gwlad o amgylch y dref yn Ucheldir y Gogledd. Mae'r Grid Gwyrdd Trefol yn cynnwys llwybrau troed a beicio lleol sy'n cysylltu adeiladau, strydoedd a chymdogaethau â safleoedd SG hygyrch a mannau gwyrdd trefol (gweler **Ffigur 3.2b**) ledled yr ardal adeiledig.

3.4.42 Mae amddiffyn a gwella safleoedd bioamrywiaeth, cymeriad trefwedd ac asedau amgylchedd hanesyddol yn flaenoriaeth strategol. Pan fo'n gydnaws ag ystyriaethau treftadaeth, anogir ymgorffori a / neu ailgreu nodweddion SG yn yr amgylchedd adeiledig (fel toeau gwyrdd a waliau ar adeiladau a systemau draenio cynaliadwy) fel rhan o Rid Gwyrdd Trefol Blaenafon.

3.4.43 Amlygir blaenoriaethau strategol a chyfleoedd ar gyfer atgyfnerthu gwydnwch Grid Gwyrdd Trefol Blaenafon ym **Mlychau 3.14** a **3.15**.

**Blwch 3.14 – Blaenoriaethau SG Strategol ar gyfer Blaenafon**

- Cefnogi lles economaidd yn yr ucheldiroedd ( ee comin, pori da byw, arallgyfeirio dan arweiniad twristiaeth)
- Hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt (ee rhostiroedd, glaswelltiroedd, coetiroedd, dwr croyw, adar ac infertebratau)
- Gwella gwasanaethau ecosystemau sy’n rheoleiddio (ee rheoli adnoddau dŵr, ynni adnewyddadwy, peillio)
- Hyrwyddo cyfranogiad cymunedol o ran defnyddio mannau naturiol (ee taclo troseddau ar y dirwedd, gwirfoddoli, hamdden)
- Cefnogi cadwraeth treftadaeth (yn enwedig Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon)
- Cyflawni gwelliannau mynediad strategol i fynd i’r afael â chysylltiadau coll yn y rhwydwaith Hawliau Tramwy




## ALLWEDD

Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Lleol

Rhwydwaith Seilwaith Glas Lleol

**Safleoedd Seilwaith Gwyrdd Hygyrch:**
1.Blorens (SoDdGa)
2.Llynnoedd y Garn (GNL)

**Coridorau Seilwaith Gwyrdd Allweddol**
1.GNLCoridor Cwmafon

**Coridorau Seilwaith Glas Allweddo: l**
1. Afon Lwyd

Coetiroedd a Choed

Prif Ffyrdd

Hawl Tramwy Cyhoeddus

Llwybr Beicio

N 0 0.25 0.5 cilomedr

Nodyn: mae'r map Grid Gwyrdd Trefol yn ddarlun yn unig. Y bwriad yw cynrychioli fframwaith gofodol lefel uchel ar gyfer cynllunio a rheoli Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel leol. Mae'r map yn seiliedig ar y data cyfredol sydd ar gael.

**FFIGUR 3.2a** GRID GWYRDD TREFOL BLAENAFON

| Blwch 3.15 – – Cyfleoedd i Wella SG Grid Gwyrdd Trefol Blaenafon | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| R hif | Cyfle i Wella SG (gweler Ffigur 3.2b) | Cyfraniad at Amcanion Strategol SG | | | | |
| | | Gwydnwch o ran Newid yn yr Hinsawdd | Gwydnwch o ran Bioamrywiaeth | Mynd i'r afael â Throsedd ar y Dirwedd | Hyrwyddo Gweithgarwch Corfforol | Hyrwyddo Hyfforddiant / Gwirfoddoli |
| 1 | Hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt ar hyd Afon Lwyd trwy reoli cynefinoedd glannau afon yn well. | √ | √√ | | | √ |
| 2 | Darparu cefnogaeth i 'Gyfeillion' grwpiau cymunedol Parc Blaenafon, Llynnoedd y Garn a mannau gwyrdd hygyrch lleol eraill. | √ | √ | √√ | √ | √√ |
| 3 | Hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt / treftadaeth, a gwella profiad ymwelwyr, trwy reoli llystyfiant ym Mynwent San Pedr | √ | √√ | √ | | √ |
| 4 | Creu cyswllt mynediad / coridor gwyrdd newydd oddi ar y ffordd rhwng canol tref Blaenafon a Phwll Mawr gydag arwyddion addas. | √ | √ | | √√ | |
| 5 | Creu cyswllt mynediad / coridor gwyrdd oddi ar y ffordd newydd rhwng canol tref Blaenafon a NCR 492, 46 a 49. | √ | √ | | √√ | |
| 6 | Hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol wrth ddarparu agweddau perthnasol ar Brosiect Ucheldir Gwydn De Ddwyrain Cymru. | √ | √ | √√ | √√ | √√ |




## ALLWEDD

- Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled Naturiol
- Cyrsiau Dŵr a Chyrff Dŵr
- Coetiroedd

**Mannau Gwyrdd Trefol:**

- Rhandiroedd
- Mynwentydd a Mynwentydd Eglwysi
- Parciau/Gerddi Cyhoeddus (yn cynnwys mannau chwarae)
- Lleiniau Chwaraeon
- Mannau Gwyrdd Amwynder

- Prif Ffyrdd
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Llwybr Beicio

1 Cyfleoedd SG

N 0 0.25 0.5 cilomedr

Nodyn: mae'r map Grid Gwyrdd Trefol yn ddarlun yn unig. Y bwriad yw cynrychioli fframwaith gofodol lefel uchel ar gyfer cynllunio a rheoli Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel leol. Mae'r map yn seiliedig ar y data cyfredol sydd ar gael.

**FFIGUR 3.2b** GRID GWYRDD TREFOL BLAENAFON - CYFLEOEDD

## Grid Gwyrdd Trefol Pont-y-pŵl

3.4.44 Fel y dangosir yn **Ffigur 3.3a**, mae rhwydwaith o Gysylltiadau Gwyrdd Lleol yn cysylltu Grid Gwyrdd Trefol Pont-y-pŵl â safleoedd seilwaith gwyrdd hygyrch a choridorau seilwaith gwyrdd / glas yng nghefn gwlad o amgylch y dref yn Ucheldir y Gogledd a'r Gorllewin. Mae'r Grid Gwyrdd Trefol yn cynnwys llwybrau troed a beicio lleol sy'n cysylltu adeiladau, strydoedd a chymdogaethau â safleoedd SG hygyrch a mannau gwyrdd trefol (gweler **Ffigur 3.3b**) ledled yr ardal adeiledig, gan gynnwys Afon Lwyd a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu.

3.4.45 Mae amddiffyn a gwella safleoedd bioamrywiaeth, cymeriad trefwedd ac asedau amgylchedd hanesyddol yn flaenoriaeth strategol. Pan fo'n gydnaws ag ystyriaethau treftadaeth, anogir ymgorffori a / neu ail greu nodweddion SG yn yr amgylchedd adeiledig (fel toeau gwyrdd a waliau ar adeiladau a systemau draenio cynaliadwy) fel rhan o Rid Gwyrdd Trefol Pont-y-pŵl.

3.4.46 Amlygir blaenoriaethau strategol a chyfleoedd i atgyfnerthu gwydnwch Grid Gwyrdd Trefol Pont-y-pŵl ym **Mlychau 3.16** a **3.17**.

**Blwch 3.16 – Blaenoriaethau SG Strategol ar gyfer Pont-y-pŵl**

- Hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt (ee rhostiroedd, glaswelltiroedd, coetiroedd, dŵr croyw, adar ac infertebratau)
- Gwella rheoleiddio gwasanaethau ecosystem ee rheoli adnoddau dŵr, ynni adnewyddadwy)
- Hyrwyddo ymgysylltiad y gymuned o ran defnyddio lleoedd naturiol (ee taclo troseddau ar y dirwedd, gwirfoddoli, hamdden)
- Darparu cefnogaeth i gadwraeth treftadaeth
- Cyflawni gwelliannau mynediad strategol i fynd i'r afael â chysylltiadau coll yn y rhwydwaith Hawliau Tramwy
- Darparu cefnogaeth i reoli coedd= a phlannu mewn ardaloedd lle mae llygredd yn uchel
- Datblygu dull cynaliadwy o gynnal a chadw a rheoli parciau a gerddi cyhoeddus
- Gweithredu cyfundrefnau rheoli glaswelltir amgen i bryfed sy'n peillio, a hynny ar gyfer parciau, mannau gwyrdd amwynder ac ar hyd ymylon ffyrdd i hyrwyddo rhwydweithiau ecolegol gwydn




ALLWEDD

Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Lleol

Rhwydwaith Seilwaith Glas Lleol

**Safleoedd Seilwaith Gwyrdd Hygyrch:**
1.Parc Pont-y-pŵl
2.Parc Abersychan
3.Cae Hamdden Garndiffaith
4.Parc Panteg

**Coridorau Seilwaith Gwyrdd Allweddol:**
1.GNL Coridor Cwmafon

**Coridorau Seilwaith Glas Allweddol:**
1. Afon Lwyd
2. Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Coetiroedd a Choed

Prif Ffyrdd

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Llwybr Beicio

N

0 0.5 1 cilomedr

Nodyn: mae'r map Grid Gwyrdd Trefol yn ddarlun yn unig. Y bwriad yw cynrychioli fframwaith gofodol lefel uchel ar gyfer cynllunio a rheoli Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel leol. Mae'r map yn seiliedig ar y data cyfredol sydd ar gael.

**FFIGUR 3.3a** GRID GWYRDD TREFOL PONT-Y-PŴL

| Blwch 3.17 – Cyfleoedd i Wella SG Grid Gwyrdd Trefol Pont-y-pŵl | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **R hif** | **Cyfle i Wella SG (gweler Ffigur 3.3b)** | **Cyfraniad at Amcanion Strategol SG** | | | | |
| | | **Gwydnwch o ran Newid yn yr Hinsawdd** | **Gwydnwch o ran Bioamrywiaeth** | **Mynd i'r afael â Throsedd ar y Dirwedd** | **Hyrwyddo Gweithgarwch Corfforol** | **Hyrwyddo Hyfforddiant / Gwirfoddoli** |
| 1 | Hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt ar hyd Afon Lwyd trwy reoli cynefinoedd glannau afon yn well. | √ | √√ | | | √ |
| 2 | Hyrwyddo ymgysylltiad y gymuned o ran rheoli / defnyddio man gwyrdd fel rhan o uwch gynllun safle 'Y British'. | √ | √ | √√ | √√ | √√ |
| 3 | Creu rhodfa newydd ar lan yr afon ar ochr trefol Afon Lwyd trwy Ardal Gadwraeth Pont-y-pŵl. | √ | | √ | √√ | |
| 4 | Plannu coed stryd newydd mewn lleoliadau strategol i wella cymeriad a golwg arbennig Ardal Gadwraeth Pont-y-pŵl. | √√ | √√ | | | |
| 5 | Hyrwyddo rheoli a phlannu coed / glaswelltir ar hyd ffordd A472 Crymlyn-Pont-y-pŵl i leihau llygredd / bod o fudd i bryfed sy'n peillio. | √√ | √√ | | | |
| 6 | Cefnogi 'Cyfeillion' grwpiau cymunedol ar gyfer Parc Pont-y-pŵl, Parc Panteg a mannau gwyrdd hygyrch lleol yn Abersychan. | √ | √ | √√ | √ | √√ |
| 7 | Hyrwyddo gwell gwaith cynnal a chadw ar lwybr tynnu Camlas Mynwy ac Aberhonddu, uwchraddio arwyddion ac amnewid byrddau dehongli. | √ | | √ | √√ | √ |
| 8 | Darparu cefnogaeth i gynnal a chadw / cael gwared ar dyfiant coed, prysgwydd a gwrych ymledol ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu. | √ | √√ | | √ | √ |
| 9 | Mynd i'r afael â fandaliaeth a thipio anghyfreithlon mewn mannau sy'n peri problemau ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu. | | | √√ | √ | √ |




## ALLWEDD

- Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled Naturiol
- Cyrsiau Dŵr a Chyrff Dŵr
- Coetiroedd

**Mannau Gwyrdd Trefol:**

- Rhandiroedd
- Mynwentydd a Mynwentydd Eglwysi
- Parciau/Gerddi Cyhoeddus (yn cynnwys mannau chwarae)
- Lleiniau Chwaraeon
- Mannau Gwyrdd Amwynder

- Prif Ffyrdd
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Llwybr Beicio

(1) Cyfleoedd SG

N 0 0.5 1 cilomedr

Nodyn: mae'r map Grid Gwyrdd Trefol yn ddarlun yn unig. Y bwriad yw cynrychioli fframwaith gofodol lefel uchel ar gyfer cynllunio a rheoli Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel leol. Mae'r map yn seiliedig ar y data cyfredol sydd ar gael.

**FFIGUR 3.3b** GRID GWYRDD TREFOL PONT-Y-PŴL - CYFLEOEDD

### Grid Gwyrdd Trefol Cwmbrân

3.4.47 Fel y dangosir yn **Ffigur 3.4a**, mae rhwydwaith o Gysylltiadau Gwyrdd Lleol yn cysylltu Grid Gwyrdd Trefol Cwmbrân â safleoedd seilwaith gwyrdd hygyrch a choridorau seilwaith gwyrdd / glas yng nghefn gwlad o amgylch yr aneddiadau yn Ucheldir y Gorllewin ac Iseldiroedd y Dwyrain a'r De. Mae'r Grid Gwyrdd Trefol yn cynnwys llwybrau troed a beicio lleol sy'n cysylltu adeiladau, strydoedd a chymdogaethau â safleoedd SG hygyrch a mannau gwyrdd trefol (gweler **Ffigur 3.4b**) ledled yr ardaloedd adeiledig, gan gynnwys Afon Lwyd a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu.

3.4.48 Mae gwarchod a gwella safleoedd bioamrywiaeth, cymeriad trefwedd ac asedau amgylchedd hanesyddol yn flaenoriaeth strategol. Pan fo'n gydnaws ag ystyriaethau treftadaeth, anogir ymgorffori a / neu ail greu nodweddion SG yn yr amgylchedd adeiledig (fel toeau gwyrdd a waliau ar adeiladau a systemau draenio cynaliadwy) fel rhan o Rid Gwyrdd Trefol Cwmbrân.

3.4.49 Amlygir blaenoriaethau a chyfleoedd strategol i atgyfnerthu gwydnwch Grid Gwyrdd Trefol Cwmbrân ym **Mlychau 3.18** a **3.19**.

**Blwch 3.18 – Blaenoriaethau SG Strategol ar gyfer Cwmbrân**

- Hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt ( ee rhostiroedd, glaswelltiroedd, coetiroedd, dŵr croyw, adar ac infertebratau)
- Gwella rheoleiddio gwasanaethau ecosystem (ee rheoli adnoddau dŵr, ynni adnewyddadwy, peillio)
- Hyrwyddo ymgysylltiad y gymuned o ran defnyddio lleoedd naturiol (ee taclo troseddau ar y dirwedd, gwirfoddoli, hamdden)
- Cyflawni gwelliannau o ran mynediad strategol i fynd i'r afael â chysylltiadau coll yn y rhwydwaith Hawliau Tramwy
- Darparu cefnogaeth i reoli a phlannu coed mewn ardaloedd lle mae llygredd uchel mewn ardaloedd preswyl
- Datblygu dull cynaliadwy o gynnal a rheoli parciau a gerddi cyhoeddus
- Gweithredu cyfundrefnau rheoli glaswelltir amgen i bryfed sy'n peillio, a hynny ar gyfer parciau, mannau gwyrdd amwynder ac ar hyd ymylon ffyrdd i hyrwyddo rhwydweithiau ecolegol gwydn




## ALLWEDD

Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Lleol

Rhwydwaith Seilwaith Glas Lleol

**Safleoedd Seilwaith Gwyrdd Hygyrch:**
1.Parc Llyn Cychod Cwmbrân
2.CGNLl Llynnoedd Coed yr Eglwys a Springvale
3GNL Man Agored Henllys
4.GNL Llwyncelyn
5. Fferm Gymunedol Greenmeadow
6.Abaty Llantarnam

**Coridorau Seilwaith Glas Allweddol**
1. Afon Lwyd
2. Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Coetiroedd a Choed

Prif Ffyrdd

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Llwybr Beicio

Nodyn: mae'r map Grid Gwyrdd Trefol yn ddarlun yn unig. Y bwriad yw cynrychioli fframwaith gofodol lefel uchel ar gyfer cynllunio a rheoli Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel leol. Mae'r map yn seiliedig ar y data cyfredol sydd ar gael.

**FFIGUR 3.4a**
GRID GWYRDD TREFOL CWMBRÂN

| Blwch 3.19 – Cyfleoedd i Wella SG Grid Gwyrdd Trefol Cwmbrân | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Cyfle i Wella SG (gweler Ffigur 3.4b) | Cyfraniad at Amcanion Strategol SG | | | | |
| | | Gwydnwch o ran Newid yn yr Hinsawdd | Gwydnwch o ran Bioamrywiaeth | Mynd i'r afael â Throsedd ar y Dirwedd | Hyrwyddo Gweithgarwch Corfforol | Hyrwyddo Hyfforddiant / Gwirfoddoli |
| 1 | Hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt ar hyd Afon Lwyd trwy reoli cynefinoedd glannau afon yn well. | √ | √√ | | | √ |
| 2 | Hyrwyddo ymgysylltiad y gymunedol wrth reoli / defnyddio man gwyrdd fel rhan o uwch gynllun safle Ysbyty Llanfrechfa Grange. | √ | √ | √√ | √√ | √√ |
| 3 | Hyrwyddo gwell gwaith cynnal a chadw ar lwybr tynnu Camlas Mynwy ac Aberhonddu, uwchraddio arwyddion ac amnewid byrddau dehongli. | √ | | √ | √√ | √ |
| 4 | Cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw / cael gwared ar dyfiant coed, prysgwydd a gwrych ymledol ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu. | √ | √√ | | √ | √ |
| 5 | Mynd i'r afael â fandaliaeth a thipio anghyfreithlon mewn mannau sy'n peri problemau ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu. | | | √√ | √ | √ |
| 6 | Darparu cefnogaeth i 'Gyfeillion' grwpiau cymunedol ar gyfer Parc Cwmbrân, Llyn Cychod Cwmbrân a GNL Henllys. | √ | √ | √√ | √ | √√ |
| 7 | Hyrwyddo darparu rhandiroedd/lleoedd tyfu cymunedol yn well ym Mhonthir. | √ | √ | | √√ | √√ |
| 8 | Hyrwyddo rheoli a phlannu coed / glaswelltir mewn ardaloedd preswyl i leihau llygredd a bod o fudd i bryfed sy'n peillio. | √√ | √√ | | | √ |




## ALLWEDD

- Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled Naturiol Cyrsiau
- Dŵr a Chyrff Dŵr
- Coetiroedd

**Mannau Gwyrdd Trefol:**

- Rhandiroedd a Mannau Tyfu Cymunedol
- Mynwentydd a Mynwentydd Eglwysi
- Parciau a Gerddi Cyhoeddus (yn cynnwys mannau chwarae) Caeau Chwaraeon
- Mannau Gwyrdd Amwynder

- Prif Ffyrdd
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Llwybr Beicio

- (1) Cyfleoedd SG

Nodyn: mae'r map Grid Gwyrdd Trefol yn ddarlun yn unig. Y bwriad yw cynrychioli fframwaith gofodol lefel uchel ar gyfer cynllunio a rheoli Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel leol. Mae'r map yn seiliedig ar y data cyfredol sydd ar gael.

**FFIGUR 3.4b**
GRID GWYRDD TREFOL
CWMBRÂN - CYFLEOEDD

# 4.0 SUT BYDDWN NI’N CYFLAWNI HYN

## 4.1 Gwireddu Dyheadau

4.1.1 Mae'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hon yn amlinellu gweledigaeth feiddgar ar gyfer datblygu rhwydwaith swyddogaethol, gysylltiedig o ardaloedd naturiol a fydd yn helpu i gefnogi anghenion lles poblogaethau lleol yn Nhorfaen, nawr, ac yn y dyfodol.

4.1.2 Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau mwyaf, mae angen rheoli ein hardaloedd ar y cyd fel un o asedau pwysicaf Torfaen. Mae'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hon yn darparu'r fframwaith strategol neu’r “darlun mawr” i gydlynu camau cyflenwi SG gan bartneriaethau sy'n gweithio ar lefelau rhanbarthol a lleol.

4.1.3 Gan weithio gyda'n gilydd trwy ymrwymiad ar y cyd i weithredu'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hon, gallwn, gydag arweinyddiaeth gref, droi ein gweledigaeth uchelgeisiol yn gamau gweithredu cadarnhaol a all gyflawni'r canlyniadau a amlygir ym **Mlwch 4.1**.

**Blwch 4.1 – Canlyniadau’r Strategaeth SG**

- **Canfyddiadau Newydd** – gwelliant amlwg yn ansawdd, hygyrchedd a chysylltedd ardaloedd naturiol Torfaen.
- **Cymunedau Grymus** – mwy o gyfranogiad mewn perchnogaeth/rheolaeth ar fannau gwyrdd, a mabwysiadu ffyrdd o fwy mwy cynaliadwy ac iach.
- **Torfaen sy’n fwy gwydn** – cyfrannu’n rhanbarthol at addasu i newid yn yr hinsawdd a chadwraeth bioamrywiaeth

4.1.4 Trwy'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hon byddwn yn:

- Cydweithio mewn partneriaeth â rheolwyr tir, perchnogion a darparwyr gwasanaeth, a chyda Chynghorau Cymuned, tuag at y weledigaeth a rennir ar gyfer SG.
- Ymrwymo i ddilyn y set gyffredin o egwyddorion, blaenoriaethau a chyfleoedd i atgyfnerthu gwydnwch a chysylltedd rhwydwaith SG Torfaen.
- Cyfuno adnoddau mewn dull wedi'i gynllunio i ymdrin â phrosiectau SG a buddsoddiadau.
- Nodi cyfleoedd i reoli ein hasedau naturiol yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

4.1.5 Er bod ganddo amcanion gweithredol unigol, mae partneriaid y BGC i gyd yn rhannu nod cyffredin - rheoli adnoddau naturiol i wella lles cymunedau Torfaen. Mae'r Strategaeth a fabwysiadwyd yn cefnogi'r nod hwn trwy helpu'r holl bartneriaid i weithio tuag at alinio'u ffyrdd o weithio yn y dyfodol gyda'r dull SG newydd.

## 4.2 Fframwaith Cyflawni'r Seilwaith Gwyrdd

### Partneriaethau Cyflawni'r SG

4.2.1 Mae buddion mawr i'w cael o fabwysiadu dull cydweithredol ac amlddisgyblaethol o gynllunio a darparu SG. Mae'r partneriaethau lefel rhanbarthol a lleol sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran cyflawni amcanion y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn Nhorfaen yn bennaf wedi eu hamlygu yn **Ffigur 4.1**.

4.2.2 Ar y lefel ranbarthol, mae dull SG o ran rheoli adnoddau naturiol yn cael ei hyrwyddo gan **Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent** (gweler **Ffigur 4.2**). Mae'r Bartneriaeth yn darparu mecanwaith i gydlynu gweithredu yn unol ag egwyddorion 'Cyfoeth Naturiol Cymru' a'r rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a blaenoriaethau rhanbarthol a amlygwyd gan Ddatganiad Ardal De Ddwyrain Cymru sydd ar ddod.

4.2.3 Mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yn dwyn ynghyd, partneriaethau / prosiectau cyfredol i gael mwy o effaith strategol a lleol trwy ddarparu fframwaith ar gyfer cysylltu mentrau a strategaethau eraill; cronni cyllid; rhannu adnoddau a dysgu ynghylch gwydnwch ecosystemau, byw'n iach ac addasu'r hinsawdd; gwneud gwelliannau bioamrywiaeth ar raddfa'r dirwedd; a chynnwys partneriaid ar ôl troed ehangach.




**FFIGUR 4.1** PARTNERIAETHAU CYFLAWNI SEILWAITH GWYRDD




ALLWEDD

Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent




**FFIGUR 4.2**
GRID GWYRDD
GWENT

4.2.4 Mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent wedi sicrhau cyllid gan Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles Llywodraeth Cymru tuag at brosiect tair blynedd i ddatblygu Prosiect Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent. Ei nod yw datblygu dull mwy cyson o reoli SG ar draws Gwent sy'n galluogi cynllunio strategol yn cynnwys dylanwadu ar Gynlluniau Datblygu Lleol, asesu a chynllunio gwasanaethau ecosystem, eco-gysylltedd a mecanweithiau sy'n creu dinasyddion iachach, yn ysgogi cyfleoedd busnes ac yn cynyddu cydlyniant cymunedol, datblygu sgiliau a gwirfoddoli. Mae'r rhaglenni gwaith canlynol wedi'u cynnwys ym Mhrosiect Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent:

- Polisi a Phartneriaethau Grid Gwyrdd Gwent
- Cynllun Mynediad Strategol Gwent
- Astudiaeth Eco i-Tree Gwent
- Gwelliannau i Seilwaith Gwyrdd Gwent
- Gwent Sy’n Ystyriol o Bryfed sy'n Peillio

4.2.5 Mae **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent** yn dwyn ynghyd ystod o bartneriaid sy'n gweithio i hyrwyddo iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws De Ddwyrain Cymru. Mae'r Bwrdd yn rhoi cyfle i hyrwyddo buddion SG ar gyfer byw'n iach yn Nhorfaen a amlygwyd gan y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hon.

4.2.6 Ar lefel leol, mae cyfleoedd i'r Strategaeth SG lunio'r dull o reoli adnoddau naturiol mewn Cynlluniau Lle a baratowyd gan **Bartneriaeth Cyngor Lleol Torfaen**, ac i lywio a chefnogi **Partneriaeth Treftadaeth y Byd Blaenafon** i reoli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon. Yn ogystal, gall y Strategaeth SG helpu i gefnogi **Partneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen** trwy weithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Torfaen.

### Cynlluniau Cyflawni SG

4.2.7 Bydd amcanion y Strategaeth yn cael eu cyflawni'n bennaf trwy weithredu'r cynlluniau cyflenwi ar lefel ranbarthol a lleol a amlygir yn **Ffigur 4.3**, sy'n ymateb i ofynion deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol ar gyfer rheoli a lles adnoddau naturiol.

4.2.8 Amlinellir cynlluniau lefel rhanbarthol, trawsffiniol, ar gyfer darparu SG yn Nhorfaen ym **Mlychau 4.2** a **4.3**.




**FFIGUR 4.3** CYNLLUNIAU CYFLAWNI SEILWAITH GWYRDD

## Blwch 4.2 – Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Pryfed sy’n Peillio yn Ne Ddwyrain Cymru

Ers ei gyhoeddi yn 2015, mae'r Cynllun Gweithredu yn ceisio codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed sy’n peillio, ar gyfer iechyd a lles ar draws pedair ardal awdurdod lleol Torfaen, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Chaerffili yn Ne Ddwyrain Cymru.

Mae'n ceisio mynd i'r afael â dirywiad pryfed sy’n peillio, trwy ddarparu cyfres o gynlluniau gweithredu seilwaith gwyrdd a phecyn cymorth gweithredu rheoli i wella cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau peillio ar ardaloedd o seilwaith gwyrdd sy'n eiddo cyhoeddus. Fel rhai sy'n berchen ar dir mawr, gall awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill arwain trwy esiampl trwy wella rheolaeth ar seilwaith gwyrdd fel parciau, ymylon ffyrdd, tiroedd ysgolion, caeau chwarae, coetiroedd a choed trefol er budd pryfed sy’n peillio.

Gyda chefnogaeth cyfres o arweinlyfrau, mae'r Cynllun Gweithredu yn darparu arf ar gyfer arwain y broses o wneud penderfyniadau gan reolwyr safle ar ddewis camau rheoli priodol ac ar gyfer blaenoriaethu dyrannu adnoddau:

- Rheoli Mannau Gwyrdd ar gyfer Pryfed sy'n Peillio - cyflwyniad i reolwyr
- Rheoli Ymylon Priffyrdd ar gyfer Pryfed sy’n Peillio - cyflwyniad i reolwyr priffyrdd
- Rheoli Ardaloedd Preswyl i Bryfed sy’n Peillio - cyflwyniad i reolwyr ystadau
- Rheoli Tir Ysgolion ar gyfer Pryfed sy’n Peillio - cyflwyniad i benaethiaid

## Blwch 4.3 – Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol ar gyfer Ucheldir De Ddwyrain Cymru

Ers ei gyhoeddi yn 2015, mae'r Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol yn seiliedig ar ddull ecosystemau wrth reoli tiroedd comin ucheldir De Ddwyrain Cymru (gan gwmpasu rhannau o Dorfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).

Mae'r Cynllun yn nodi ac yn llywio cyflwyno portffolio o brosiectau sydd â'r nod o adfer ardaloedd pwysig o gynefin yr ucheldir i gyflwr ffafriol; gwella bioamrywiaeth; gwella cyfleoedd ar gyfer pori cynaliadwy; nodi defnyddiau masnachol ychwanegol arloesol gan gynnwys cynhyrchion ar y tir; cefnogi datblygiad twristiaeth; a chynorthwyo gyda gwydnwch o ran newid yn yr hinsawdd trwy storio dŵr a dal carbon.

Dyma'r cyfleoedd allweddol ar gyfer gwella rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn yr ucheldiroedd fel y nodwyd gan y Cynllun:

- Rheoli ac adfer Rhostiroedd
- Cadw dŵr yn yr ucheldiroedd
- Annog gwartheg i bori
- Annog parhad tir comin
- Mynd i'r afael â throseddau ar y dirwedd*
- Defnyddio ar gyfer ynni adnewyddadwy
- Annog hamdden a thwristiaeth
- Ymgysylltu â'r gymuned

*mae’r Cynllun yn cynnwys Pecyn Cymorth Tirweddau

4.2.9 Yn ychwanegol at Gynllun Llesiant Torfaen 2018-2023 (gweler **Adran 1.1** am wybodaeth), amlinellir cynlluniau lefel leol eraill ar gyfer cyflwyno SG yn Nhorfaen ym **Mlychau 4.4 - 4.9**.

**Blwch 4.4 – Cynllun Gwydnwch Bioamrywiaeth ac Ecosystemau Torfaen**

Wedi ei gyhoeddi yn 2019, mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo ecosystemau gwydn. Mae'r Cynllun yn cynnwys ystod o gamau gan gynnwys er enghraifft:

- Datblygu strategaeth goed
- Gwella coridorau seilwaith glas / gwyrdd
- Bod yn esiampl o reoli tir / dŵr
- Gwella gwybodaeth, arwyddion a chynnal a chadw hawliau tramwy
- Creu parthau blodau gwyllt mewn mannau gwyrdd ar gyfer pryfed sy'n peillio
- Hyrwyddo arfer gorau ar gyfer penderfyniadau cynllunio
- Datblygu pecyn cymorth dylunio ac adeiladu
- Datblygu a monitro targedau lleihau gwastraff
- Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau / cerbydau

Er mwyn sicrhau ei fod yn dod yn rhan annatod o benderfyniadau a chamau gweithredu, bydd y Cyngor yn ymgorffori'r Cynllun Bioamrywiaeth ac Ecosystemau Gwydn yn ei Gynllun Corfforaethol.

**Blwch 4.5 – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Torfaen**

Wedi ei gyhoeddi yn 2003, mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Torfaen yn manylu ar y mesurau i'w cymryd i sicrhau bod bwrdeistref y sir yn cadw ac yn gwella ei bioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol.

Wedi'i hwyluso gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen, mae'r Cynllun yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar wahân ar gyfer dros 20 o gynefinoedd allweddol ac ystod eang o rywogaethau sydd angen gweithredu ar frys o ran cadwraeth.

Mae'r rhain yn amrywio o rywogaethau eiconig fel y gornchwiglen, y rugiar goch a'r dyfrgi i'r banadl aur, cap cwyr pinc a’r criciedyn penfain adain hir.

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen wrthi'n llunio cynllun gweithredu newydd i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben o ran datblygu cynaliadwy, gwasanaethau ecosystemau ac amcanion rheoli adnoddau naturiol.

Cynhaliwyd nifer o weithdai cyn ymgynghori ledled y fwrdeistref sirol yn 2013 ac ymgynghorwyd ar Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth drafft wedi'i ddiweddaru.

## Blwch 4.6 – Strategaeth Goed Torfaen

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn paratoi Strategaeth Goed ar gyfer rheoli coed, coetiroedd a gwrychoedd yn Nhorfaen.

Yn draddodiadol mae rheoli coed wedi cael ei ystyried yn gost i'r Cyngor a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu trwy faterion fel ymsuddiant a hawliadau iechyd a diogelwch.

Er bod buddion coed wedi cael eu gwerthfawrogi ers blynyddoedd lawer, mae angen dull strategol ffres o reoli coed i helpu i groesawu a gwneud y mwyaf o'r gwasanaethau ecosystem rhad ac am ddim y mae coed yn eu darparu i'n cymunedau, lleoedd a threftadaeth, a'i osod o fewn nodau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd y Strategaeth Goed newydd hefyd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o ran bioamrywiaeth, dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac i gydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru trwy nodi sut y bydd polisïau cynllunio coed trefol sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Graidd yn cael eu cyflawni.

## Blwch 4.7 – Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Torfaen

Cyhoeddwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyfredol ar gyfer Torfaen yn 2008 fel sy'n ofynnol gan Adran 60 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000).

Mae'r Cynllun yn asesu i ba raddau y mae'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol yn Nhorfaen yn diwallu anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd ac yn debygol o wneud yn y dyfodol; mae'n nodi'r cyfleoedd a ddarperir gan hawliau tramwy lleol ar gyfer ymarfer corff a mathau eraill o hamdden awyr agored a mwynhad o'r ardal; ac mae'n ystyried pa mor hygyrch yw hawliau tramwy lleol i bobl ddall neu rhannol ddall ac eraill â phroblemau symudedd.

Rheolir y rhwydwaith Hawliau Tramwy cyhoeddus gan Dîm Mynediad y Cyngor gyda chymorth gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a Chymdeithas y Cerddwyr i gadw llwybrau ar agor a chynnal ffensys, camfeydd a gatiau.

## Blwch 4.8 – Cynllun Teithio Llesol Torfaen

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i fapio, cynllunio, gwella a hyrwyddo llwybrau yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer teithio llesol.

Mae teithio llesol yn golygu cerdded a beicio ar gyfer siwrneiau pellter byr bob dydd, fel teithiau i'r ysgol, gwaith, neu i gael mynediad i siopau neu wasanaethau. Nid yw teithio llesol yn cynnwys siwrneiau a wneir am resymau hamdden neu gymdeithasol yn unig.

Er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf, mae CBS Torfaen wedi cyhoeddi Map Llwybrau Presennol sy'n dangos llwybrau sy'n cwrdd â'r safonau a nodir yng Nghanllawiau Dylunio Llywodraeth Cymru. Bydd y Map Llwybrau Presennol yn helpu pobl sy'n dymuno cynllunio eu teithiau cerdded a beicio.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CBS Torfaen lunio Map Rhwydwaith Integredig sy'n nodi rhaglen 15 mlynedd o welliannau i lwybrau teithio llesol. Mae'r mapiau'n dangos rhwydweithiau arfaethedig o lwybrau cerdded allweddol a llwybrau a chyfleusterau beicio allweddol yn y dyfodol.

## Blwch 4.9 – Cynllun Datblygu Lleol Torfaen

Yn unol â'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004), mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyntaf ym mis Rhagfyr 2013.

Mae'r CDLl a fabwysiadwyd yn arwain ar ddatblygu a defnyddio tir ym Mwrdeistref y Sir tan 2021.

Mae'r CDLl yn cydnabod y rôl bwysig y mae seilwaith gwyrdd yn ei chwarae wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Polisi S2); lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd (Polisi S3); cadwraeth yr amgylchedd naturiol a hanesyddol (Polisi S7); cyfrannu at amwynder a dyluniad datblygiadau newydd (Polisi BW1); cefnogi polisïau ardal gweithredu strategol (e.e. Polisi SAA5 ar gyfer y British yn Nhal-y-waun, ger Pont-y-pŵl); diogelu hen lwybrau trafnidiaeth (Polisi T2); a gwelliannau i lwybrau cerdded a beicio (Polisi T3).

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn paratoi i adolygu’r Cynllun yn llawn, ac yn rhagweld y bydd yn mabwysiadu CDLl newydd yn 2021 am y cyfnod hyd at 2033.

4.2.10 Amlinellir cynlluniau lle neu asedau penodol ar gyfer cyflwyno SG yn Nhorfaen ym **Mlychau 4.10 – 4.18**.

**Blwch 4.10 – Cynlluniau Lle Tref a Chymuned**

Mae Cynlluniau Lle[14] yn rhoi cyfle i gymunedau gymryd rhan yn y broses o lunio cynlluniau ar lefel leol, gydag ACLl yn cefnogi mentrau creu lleoedd mewn cymunedau lleol. Maent yn gynlluniau anstatudol sy'n ychwanegu'r manylion mân at CDLl.

Gall Cynghorau Tref a/neu Gymuned neu ACLl, mewn cydweithrediad â chymunedau lleol, lunio Cynlluniau Lle. Dylai Cynlluniau Lle fod yn unol â'r cynllun datblygu statudol a dylai'r ACLl eu mabwysiadu fel CCA i'r cynllun.

Bydd cynnwys Cynllun Lle yn dibynnu ar yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y CDLl, natur yr ardal, y materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw a dyheadau'r gymuned. Gellir mynegi hyn trwy strategaeth sy'n mynd i'r afael â materion fel rheoli mannau gwyrdd lleol.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi cyhoeddi canllawiau sy'n darparu pwynt cyfeirio allweddol ar ddefnyddio a pharatoi Cynlluniau Lle. Mae Cynllun Tref yr Wyddgrug 2017-2020[15] yn enghraifft o fodel arfer da ar gyfer Cynllun Lle.

**Blwch 4.11 - Cynllun Torfaen ar Reoli'r Perygl o Lifogydd**

Mae Cynllun Torfaen ar Reoli'r Perygl o Lifogydd (FRMP) a gyhoeddwyd yn 2015, yn nodi sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rheoli llifogydd fel y gall y cymunedau sy'n wynebu'r perygl fwyaf, a'r amgylchedd elwa fwyaf. Mae'r FRMP yn bwrw ymlaen ag amcanion Strategaeth y Cyngor ar Reoli'r Perygl o Lifogydd.

Mae'r FRMP hwn yn nodi amcanion ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd sy'n canolbwyntio ar leihau effeithiau niweidiol llifogydd ar iechyd pobl, yr amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol a gweithgaredd economaidd.

Mae'n tynnu sylw at yr ardaloedd sydd fwyaf agored i'r perygl o lifogydd yn sgil dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin yn Nhorfaen, ac mae'n nodi mesurau y bydd y Cyngor yn eu cymryd dros y 6 blynedd nesaf i liniaru'r risgiau hyn a gwneud cymunedau lleol yn fwy gwydn.
Mae hyn yn cynnwys mesurau ar gyfer ymgorffori rheolyddion ger ffynonellau a seilwaith gwyrdd wrth ddylunio cynlluniau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiad newydd trwy'r broses rheoli datblygu (yn unol â Pholisi S3 y CDLl, Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol 12 a 15.

[14] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Rhifyn 3, Drafft Ymgynghori, Mehefin 2019, Llywodraeth Cymru

[15] www.moldtowncouncil.org.uk/

## Blwch 4.12 – Polisi Rheoli Stad Tai Cymunedol Bron Afon

Mae Tai Cymunedol Bron Afon yn gyfrifol am bortffolio mawr ac amrywiol o dir ac asedau eraill. Mae'r Polisi Rheoli Stad Tai [16] yn egluro sut y bydd Bron Afon yn cwblhau gwaith i wella'r amgylchedd er mwyn gwella golwg mannau gwyrdd o amgylch cartrefi tenantiaid/trigolion.

Mae hefyd yn disgrifio sut y gall cymunedau warchod tir i'w ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n gydnaws ag Egwyddorion Dyfodol Gwyrdd Bron Afon:

- **Newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth**: byddwn yn ceisio creu a defnyddio mannau i'r eithaf i gyflawni bioamrywiaeth ar draws ein portffolio tir, i annog bywyd gwyllt a phlannu cynaliadwy.
- **Tyfu bwyd yn lleol**: dylai pob cymuned gael cyfle i fod yn rhan o dyfu bwyd. Dylem geisio sicrhau bod tenantiaid a thrigolion sy'n byw mewn fflatiau a chartrefi heb erddi yn gallu cyrchu lleoedd i dyfu bwyd.
- **Hamdden ac iechyd**: lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn ceisio annog defnyddio'n tir a'n gofodau ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol.

## Blwch 4.13 – Strategaeth Stadau y Bwrdd Iechyd

Mae'r Strategaeth ddrafft[17] yn nodi sut y bydd stad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cael ei datblygu i ddarparu cefnogaeth i wasanaethau sydd eu hangen i fodloni anghenion cleifion.

Wedi'i datblygu yng nghyd-destun Strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd, ymhlith pethau eraill mae'n anelu at ddarparu model clinigol wedi'i adnewyddu i wella iechyd a gofal cymdeithasol ar draws De Ddwyrain Cymru trwy ganolbwyntio ar wasanaethau lles ac ataliad.

Un o egwyddorion allweddol y Strategaeth yw y dylai'r stad fod yn gynaliadwy yn y dyfodol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Strategaeth ddrafft yn rhoi cyfle i fabwysiadu'r dull seilwaith gwyrdd o reoli mannau gwyrdd yn stad y Bwrdd Iechyd, ac atgyfnerthu cysylltiadau â rhwydweithiau cerdded a beicio lleol, i ddarparu manteision lles i iechyd corfforol a meddyliol cleifion, staff ac ymwelwyr.

[16] Polisi Rheoli Stadau Bron Afon, 2015, Bwrdd Tai Cymunedol Bron Afon

[17] Strategaeth Stadau'r Bwrdd Iechyd 2018-2028, Drafft, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Blwch 4.14 – Cynllun Rheoli Asedau Eiddo CBS Torfaen

Mae'r Cynllun yn nodi'r dull o reoli eiddo (adeiladau a thir) sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae hyn yn cynnwys cyflawni gweithrediadau cynnal a chadw a glanhau Strydlun ar gyfer mannau gwyrdd a thir arall sy'n eiddo i'r Cyngor yn yr ardaloedd canlynol:

- Wardiau Ardal 1 (Blaenafon, Abersychan, Snatchwood, Pontnewynydd)
- Wardiau Ardal 2 (Trefddyn, Waunfelin, Pont-y-pŵl, Sant Cadog a Phen-y-garn, Y Dafarn Newydd, Panteg, Cwm-ynys-cou, Brynwern)
- Wardiau Ardal 3 (Cwmbrân Uchaf, Dôl Werdd, Coed Efa, Fairwater, Pontnewydd)
- Wardiau Ardal 4 a 5 (Dau Loc, Sain Derfel, Llantarnam, Dwyrain Llanyrafon a Phonthir, Gorllewin Llanyrafon, Gogledd Croesyceiliog, De Croesyceiliog)

## Blwch 4.15 – Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd CBS Torfaen 2019-2025

Mae'r Cynllun yn nodi polisi'r Cyngor ar gyfer creu, caffael, gweithredu, cynnal a chadw, adfer a chael gwared ar yr holl asedau sy'n cael eu cynnwys yn y rhwydwaith priffyrdd a fabwysiadwyd yn gyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae hefyd yn darparu strategaeth y Cyngor ar gyfer rheoli, gweithredu, cadw a gwella asedau priffyrdd (gan gynnwys ymylon glaswelltog, coed / llwyni a gwrychoedd) i fodloni anghenion nawr ac yn y dyfodol.

**Blwch 4.16 – Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon 2018-2023**

Mae rhan ddeheuol Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon ym Mwrdeistref Sirol Torfaen ac mae'n cynnwys tref Blaenafon.

Mae'r Cynllun Rheoli wedi'i ddiweddaru yn nodi gweledigaeth gyffredinol, egwyddorion allweddol ac amcanion thematig ar gyfer rheoli Safle Treftadaeth y Byd. Cefnogir y rhain gan gyfres o bolisïau thematig o ran gwarchod, cadwraeth, cyflwyno a throsglwyddo Gwerth Cyffredinol Eithriadol y Safle.

Nodir camau penodol ar gyfer prosiectau a gweithgareddau i'w harchwilio a'u cyflawni gan yr holl bartneriaid dros gyfnod y cynllun, ynghyd â chyfnodau tebygol a ffynonellau cyllid posibl.

Nod allweddol y Cynllun yw diogelu a rheoli Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon i amddiffyn a gwarchod ei Werth Cyffredinol Eithriadol, a gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a chynaliadwyedd yr ardal yn y dyfodol. Wrth ddilyn y nod hwn, un o egwyddorion allweddol y Cynllun yw cynnal a gwella adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystemau'r Safle er budd cenedlaethau'r dyfodol trwy gyfrannu at Fioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau yn unol â'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus o dan Adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Blwch 4.17 – Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2015-2020**

Yn unol ag Adran 66 (1) Deddf yr Amgylchedd 1995, cyhoeddodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Gynllun Rheoli wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn 2015.

Mae'r Cynllun Rheoli yn gosod y fframwaith ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau gweithredu amrywiol, wedi'u llywio gan weledigaeth, nodau ac amcanion y Cynllun Rheoli i sicrhau dull cyson o amddiffyn a gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymylu ar ffin ogledd-ddwyreiniol Torfaen, ac mae rhan fach o'r Parc yn ymestyn i'r Fwrdeistref Sirol i'r dwyrain o Bont-y-pŵl.

**Blwch 4.18 – Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth**

Mae'r Cyngor wedi dynodi chwe Ardal Gadwraeth yn Nhorfaen sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig - Canol Tref Blaenafon, Canol Tref Pont-y-pŵl, Llantarnam, Cwmbrân Uchaf, Cwmafon a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu.

Paratowyd Cynlluniau Rheoli ar gyfer Canol Tref Blaenafon, Cwmafon, Canol Tref Pont-y-pŵl ac Ardaloedd Cadwraeth Camlas Mynwy ac Aberhonddu. Mae'r Cynlluniau hyn yn cynnwys cynigion i warchod a gwella Asedau SG, fel coed stryd a mannau agored, sy'n cyfrannu at gymeriad ac ymddangosiad arbennig yr Ardaloedd Cadwraeth.

## 4.3 Blaenoriaethau i'w Gweithredu

4.3.1 Nod y blaenoriaethau ar gyfer y camau gweithredu a nodir isod yw cefnogi partneriaid y BGC i fabwysiadu'r dull SG newydd fesul cam dros tua 10 mlynedd:

- Archwilio dulliau ar y cyd o gyflawni nodau'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn y Tymor byr (**5 mlynedd nesaf**).
- Gwireddu cyfleoedd i ehangu'r gwelliannau yn y tymor canolig (**5-10 mlynedd**).
- Trawsnewid sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd, a chyda pherchnogion tir preifat a thrydydd sector a chymunedau lleol, i sicrhau rheoli adnoddau naturiol a lleoedd gwyrdd yn gynaliadwy yn y tymor hir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn Nhorfaen (**dros 10 mlynedd a thu hwnt**).

4.3.2 Mae thema ein cynllun gweithredu yn cynnwys:

- 1. Atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth ac arweiniad SG
- 2. Integreiddio'r dull SG mewn polisi
- 3. Enghreifftio'r dull SG yn yr ucheldiroedd
- 4. Gweithio gyda pherchnogion tir preifat a thrydydd sector
- 5. Cefnogi perchnogaeth / rheolaeth gymunedol ar SG
- 6. Codi ymwybyddiaeth a chyfranogiad wrth gyflawni SG
- 7. Atgyfnerthu gwydnwch y Gridiau Gwyrdd Trefol

### 1. Atgyfnerthu'r Sylfaen Dystiolaeth a Chanllawiau SG

4.3.3 Yn y Tymor byr dros y 5 mlynedd gyntaf, byddwn yn atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth SG i gefnogi rhannu data diweddaraf, canllawiau gwybodaeth ac arweiniad arfer gorau rhwng partneriaid y BGC. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn cynnwys:

- Pan fydd **Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru** sy'n cael ei baratoi gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gael, dylem sicrhau bod y dystiolaeth hon yn bwydo i ddiweddariadau'r Asesiad SG yn y dyfodol (Gweithred 1a).

- Mae angen mwy o wybodaeth am ansawdd ein hadnodd ecolegol. Mae angen **Arolwg Cynefinoedd Cam 1** diweddar i ddarparu archwiliad sylfaenol ar ehangder a chyflwr mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol yn Nhorfaen er mwyn monitro cyflwr a newidiadau ecolegol (Gweithred 1b).

- Mae angen i ni wneud mwy i adolygu, mapio a chyfleu gwerth **Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur** yn Nhorfaen. Mae'r nodweddion hyn yn gynefinoedd cerrig camu a llinellol allweddol sy'n cefnogi cysylltedd ecolegol ar raddfa tirwedd (Gweithred 1c).

- Mae angen y wybodaeth ddiweddaraf am ein mannau agored trefol. Bydd **Astudiaeth Mannau Agored** diweddar ar gyfer trefi Torfaen yn darparu tystiolaeth gadarn am ansawdd / cyflwr ein mannau agored, yn nodi diffygion yn y ddarpariaeth ac yn gosod safonau ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol. Mae hyn ar y gweill ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sy'n ymgynghori â phobl leol, cynghorau tref a chymuned, ysgolion a chlybiau chwaraeon ar anghenion hamdden awyr agored yn awr ac yn y dyfodol -fel lleoedd ar gyfer chwarae, chwaraeon a hamdden, rhandiroedd, ardaloedd amwynder a mannau gwyrdd naturiol (Gweithred 1d).

- O fewn y "dull o'r brig i lawr" o osod blaenoriaethau strategol ar gyfer rheoli ein Rhwydwaith SG a amlinellir yn y Strategaeth SG hon, dylem ddatblygu Pecyn Cymorth Asesu SG i ddarparu "dull gweithredu o'r gwaelod i fyny" a methodoleg gyson ar gyfer asesu a blaenoriaethu defnyddio tir, penderfyniadau rheoli a buddsoddi ar gyfer safleoedd penodol yn Rhwydwaith SG Strategol Torfaen (gan gynnwys y Gridiau Gwyrdd Trefol). Byddai'r Pecyn Cymorth yn darparu arweiniad i helpu i lywio'r broses o bennu blaenoriaethau SG ar gyfer adolygu safleoedd datblygu ymgeisiol y CDLl; cynllunio safleoedd ar gyfer Safleoedd Datblygu Strategol a ddyrennir yn y CDLl; ymgynghori ar reoli datblygu cyn gwneud cais a gwneud penderfyniadau; penderfynu ar bresgripsiynau / cyfundrefnau rheoli ar gyfer Asedau SG penodol; a gwneud penderfyniadau ar gyfer cael gwared ar dir dros ben sy'n eiddo i'r Cyngor (Gweithred 1e).

- Gan adeiladu ar y wybodaeth newydd sydd ar gael ynghylch adnoddau coed trefol Torfaen, mae angen **Strategaeth Goed** i helpu i lywio cadwraeth coetiroedd a choed stryd yn y dyfodol. Gall coed stryd trefol wneud cyfraniad sylweddol at liniaru newid yn yr hinsawdd (Gweithred 1f).

- Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gweithio gyda Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent i ddarparu **sylfaen dystiolaeth well ar gyfer manteision iechyd a lles SG** wrth ddefnyddio mannau gwyrdd a choridorau ar gyfer gweithgaredd corfforol awyr agored (Gweithred 1g).

**2. Integreiddio'r Dull SG mewn Polisïau**

4.3.4 Bydd sicrhau bod ein hasedau naturiol yn cael eu rheoli'n dda a'u bod mewn cyflwr da trwy wella amrywiaeth, gallu i addasu, maint, cyflwr a chysylltedd rhwng safleoedd naturiol - wrth leihau'r risgiau o ffactorau allanol fel llygredd, datblygu, newid yn yr hinsawdd, ymddygiad gwrthgymdeithasol - yn golygu y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu elwa o'u buddion lles.

4.3.5 Mae'r dull SG newydd yn cynnig cyfleoedd sylweddol i wneud y mwyaf o fuddion lles lleoedd gwyrdd ac adnoddau naturiol a reolir yn gynaliadwy, gan herio partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (gweler **Ffigur 4.1**) i feddwl yn wahanol am sut y byddant yn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

4.3.6 Yn y tymor canolig dros 5-10 mlynedd, bydd holl bartneriaid y BGC yn anelu at **alinio â'r Strategaeth SG** trwy adolygu eu cynlluniau a'u polisïau corfforaethol mewnol perthnasol, cynlluniau rheoli gweithredol a gweithdrefnau cynnal a chadw, ac adnoddau ail-bwrpas, i reoli asedau SG y maent yn berchen arnynt i alinio â'r weledigaeth, yr amcanion a'r blaenoriaethau a rennir a nodir yn y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd hon (Gweithred 2a).

**3. Enghreifftio’r Dull SG yn yr Ucheldiroedd**

4.3.7 Yn y tymor canolig dros 5-10 mlynedd, byddwn yn enghreifftio'r dull SG newydd o reoli adnoddau naturiol yn ucheldiroedd Torfaen trwy weithredu'r Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol ar gyfer Ucheldir De Ddwyrain Cymru a Chynllun Rheoli Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon Safle Treftadaeth y Byd. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau gweithredu canlynol:

- Cefnogi rheoli tir economaidd ar gyfer gwarchod tir comin
- Hyrwyddo rheoli tir ecolegol a chadwraeth bywyd gwyllt
- Gwella gwasanaethau ecosystemau
- Annog ymgysylltiad cymunedol wrth ddefnyddio a rheoli'r tiroedd comin yn gynaliadwy

4.3.8 Byddwn yn gwneud hyn trwy ein hymwneud â phartneriaid rhanbarthol i **gyflawni Prosiect Ucheldiroedd Gwydn De Ddwyrain Cymru** fel yr amlinellir ym **Mlwch 4.18** (Gweithred 3a).

**Blwch 4.18 – Prosiect Ucheldiroedd Gwydn De Ddwyrain Cymru**

Mae sawl llinyn i'r Prosiect yn cynnwys:

- Prosiectau peilot ar gyfer adfer mawndiroedd yn cynnwys Cominwyr a gwirfoddolwyr i ddal carbon, lliniaru llifogydd, ac adfer bioamrywiaeth.
- Paratoi cynlluniau rheoli ar gyfer y tiroedd comin yng nghyffiniau Y British, yn cynnwys mesurau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol / troseddau ar y dirwedd (gosod gatiau, clogfeini a byndiau) a rheoli prysgwydd i leihau'r perygl o dân a hwyluso pori er cadwraeth.
- Prosiectau peilot rheoli grug ar Gomin Blorens, Mynydd Maen (gyda Chaerffili), Mynydd Llanhiledd, y Coety a Mynydd James (gyda Blaenau Gwent) i ganolbwyntio ar adfer ardaloedd a ddifrodwyd gan yrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon.
- Hyfforddiant llosgi grug dan reolaeth i gominwyr, gwirfoddolwyr, tirfeddianwyr a rheolwyr tir wedi ei ddarparu gan y gwasanaeth tân a'r awdurdod lleol i helpu i atal tanau gwyllt, yn cynnwys rheoli llystyfiant i greu bylchau i rwystro'r tân rhag lledaenu, ac i wella mynediad.
- Sefydlu grŵp partneriaeth troseddau'n ymwneud â'r dirwedd ar gyfer brwydro yn erbyn tipio anghyfreithlon a gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon, gan gynnwys datblygu cynlluniau rheoli troseddau ar y dirwedd a chynllun cyfathrebu i lywio gweithredu ymarferol.

**4. Gweithio gyda Pherchnogion Tir y Sector Preifat a'r Trydydd Sector**

4.3.9 Yn y tymor hir dros 10 mlynedd a thu hwnt, byddwn yn gweithio gyda pherchnogion tir y sector preifat a'r trydydd sector i **annog mabwysiadu'r dull rheoli SG yn ehangach** (Gweithred 4a).

**5. Cefnogi Perchnogaeth / Rheolaeth Gymunedol**

4.3.10 Yn y tymor hir dros 10 mlynedd a thu hwnt, byddwn hefyd yn archwilio sut y gallwn ragweld a galluogi gweithredu cymunedol, a darparu atebion sy'n berthnasol yn lleol, trwy gefnogi perchnogaeth gymunedol a rheoli lleoedd gwyrdd ac Asedau SG eraill. Ynghyd ag annog tirfeddianwyr preifat a rheolwyr tir i fabwysiadu dulliau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol, bydd mwy o berchnogaeth gymunedol a rheolaeth ar fannau gwyrdd yn helpu i gefnogi cynnal a gwella Gridiau Gwyrdd Trefol Torfaen.

4.3.11 Bydd opsiynau i **drosglwyddo perchnogaeth Asedau SG** o gyrff cyhoeddus i bartneriaethau cymunedol yn cael eu harchwilio trwy'r Cynlluniau Lle i'w paratoi gan y Cynghorau Tref a Chymuned ar draws y Fwrdeistref Sirol (Gweithred 5a).

4.3.12 Byddwn hefyd yn archwilio sut y gallwn annog cyfranogiad cymunedol wrth helpu i gynnal a rheoli asedau SG y fwrdeistref trwy wirfoddoli yn y maes cadwraeth gyda grwpiau fel Gwirfoddolwyr Cefn Gwlad Torfaen, Gwirfoddolwyr Amgylcheddol Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon ac er enghraifft, Grŵp Cyfeillion Gwarchodfa Natur Leol Henllys. Mae yna hefyd lawer o gyfleoedd i wirfoddoli ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu i ennill hyfforddiant mewn adfer camlesi a sgiliau treftadaeth i helpu i gynnal y Gamlas yn y dyfodol. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan i wella eu hamgylchedd lleol a manteisio ar y llu o fuddion iechyd y gall gwirfoddoli eu cynnig.

4.3.13 Byddwn yn rhoi **cymorth ar waith i gydlynu gweithgareddau gwirfoddoli** ar draws Torfaen sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol. Bydd hyn yn helpu i wella cyfleoedd ar gyfer meithrin hyder, hyfforddi a datblygu sgiliau mewn cadwraeth a rheoli tir, gwell rhagolygon cyflogaeth a gweithgarwch corfforol, a hefyd helpu i greu cymunedau mwy cydlynol (Gweithred 5b).

**6. Codi Ymwybyddiaeth a Chynnwys wrth gyflawni SG**

4.3.14 Byddwn yn **archwilio cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth** o faterion sy'n ymwneud â rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd anghynaladwy, sut mae'r rhain yn effeithio ar wasanaethau ecosystemau a manteision mabwysiadu dull integredig o reoli SG (Gweithred 6a).

### 7. Atgyfnerthu gwydnwch y Gridiau Gwyrdd Trefol

1.1.2 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gweithio gyda Phartneriaeth Cyngor Lleol Torfaen i gryfhau gwydnwch Gridiau Gwyrdd Trefol y Rhwydwaith SG. Bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth i'r Cynghorau Tref a Chymuned perthnasol baratoi Cynlluniau Lle i **ddatblygu a darparu cyfleoedd SG lleol** ar lefel leol ymhellach o fewn fframwaith y blaenoriaethau i wella'r SG strategol a'r cyfleoedd a amlygir yn y Strategaeth SG hon ar gyfer Blaenafon (Gweithred 7a) , Pont-y-pŵl (Gweithred 7b) a Chwmbrân (Gweithred 7c).

### Cynllun Gweithredu

4.3.15 Mae'r cynllun gweithredu a amlinellir ar **Dabl 4.1** yn amlygu'r partneriaid sy'n arwain a chefnogi i ddatblygu a chyflawni'r gweithredoedd uchod.

4.3.16 Talfyriadau:

- TCBA  - Tai Cymunedol Bron Afon
- CTB – Cyngor Tref Blaenafon
- PTBB – Partneriaeth Treftadaeth y Byd Blaenafon
- CCCaLl – Cyngor Cymuned Croesyceiliog a Llanyrafon
- CCC – Cyngor Cymuned Cwmbrân
- PGGG – Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent
- BPRhG – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
- YBGG – Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent
- CCH – Cyngor Cymuned Henllys
- CM – Cartrefi Melin
- CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru
- CCP – Cyngor Cymuned Ponthir
- CTP – Cyngor Tref Pont-y-pŵl
- PBT – Partneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen
- CBST – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- PCLlT – Partneriaeth Cyngor Lleol Torfaen
- CGT – Cyngor Gwirfoddol Torfaen

**Tabl 4.1 – Cynllun Gweithredu**

| Cyf | Gweithred | Cwmpas Gofodol | Amserlen / Fesul cyfnod | Partner(iaid) sy'n Arwain | Partneriaid sy'n Cefnogi |
|---|---|---|---|---|---|
| **Thema 1** | **Atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth SG a'r canllawiau** | | | | |
| 1a | Bwydo Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru i mewn i'r Asesiad SG | Ledled Torfaen | Tymor byr | CBST | CNC/PGGG |
| 1b | Diweddaru Arolwg Cynefinoedd Cam 1 | Ledled Torfaen | Tymor byr | CBST | CNC |
| 1c | Adolygu Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur | Ledled Torfaen | Tymor byr | CBST | PBT |
| 1d | Diweddaru'r Astudiaeth Mannau Agored | Prif Drefi | Tymor byr | CBST | PCLIT |
| 1e | Datblygu Pecyn Cymorth Asesu SG | Ledled Torfaen | Tymor byr | CBST | CNC |
| 1f | Datblygu Strategaeth Goed | Ledled Torfaen | Tymor byr | CBST | PBT |
| 1g | Gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer buddion iechyd a lles SG | Ledled Torfaen | Tymor byr | BPRhG | - |
| **Thema 2** | **Integreiddio'r dull SG mewn polisïau** | | | | |
| 2a | Alinio cynlluniau / polisïau / gweithdrefnau / adnoddau â'r Strategaeth SG | Ledled Torfaen | Tymor canolig | Holl Bartneriaid y BGC | - |
| **Thema 3** | **Enghreifftio'r dull SG yn yr ucheldiroedd** | | | | |
| 3a | Cyflawni Prosiect Ucheldiroedd Gwydn De Ddwyrain Cymru | Ucheldiroedd | Tymor canolig | CNC | YBGG, CBST, PTBB |
| **Thema 4** | **Gweithio gyda pherchnogion tir sector preifat a thrydydd sector** | | | | |
| 4a | Annog mabwysiadu'r dull rheoli SG yn ehangach | Ledled Torfaen | Tymor Hir | Holl Bartneriaid y BGC | - |

| Cyf | Gweithred | Cwmpas Gofodol | Amserlen / Fesul cyfnod | Partner(iaid) sy'n Arwain | Partneriaid sy'n Cefnogi |
|---|---|---|---|---|---|
| **Thema 5** | **Cefnogi perchnogaeth / rheolaeth gymunedol ar SG** | | | | |
| 5a | Archwilio opsiynau i drosglwyddo perchnogaeth trwy Gynlluniau Lle | Ledled Torfaen | Tymor Hir | CBST | CGT, PCLIT, TCBA, CM |
| 5a | Rhoi cymorth ar waith i gydlynu gweithgareddau gwirfoddoli | Ledled Torfaen | Tymor Hir | CGT | CBST, TLCP |
| **Thema 6** | **Codi ymwybyddiaeth a chyfranogiad wrth ddarparu SG** | | | | |
| 6a | Archwilio cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth/cymryd rhan | Ledled Torfaen | Cyfredol | Holl Bartneriaid y BGC | - |
| **Thema 7** | **Atgyfnerthu gwydnwch y Gridiau Gwyrdd Trefol** | | | | |
| 7a | Datblygu a chyflawni cyfleoedd SG yn lleol ar gyfer Blaenafon | Tref Blaenafon | Tymor Canolig | CBST, PCLIT | CTB, PTBB |
| 7b | Datblygu a darparu cyfleoedd SG yn lleol ar gyfer Pont-y-pŵl | Tref Pont-y-pŵl | Tymor Canolig | CBST, PCLIT | PTC |
| 7c | Datblygu a darparu cyfleoedd SG yn lleol ar gyfer Cwmbrân | Tref Cwmbrân | Tymor Canolig | CBST, PCLIT | CCC, CCCaLl, CCP, CCH |

## 4.4 Monitro’r Ddarpariaeth

4.4.1 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, bydd y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn cael ei hadolygu’n rheolaidd i sicrhau bod y wybodaeth am gynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion gwyrdd eraill yn cael ei diweddaru, fel y gall penderfyniadau ar reoli datblygu gael eu llywio gan wybodaeth briodol am effeithiau posibl datblygu ar fioamrywiaeth a swyddogaethau SG.

4.4.2 Bydd CBS Torfaen yn ei rôl fel yr awdurdod cynllunio lleol yn defnyddio'r data gorau sydd ar gael i fonitro set o rywogaethau a chynefinoedd allweddol i nodi a fu enillion neu golled net o ran bioamrywiaeth, a defnyddio'r tueddiadau a nodwyd i bennu blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer cynllunio a gwneud penderfyniadau.

4.4.3 Bydd y Cyngor yn ymgorffori'r dangosyddion hyn yn ei Adroddiadau Monitro Blynyddol a, lle bo hynny'n briodol, yn y cynllun a'r adroddiad priodol yn unol â Dyletswydd Adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

4.4.4 Bydd monitro llwyddiant a darparu gofynion lliniaru cynefinoedd a rhywogaethau a sicrheir trwy amodau a rhwymedigaethau hefyd yn bwydo i'r broses hon.

Midlands Office Third Floor The Birkin Building 2 Broadway Nottingham NG1 1PS T +44 (0)115 8386737 E mail@cbastudios.com W www.cbastudios.com
South East Office The Print Rooms Studio 511 164/180 Union St Waterloo London SE1 0LH
Directors D Watkins BSc MSc MRTPI FRGS • A Croft BA MA MCIfA
Senior Consultant C J Blandford BA DipLD MLA FLI
Chris Blandford Associates is the trading name of Chris Blandford Associates Ltd Registered in England No 03741865. Registered Office: Third Floor The Birkin Building 2 Broadway Nottingham NG1 1PS